



Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd

Papur Gwaith 127: Gwerthusiad o Effeithiolrwydd y Gronfa Cymunedau Diogelach (SCF) 2006 -2009



**Adroddiad Ymchwil Terfynol a Gyflwynwyd
i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan
Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe,
ac ARCS Ltd - Gorffennaf 2009**

**Gordon Hughes, Stephen Case, Adam
Edwards, Kevin Haines, Mark Liddle, Alison
Smith and Sam Wright**

ISBN 978-1-904815-90-7



www.cardiff.ac.uk/socsi

CYNNWYS

| | | |
|-------|---|----|
| 1 | Rhagarweiniad..... | 1 |
| 1.1 | Nodau ymchwil allweddol..... | 1 |
| 1.2 | Cyd-destun gwaith diogelwch cymunedau yng Nghymru..... | 1 |
| 1.2.1 | Ymestyn Hawliau | 2 |
| 1.2.2 | Strategaeth Troseddwy Ifanc Cymru Gyfan..... | 3 |
| 1.2.3 | Atal Troseddau Ieuenctid yng Nghymru: Canllaw Strategol..... | 3 |
| 1.3 | Rôl SCF..... | 4 |
| 2 | Dyluniad ymchwil ac amlinelliad o'r adroddiad..... | 5 |
| 2.1 | Adolygiad o'r ymchwil presennol (Adran 3)..... | 5 |
| 2.2 | Dadansoddiad o duedd troseddau ieuenctid a chanlyniadau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru (Adran 4)..... | 5 |
| 2.3 | Dadansoddiad o ddeunydd cronfa ddata SCF (Adran 5)..... | 5 |
| 2.4 | Archwiliad o dair ardal astudiaeth achos (Adran 6)..... | 5 |
| 3 | Adolygiad o ymchwil presennol..... | 6 |
| 3.1 | Atal troseddau yn y gymuned ar gyfer pobl ifanc..... | 7 |
| 3.1.1 | Cymunedau sy'n Gofalu yn y DU..... | 7 |
| 3.1.2 | Paneli Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid (YISPs)..... | 8 |
| 3.1.3 | Rhaglenni Cynhwysiant Ieuenctid (YIPs)..... | 8 |
| 3.2 | Crynodeb..... | 8 |
| 4 | Dadansoddiad o duedd: trosedd ieuenctid yng Nghymru | 9 |
| 4.1 | Tueddiadau cyffredinol mewn trosedd ieuenctid a gofnodwyd..... | 9 |
| 4.1.1 | Proffiliau troseddwy..... | 9 |
| 4.1.2 | Pobl ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru..... | 10 |
| 4.2 | Crynodeb..... | 12 |
| 5 | Dadansoddiad o ddeunydd a gedwir ar gronfa ddata SCF..... | 14 |
| 5.1 | Rhagarweiniad..... | 14 |
| 5.1.1 | Nodyn ar gymariaethau ardal..... | 14 |
| 5.2 | Dyraniadau arian SCF..... | 14 |
| 5.3 | Ymyriadau a ariennir gan SCF..... | 16 |
| 5.3.1 | Nifer cyffredinol yr ymyriadau..... | 16 |
| 5.4 | Cymharu SCF â ffynonellau ariannu eraill..... | 18 |
| 5.4.1 | Arian yn ôl math yr ymagwedd lleihau trosedd | 19 |
| 5.5 | Patrymau ariannu SCF: ymyriadau gyda phobl ifanc | 23 |
| 5.6 | Crynodeb..... | 24 |
| 6 | Astudiaethau Achos Prosiectau SCF..... | 26 |
| 6.1 | Dyluniad a dethol astudiaethau achos..... | 26 |
| 6.2 | Ardal astudiaeth achos 1 - Sir Y Fflint..... | 28 |
| 6.2.1 | Menter lleihau/atal trosedd..... | 28 |
| 6.2.2 | Prosiect atgyweirio cymuned..... | 30 |
| 6.2.3 | Prosiect addysg am gyffuriau..... | 32 |
| 6.3 | Ardal astudiaeth achos 2 - Rhondda Cynon Taf..... | 35 |
| 6.3.1 | Prosiect Cyfiawnder Adferol mewn Ysgolion..... | 35 |
| 6.3.2 | Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol..... | 38 |
| 6.3.3 | Parth Diogelwch..... | 41 |
| 6.3.4 | Y Clwb Nos Wener..... | 43 |
| 6.4 | Ardal astudiaeth achos 3 - Abertawe..... | 45 |
| 6.4.1 | Y prosiect "Atal a Rhwystro"..... | 46 |
| | Gwaith Ymddygiad Gwrthgymdeithasol..... | 46 |

| | |
|---|----|
| Y Cynllun Her Gwasanaeth Antur..... | 49 |
| Prosiect Pontio'r Cenhedloedd West Side..... | 50 |
| 6.4.2 Y prosiect Cynhwysiant Chwaraeon (Rugbywise)..... | 52 |
| 6.4.3 Gweithiwr Rheoli Dicter ac Ymchwil..... | 54 |
| 6.5 Canfyddiadau ar draws yr astudiaethau achos..... | 55 |
| 6.5.1 Darpariaeth y prosiect..... | 56 |
| 6.5.2 Ymgynghori â'r Gymuned | 56 |
| 6.5.3 Tystiolaeth o arferion effeithiol..... | 57 |
| 6.5.4 Monitro a gwerthuso..... | 57 |
| 6.5.5 Ymagweddau at ddatrys problemau..... | 57 |
| 7 Casgliadau ac argymhellion..... | 60 |
| 7.1 Crynodeb o'r Canfyddiadau..... | 60 |
| 7.1.1 Dadansoddiad o duedd..... | 60 |
| 7.1.2 Cronfa Ddata o Brosiectau a Ariennir gan SCF..... | 60 |
| 7.1.3 Gwaith maes astudiaethau achos..... | 60 |
| 7.2 Argymhellion/Opsiynau ar gyfer Newid..... | 61 |
| 7.2.1 Gwella monitro a goruchwyliaeth y rhaglen SCF..... | 62 |
| 7.2.2 Gwella atebolrwydd rolau comisiynu CSP..... | 62 |
| 7.2.3 Nodi amcanion ar gyfer gwaith atal troseddau ieuenctid cymunedau..... | 62 |
| 7.2.4 Gwerthusiad systematig o waith atal troseddau ieuenctid yn y gymuned..... | 63 |
| 7.3 Gwneud y mwyaf o effaith posibl ymyriadau..... | 64 |
| Atodiad 1 - Dadansoddiad o duedd..... | 67 |
| Atodiad 2 - Disgrifiad o gategorïau dadansoddol..... | 69 |

Rhagarweiniad

Dechreuodd y Gronfa Cymunedau Diogelach (SCF) ym mis Mawrth 2003. Ei nod presennol yw cefnogi gweithrediad Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan (2004), sy'n ceisio lleihau nifer y newydd-ddyfodiaid i'r system gyfiawnder troseddol a chyfraddau aildroseddu. **Yn ystod 2006-09, mae cyfanswm o £13,473,498 yn cael ei ddsbarthu ar draws y 22 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru - ar gyfer prosiectau sy'n ceisio lleihau trosedd ac anhrefn ieuencid.**

Nodau ymchwil allweddol

Ym mis Ionawr 2008, cafodd Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe ac ARCS Ltd eu comisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i "asesu dyluniad, gweithrediad ac effeithiolrwydd y Gronfa Cymunedau Diogelach (2006-9)" ar draws 22 awdurdod lleol Cymru. Y nodau penodol a restrwyd yn y ddogfennaeth comisiynu oedd:

- "Gallu rhoi cyngor i gynlluniau a phrosiectau i alluogi'r prosiectau i fod yn fwy effeithiol yn nhrydedd flwyddyn y cynllun;
- Gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y cynllun a'r mathau o brosiect yn y cynllun"; a
- "Gwneud argymhellion ynglŷn â mentrau posibl o natur debyg yn y dyfodol."

Hefyd, y bwriad oedd bod y gwerthusiad yn archwilio gweithgareddau SCF yn nhermau meini prawf SARA¹ ar lefel cyffredinol (lle bo archwiliad o brosiect ac adborth ardal mewn perthynas â phenawdau allweddol SARA i gael ei gynnal) ac ar lefel ardal/prosiect, lle'r oedd cadw at ymagwedd SARA i fod i hysbysu detholiad astudiaethau achos i'w dadansoddi'n fanylach (a lle'r oedd y tîm ymchwil i fod i "archwilio'r sail resymegol a'r penderfyniadau a wnaed gyda golwg ar benawdau pwnc SARA" mewn ardaloedd lleol).

Yn fyr, nod y gwerthusiad oedd darparu asesiad canol tymor cadarn o'r cynnydd hyd yma ar lefel cenedlaethol a lleol – gan ddarparu angor i'r argymhellion ynglŷn â siâp a chyfeiriad gwaith atal troseddau ieuencid yn y dyfodol ar draws Cymru.

Cyd-destun gwaith diogelwch cymunedol yng Nghymru

Mae darpariaeth diogelwch cymunedol yng Nghymru'n digwydd o fewn strwythurau cyfreithiol, gwleidyddol, ariannol a chyfundrefnol cymhleth. Mae cyfrifoldeb wedi'i rannu rhwng yr Adran Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Swyddfa Gartref ranbarthol yng Nghymru, a'r awdurdodau sy'n gyfrifol am bob un o'r 22

¹ Meini prawf SARA yw: *Sganio*: adnabod y broblem yn glir; *Dadansoddi*: dadansoddiad systematig o'r broblem; *Ymateb*: rheoli perfformiad – gan gynnwys manylion dangosyddion perfformiad a thargedau; *Asesu*: gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyriad.

partneriaeth diogelwch cymunedol². Er nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n meddu ar rymoedd gwneud penderfyniadau llawn dros blismona a chyfiawnder troseddol ar hyn o bryd, mae ganddo rymoedd dros feysydd o bolisi cymdeithasol sydd o bwysigrwydd canolog i ddiogelwch cymunedol a gwaith cyfiawnder ieuencid³.

Gall y cyd-destun rhannol datganoledig hwn ar gyfer gwaith diogelwch cymunedol yng Nghymru gyflwyno her fawr i bartneriaethau lleol y mae'n rhaid iddynt geisio cysoni amcanion Llywodraeth y Cynulliad â blaenoriaethau lleol ac agenda'r Swyddfa Gartref⁴. Fodd bynnag, mae prosesau datganoli wedi darparu cyfleoedd i ddatblygu ymagwedd sy'n nodedig Gymreig at bolisi cyfiawnder ieuencid (Haines et al., 2004; Morgan 2002). Er enghraifft, fel y mae Haines a Case (2008) yn nodi, 'mae polisi ataliol (ond realiti cosbol) cyfiawnder Saesneg' yn cyferbynnu'n fawr â'r 'polisi plant yn gyntaf yng Nghymru'.

Mae'r tair prif strategaeth sy'n tanategu'r egwyddor Gymreig hon - Ymestyn Hawliau (2002); Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan' (2004); ac Atal Troseddau Ieuencid yng Nghymru: Canllaw Strategol (2008) - wedi'u crynhoi isod.

Ymestyn Hawliau

Ar ôl mabwysiadu ymagwedd hawliau plant cyffredinol sydd wedi'i seilio ar Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, mae cyfres o hawliau cyffredinol wedi'u datblygu ar gyfer Cymru sy'n adlewyrchu'r dyheadau ar gyfer pob person ifanc, gan gymryd persbectif eglur, positif a chynhwysol.

Prif nodweddion Ymestyn Hawliau yw:

- mae wedi'i dargedu at yr **holl** bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed sy'n byw yng Nghymru ac mae'n ymwneud â'r **holl** agweddau ar eu bywydau;
- mae'n ceisio gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a'r dewisiadau sydd ar gael i bob person ifanc – gan hybu mynediad i wella gweithgareddau a ffocysu ar ddyheadau a chyflawniad pob person ifanc;
- mae'n ceisio cynnwys yr holl asiantaethau a sefydliadau cenedlaethol a lleol y mae eu gwaith yn effeithio ar y cyfleoedd a'r dewisiadau sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru;
- mae'n strategaeth hirdymor sy'n cynnwys newidiadau mewn strwythur, diwylliant ac agwedd wrth ddarparu gwasanaethau a chymorth;
- er bod canlyniadau byr-dymor yn bwysig, mae'n cydnabod bod yr elwau gwirioneddol i'w cael drwy fuddsoddi yn y dyfodol ac y bydd tystiolaeth o'r effaith hwn yn cymryd amser i ddod i'r amlwg.
- Cydnabyddir pwysigrwydd casglu gwybodaeth barhaus am effaith Ymestyn Hawliau er mwyn asesu effeithiolrwydd a hybu gweithredoedd lleol mewn ardaloedd sydd mwyaf mewn angen.

² At hyn, mae'r gwahanol broffiliau poblogaeth ar gyfer pob CSP wedi arwain at economïau maint anhafal wrth ddarparu ymyriadau diogelwch cymunedol.

³ Er enghraifft, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ieuencid, yn ogystal ag adfywio a datblygu cymunedol. Hefyd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn fformiwleiddio polisi ar gamddefnyddio sylweddau a chynhwysiant ieuencid, sy'n flaenoriaethau strategol presennol – gweler Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Cymru: Gwlad Well*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

⁴ Ar hyn o bryd, gwneir hyn yn anoddach fyth gan Raglen Ddiwygio'r Swyddfa Gartref.

Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan

Mae'r strategaeth hon yn darparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer atal pobl ifanc yng Nghymru rhag troseddu ac ail-droseddu – gan fynegi'r egwyddor trosfwaol y dylid 'trin pobl ifanc fel plant yn gyntaf ac fel troseddwy'r yn ail' (Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2004). Mae'n mynnu bod rhaid cymryd camau i nodi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a darparu rhaglenni addas i'w hail-ymgysylltu a'u gwyro oddi wrth ymddygiad troseddu.

Mae yna bum lefel o ymyriad - ataliol, ymyriad cynnar, dedfryd gymunedol, cystodaeth ac ailgyfanheddiad - ac mae camau arfaethedig yn cynnwys:

- lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu waith;
- datblygu ystod o raglenni cymunedol effeithiol;
- partneriaethau lleol yn gweithio ar y cyd i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a datblygu ymatebion priodol;
- partneriaethau lleol i weithio ar y cyd i adnabod a thargeddu a hwyluso ymyriad priodol gyda phobl ifanc sy'n troseddu;
- trefniadau addysg a hyfforddiant i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid;
- datblygu darpariaeth briodol ar gyfer pobl person ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid i sicrhau y gallant gyrchu eu hawl sylfaenol cyffredinol i gymorth a gwasanaethau;
- dedfrydau yn y gymuned fel dull amgen i gystodaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu (lle bo hyn er pennaf les y plentyn), a
- bod plant a phobl ifanc o Gymru sy'n myned i gyfleusterau cadwraethol yn Lloegr yn cael yr un hawliau â'u cymheiriaid Saesneg a phlant a phobl ifanc eraill yng Nghymru.

Felly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi symud oddi wrth bolisi oedd yn negyddol, rheolaethol ac yn canolbwyntio ar broblemau tuag at bobl ifanc, ac yn lle hyn, mae wedi sefydlu fframwaith polisi sy'n ymgorffori barn bositif o bobl ifanc, ac o'r hyn y gellir ei wneud i gyflawni gweledigaeth Cymru Well. Mae Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan ac Ymestyn Hawliau yn mynegi ymagwedd gydgyssylltiedig at hybu hawl cyffredinol, ymddygiad rhag-gymdeithasol, ac ymdrin ag anghenion pobl ifanc, yn hytrach na chanolbwyntio ar ba risgiau y maent yn eu peri neu ba gostau y gallent eu gosod.

Atal Troseddau Ieuencid yng Nghymru: Canllaw Strategol

Mae'r canllaw hwn yn ceisio cyfuno'r agenda 'risg a hawliau', a'r ymagweddau a dargedir a chyffredinol, er mwyn cyflawni'r canlyniad allweddol sef lleihau nifer y bobl ifanc sy'n myned i'r system cyfiawnder ieuencid. Yn fyr, mae'r canllaw hwn yn pwysleisio 'ymagwedd wedi'i thargeddu at atal troseddau ieuencid ac ymddygiad gwrthgymdeithasol' wrth geisio amlinellu 'ymagwedd holistaidd at gyfiawnder ieuencid ben wrth ben yng Nghymru' ar yr un pryd (Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, 2008).

Mae'r canllaw yn disgrifio ymagwedd dair-haen at atal troseddau ieuenctid:

- ymyriad gwrthdiniadol - a ddarperir yn bennaf gan wasanaethau cyffredinol;
- gwaith ataliol partneriaethau - targedu plant a phobl ifanc unigol sydd wedi'u nodi'n rhai sydd ar fin troseddu, sy'n rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu sy'n destun nifer o ffactorau risg; ac,
- ymyriad cynnar - sy'n ffocysu ar blant a phobl ifanc sydd yng nghyfnodau cynnar ymglymiad â'r system cyfiawnder ieuenctid.

Rôl SCF

Mae'r Gronfa Cymunedau Diogelach (SCF) yn cael ei ddyrannu gan Adain Diogelwch Cymunedol Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad. Ochr yn ochr â Grant Atal y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i Dimau Troseddau Ieuenctid, mae SCF yn darparu'r adnoddau ariannol hanfodol sy'n tanategu ymyriadau atal troseddau ieuenctid ar draws Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs) a Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid (YOTs) yng Nghymru. Cafodd yn agos i £4.3m o arian ei gymeradwyo gan SCF rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007, a chynyddodd y swm hwn i dros £4.6m rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2008⁵. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod SCF yn darparu tua 20% o gyllidebau CSPs lleol. (Edwards & Hughes, 2008).

⁵ Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o tua 7% ym mhob ardal, ac eithrio Merthyr Tudful lle cododd dros 46%.

Dyluniad ymchwil ac amlinelliad o'r adroddiad

Mae'r asesiad canol tymor hwn o'r rhaglen SCF wedi ffocysu ar weithrediad ac (i raddau llai) effeithiau mesuradwy ymyriadau SCF, trwy ddefnyddio cyfuniad o ddulliau a thystiolaeth ymchwil meintiol ac ansoddol. Caiff pob cainc o'r prosiect ymchwil ei ddisgrifio'n gryno isod.

Adolygiad o'r ymchwil presennol (Adran 3)

Mae'r adolygiad byr hwn yn rhoi trosolwg o ymchwil presennol ar ymyriadau atal trosedd yn y gymuned sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc, a chrynodeb o a thrafodaeth ar y llenyddiaeth sydd ar gael sy'n ymwneud ag ymagweddau datrys problemau at waith ataliol o'r fath (fel SARA, y cyfeirir ato'n fanylach yn Adran 5 isod).

Dadansoddiad o duedd troseddau ieuenctid a chanlyniadau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru (Adran 4)

Ymgwymerodd y tîm ymchwil â chymhariaeth hydredol o dueddiadau cenedlaethol blynyddol mewn troseddau ieuenctid a gofnodwyd yn swyddogol a nifer y newydd-ddyfodiaid i'r system cyfiawnder ieuenctid ers 2002/03.

Dadansoddiad o ddeunydd cronfa-ddata SCF (Adran 5)

Roedd un o geinciau allweddol yr ymchwil yn cynnwys holi data a gofnodwyd ar y Gronfa Ddata Prosiect Ariannu ar-lein. Cafodd deunydd oedd ar y gronfa ddata ei grynhoi a'i asesu er mwyn:

- disgrifio ehangder a chynnydd gweithgaredd a ariennir gan SCF yn genedlaethol,
- archwilio i ba raddau y mae ardaloedd a phrosiectau unigol wedi "cadw at feini prawf SARA", a hefyd
- disgrifio i ba raddau y mae prosiectau lleol yn cyd-fynd â Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan;

Caiff canfyddiadau'r dadansoddiad eu cyflwyno yn yr adran hon ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd a, lle bo'n bosibl, ar gyfer pob un o'r 22 ardal CSP.

Archwilio tair ardal astudiaeth achos (Adran 6)

Roedd elfen astudiaeth achos y gwerthusiad yn galw am ymchwil manwl mewn tair ardal ddetholedig: Rhondda Cynon Taf, Sir Y Fflint ac Abertawe⁶. Dewiswyd ardaloedd yma oherwydd bod gan bob un enw da am waith diogelwch cymunedol arloesol a llwyddiannus, a chofnod da o waith cyfiawnder ieuenctid.

⁶ Hefyd, cynhaliodd y tîm rhai trafodaethau sgopio cychwynnol gyda rhanddeiliaid allweddol yn Wrecsam cyn dewis y safleoedd astudiaethau achos terfynol.

Roedd yr ymchwil astudiaeth achos yn cynnwys:

- casglu a dadansoddi dogfennaeth a data lleol;
- cyfweiliadau unigol a grwpiau ffocws gyda chynrychiolwyr asiantaethau (o reolwyr strategol i weithwyr prosiect);
- trafodaethau grŵp gyda phobl ifanc ar brosiectau; a,
- lle bu'n bosibl, cyfweiliadau a thrafodaethau grŵp gyda chynrychiolwyr cymunedol.

Adolygiad o ymchwil presennol

Atal troseddau yn y gymuned ar gyfer pobl ifanc

Mae Newburn a Souhami (2005) wedi disgrifio y newid eang yn y ffordd y caiff gwyro ieuentid ac atal troseddau ieuentid eu synio – gan symud oddi wrth egwyddor broffesiynol lleihau lefel y cyswllt gyda'r system cyfiawnder ffurfiol (yr ymagwedd drechaf 20 neu 30 blynedd yn ôl), i'r ymagwedd sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd o ymyriad cynt a helaethach ym mywydau pobl ifanc. Yn ei dro, mae asesiad 'llwyddiant' wedi newid. Lle, yn y 1980au, 'gwyro' oedd y prif nod, yn ddiweddar, gyda dyfodiad y symudiad 'yr hyn sy'n gweithio', mae sylw wedi symud at fesur sut a pham mae gwahanol fesurau'n effeithio ar lefelau a mathau'r troseddau a gyflawnir gan bobl ifanc. Er hynny, mae tystiolaeth ymchwil ar 'yr hyn sy'n gweithio' gyda throseddwyr ifanc yn parhau i fod, yng ngeiriau Newburn a Souhami:

Slight and in most cases rather inconclusive. Much of the research that has been undertaken is poorly equipped to provide the kind of evidence being sought, with the vast majority of what has been done in the name of 'evaluation' in this area being small in scale, slight in ambition or poor in execution.

Er gwaethaf hyn, mae'n bwysig ystyried beth mae'r gymuned ymchwil wedi dod o hyd iddo mewn perthynas ag atal troseddau yn y gymuned ar gyfer pobl ifanc.

Yng nghanol y 1990au, cynigodd Farrington (1996) y dylai'r DU fabwysiadu ymagwedd oedd yn seiliedig ar raglen 'Cymunedau sy'n Gofalu' (CtC) yr Unol Daleithiau - rhaglen datblygu cymdeithasol i leihau risg a chynyddu amddiffyniad mewn cymunedau lleol⁷. O gwmpas yr un pryd, hyrwyddodd adolygiad (o ddulliau i leihau aildroseddu) a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref y defnydd o atal troseddau cymunedol (CCP) yn y DU (Hope, 1998) - yn fwy penodol, ei dargedu at gymunedau lle'r oedd troseddu'n uchel a datblygu mentrau cymunedol cynhwysfawr (CCIs) i fynd i'r afael â'r problemau cymdeithasol niferus, a oedd yn aml yn gydberthnasol, sy'n gallu cynhyrchu trosedd a chanlyniadau negyddol eraill. At hyn, mae ymchwil diweddarach (gweler Archer et al., 2002) wedi darganfod bod 'ymagweddau holistaidd a chydgyssylltiedig' (fel CCIs) yn cynnig y ffyrdd mwyaf addawol o CCP gyda phobl ifanc. Isod, amlinellir nifer o enghreifftiau o fentrau 'addawol' yn y gymuned.

Cymunedau sy'n Gofalu yn y DU

Daeth y gwerthusiad o Gymunedau sy'n Gofalu (CtC)⁸ y DU i'r casgliad bod y model CtC yn ymagwedd 'addawol' at CCP gyda phobl ifanc oherwydd ei fod yn darparu sail resymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cymhwyso gwybodaeth mewn rhaglenni cymdogaeth ymarferol ac fe hyrwyddodd

⁷ Mae CtC yn cefnogi cymunedau sydd dan anfantais gymdeithasol a rhai a chanddynt lefelau trosedd uchel wrth gynnal asesiadau risg ac wrth gynllunio ymyriadau o gwmpas ffactorau cymdogaeth a seicolegol cymuned-benodol sy'n gysylltiedig yn ystadegol ag ymddygiad negyddol hunan-gofnodedig (e.e. troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, defnyddio cyffuriau, methu yn yr ysgol, beichiogrwydd) ymhlith pobl ifanc yn y gymuned – gweler Hawkins a Catalano (1992).

⁸ Sefydlwyd CtC ym 1997 gyda chymorth ariannol y 'Joseph Rowntree Foundation', ac erbyn hyn mae CtC wedi'i sefydlu mewn dros 30 o gymunedau yn y DU.

partneriaethau oedd yn ffocysu ar risg rhwng cymunedau a gweithwyr proffesiynol. Er bod gwerthusiad wedi darganfod bod gwendidau'r rhaglen yn bennaf o ganlyniad i fethiant o ran gweithredu, rhybuddiodd France a Crow (2005) ei fod yn anodd priodoli llwyddiant mewn cymuned benodol i unrhyw un rhaglen unigol a bod defnyddio meini prawf 'yr hyn sy'n gweithio' i werthuso rhaglen CCP yn parhau i fod yn ddyrws o ganlyniad i'w natur cymhleth a'u ffocws darparu cyffredinol⁹.

Paneli Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid (YISPs) ¹⁰

Nododd werthusiad o YISPs (Walker et al., 2007) gyfres o 'elfennau o arferion addawol' yn gysylltiedig ag YISPs, yn benodol datblygiad partneriaethau aml-asiantaeth ar lefel strategol a darparu gwasanaethau, y defnydd o ymyriadau lluosog o fewn rhaglenni holistaidd a chyfranogiad a chynhwysiant plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ym mhob cam o'r broses.

Rhaglenni Cynhwysiant Ieuenctid (YIPs) ¹¹

Darganfu'r gwerthusiad cenedlaethol o dair blynedd gyntaf YIPs bod cyfraddau arestio mewn ardaloedd YIP wedi disgyn 65%, a bod cyfraddau arestio ymysg troseddwr presennol wedi disgyn 73% ers dechreuad yr YIP (Morgan Harris Burrows, 2003). Canmolodd y gwerthuswyr y fenter YIP, gan ddweud ei fod yn arloesol, cydlynol ac wedi'i seilio ar dystiolaeth empirig o ffactorau risg diffiniedig ar gyfer troseddau ieuenctid a'r 'hyn sy'n gweithio' wrth ymdrin â'r ffactorau risg hyn.

Crynodeb

Mae gwerthusiad lleihad trosedd yn y gymuned yn ei fabandod o hyd, sy'n golygu ei fod yn rhy gynnar i geisio llunio unrhyw gasgliadau cadarn am ei effeithlonrwydd. Nid yw llawer o ymyriadau cyffredin erioed wedi'u gwerthuso'n iawn, ac nid yw llawer o werthusiadau llwyddiannus wedi'u dyblygu'n ddigon aml i ddarparu canfyddiadau y gellir eu cyffredinoli. Mae angen gwerthusiadau mwy trwyadl o ansawdd uchel i feithrin y sail dystiolaeth. Yn wir, efallai y bydd angen dulliau gwerthuso newydd er mwyn profi'r prosesau mwy cymhleth,

⁹ Roedd y gwerthusiad mawr a gynhaliwyd o CTeC mewn tri safle yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys holiadur factor risg yn yr ysgol ac astudiaethau achos o sut yr oedd cymunedau'n dewis y ffactorau risg pwysicaf i'w targedu'n lleol, sut y roeddynt yn archwilio'u hadnoddau lleol a sut roeddynt yn llunio cynlluniau gweithredu i ddarparu ymyriadau- gweler France a Crow (2005).

¹⁰ Mae'r fenter Paneli Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid (YISPs) yn cael ei ariannu gan y Gronfa Plant a chaiff ei oruchwylio gan Dîm Cymorth Rhaglen Atal y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae YISPs wedi'u lleoli mewn Timau Troseddau Ieuenctid (YOTs) yng Nghymru a Lloegr a'u nod yw atal cychwyniad ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau gan blant 8 i 13 oed. Caiff y '50 uchaf' o bobl ifanc a ystyrir eu bod 'mewn perygl' o droseddu eu cyfeirio at yr YOT gan asiantaethau lleol, lle cynhelir asesiad risg ohonynt trwy ddefnyddio'r offeryn 'Onset'. Ar ôl yr asesiad hwn, mae paneli aml-asiantaeth yn teilwra ymyriadau i weddu proffil risg y person ifanc trwy ddefnyddio rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth y mae'r YJB wedi'u nodi'n rhai 'sy'n gweithio' i leihau troseddau ieuenctid.

¹¹ Cafodd Rhaglenni Cynhwysiant Ieuenctid (YIPs) eu sefydlu yn 2000 yn rhaglenni wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc 8 i 17 oed a ystyrir eu bod mewn perygl mawr o fynd yn rhan o drosedd yn 110 o gymdogaethau mwyaf amddifad yn gymdeithasol / trosedd uchel Cymru a Lloegr. Caiff pobl ifanc risg uchel ym mhob cymdogaeth eu nodi gan yr YOT, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau addysg lleol neu ysgolion, wardeniaid cymdogaeth a thimau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Goliau YIPs yw cynnwys y bobl ifanc risg uchel hyn mewn ymyriadau adeiladol a ddarperir gan nifer o asiantaethau ac sy'n ffocysu ar, er enghraifft, gwella mynediad at wasanaethau prif ffrwd, datblygiad sgiliau, addysg, arweiniad gyrfaoedd, mwy o gyfleoedd am weithgareddau hamdden a darparu delfrydau ymddwyn/mentoriaid positif sy'n oedolion.

anuniongyrchol sy'n cael eu hystyried yn hanfodol os am alluogi newid (Maruna ac ARCS Ltd, 2008).

Dadansoddiad o duedd: troseddau ieuentid yng Nghymru ¹²

Prif nod yr adran hon yw disgrifio'r cyd-destun y mae'r Gronfa Cymunedau Diogelach a'r CSPs yn gweithio ynddo. Cyn cyflwyno'r dadansoddiad o duedd, mae'n hanfodol codi rhai cafeadau:

- Nid yw data troseddau a gofnodwyd o reidrwydd yn darparu darlun cynhwysfawr o droseddau¹³;
- Gall arferion cofnodi fod yn wahanol o ardal i ardal a gallent newid dros amser, gan wneud cymariaethau hydredol yn ddyrys; a,
- Nid yw dadansoddiadau o dueddiadau disgrifiadol yn caniatáu i unrhyw gysylltiadau hamddenol gael eu llunio rhwng newidiadau mewn trosedd ac ymyriadau penodol¹⁴.

Tueddiadau cyffredinol mewn troseddau ieuentid a gofnodir

Rhwng 2002 a 2007, cwmpodd troseddau ieuentid a gofnodwyd 12%¹⁵. Yn ystod yr un cyfnod, y mathau mwyaf cyffredin o droseddau ieuentid a gofnodwyd yng Nghymru oedd troseddau moduro (21%), wedi'u dilyn gan ddwyn a thrin (17%), trais yn erbyn person (13%), difrod troseddol (12%) a thramgwyddau yn erbyn y drefn gyhoeddus (10%)¹⁶. Mae nifer y troseddau moduro wedi disgyn yn gyson ond mae tramgwyddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a thorri gorchmynion statudol wedi codi'n gyson. Roedd y darlun yn gymysg ar gyfer mathau eraill o drosedd¹⁷.

Roedd nifer y troseddwy'r ifanc a gofnodwyd fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth ieuentid yn amrywio o 1 i 6% yn 2007-08¹⁸. Nid oedd yna dueddiad cyson o ran nifer y troseddwy'r ifanc a gofnodwyd ym mhob ardal YOT. Rhwng 2006-07 a 2007-08, ni chofnododd rhan fwyaf yr ardaloedd YOT unrhyw newid¹⁹ tra chofnododd eraill gwmpadau bychain (1-2%)²⁰.

Proffiliau troseddwy'r

Ethnigrwydd

Cyflawnwyd rhan helaethaf y troseddau ieuentid yng Nghymru gan bobl ifanc gwyn (97% yn 2006-07, a 96% yn 2007-08).²¹

¹² Darparwyd data ar droseddau ieuentid a gofnodwyd ar gyfer 2002-2007 gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru a Lloegr. Hefyd, ceisiwyd cael gafael ar ddata ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod, ond ni fu'n bosibl diogelu set-ddata berthnasol.

¹³ Nid ydynt yn cynnwys trosedd na chafodd ei adrodd, ei ganfod neu hyd yn oed ei gofnodi.

¹⁴ Fel sy'n wir am unrhyw ddata ar dueddiadau, byddai disgwyl rhywfaint o newid ar hap o flwyddyn i flwyddyn a hyd yn oed pan arsylwir newidiadau gwirioneddol mae'n debygol bod rhesymau cymhleth ac amlochrog y tu ôl i'r rhain. Mae gwerthusiadau ar raddfa fawr yn dueddol o ddefnyddio dulliau gwerthuso arbrofol neu lled-arbrofol (gan gynnwys dulliau ystadegol aml-amrywedd) i geisio datod yr effeithiau lluosog ar newidiadau a arsylwyd ond roedd dadansoddiad o'r fath y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn

¹⁵ O 18,957 i 16,676 o droseddau at ei gilydd.

¹⁶ Am fwy o fanylion, gweler Tabl 1 yn Atodiad 1.

¹⁷ Am fwy o fanylion, gweler Tabl 2 yn Atodiad 1.

¹⁸ Gan nad oes ystadegau ar gael hyd yma ar gyfer cyfanswm nifer y troseddau a gyflawnwyd yn 2007-08, mae'n anodd asesu a yw newidiadau yn nifer y troseddau a gofnodwyd wedi trosi'n newidiadau cyffelyb yn nifer y troseddau a gyflawnwyd.

¹⁹ Blaenau Gwent a Chaerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Conwy a Sir Ddinbych, Merthyr, Sir Fynwy, Castell Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe, Bro Morgannwg.

²⁰ Sir Gâr, Sir Y Fflint, Powys, Wrecsam. Ceir mwy o fanylion am y dadansoddiad hwn yn Atodiad 1

²¹ Yng Nghymru, y boblogaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yw 2.1%, o'i gymharu â 9.1% yn Lloegr, ac 8.7% yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd.

Rhyw

Rhwng 2002 a 2007, cwmpodd troseddau ieuenctid gwrywaidd 14% (o 16,258 o droseddau i 13,597 o droseddau). Yn yr un cyfnod, cynyddodd troseddau ieuenctid benywaidd 14% (o 2,699 o droseddau i 3,079 o droseddau). Mae canran cyfanswm y troseddau ieuenctid a gofnodwyd yng Nghymru a gyflawnwyd gan wrywod wedi disgyn o flwyddyn i flwyddyn o 86% yn 2002-03 i 81% yn 2006-07 wrth i droseddau gan fenywod gynyddu. Roedd gwrywod rhwng 10 ac 17 oed yn gyfrifol am 83% o'r troseddau ieuenctid a gofnodwyd yn gyffredinol rhwng 2002-2007. Cysylltwyd cyfraddau uwch na'r cyfartaledd ar gyfer troseddau gan wrywod gyda throseddau moduro (97% wedi'u cyflawni gan wrywod), dwyn cerbydau (92% gan wrywod), a byrgleriaethau (93% o fyrgleriaethau domestig a 95% o fyrgleriaethau annomestig). O gymharu â'r gyfradd gyffredinol ar gyfer troseddau ieuenctid a gyflawnwyd gan fenywod, sef 17%, roedd troseddau fel dwyn a thrin (32% wedi'u cyflawni gan fenywod), trais yn erbyn person (27% wedi'u cyflawni gan fenywod) a thramgwyddau yn erbyn y drefn gyhoeddus (24% wedi'u cyflawni gan fenywod) yn cael eu cysylltu'n amlach â throseddau ieuenctid benywaidd.

Oed

Mae nifer y troseddau a gofnodwyd yn cynyddu gydag oed y person ifanc - tuedd sy'n parhau i fod yn gyson o flwyddyn i flwyddyn o 2002-2007. At ei gilydd, cyflawnwyd mwy na hanner y troseddau (56%) gan bobl ifanc 16 ac 17 oed (26% gan bobl ifanc 16 oed, a 30% gan bobl ifanc 17 oed). Fodd bynnag, cyflawnwyd 77% o droseddau moduro gan bobl ifanc 16-17 oed. I'r gwrthwyneb, cyflawnwyd 44% o droseddau ieuenctid gan y rheiny oedd rhwng 10-15 oed. Roedd y grwpiau oed iau yn fwy cysylltiedig â dwyn a thrin a difrod troseddol (cyflawnwyd 59% o droseddau gan bobl ifanc 10-15 oed).

Pobl Ifanc yn y System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru**Newydd-ddyfodiaid (FTEs)²² i'r system cyfiawnder ieuenctid²³**

- Bu cwmp yn nifer yr FTEs i'r System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru rhwng 2005-06 a 2006-07 – o 5,425 i 4,690 o newydd-ddyfodiaid .
- Fel canran o gyfanswm y boblogaeth ieuenctid cyffredinol ym mhob ardal, amrywiodd nifer y newydd-ddyfodiaid i'r System Cyfiawnder Ieuenctid bob blwyddyn rhwng 1% a 4%. Cofnododd rhan fwyaf yr ardaloedd bod lefel y newydd-ddyfodiaid bob blwyddyn rhwng 1-2% o'r boblogaeth ieuenctid, ar wahân i Wynedd Môn yn 2006-07 (4%) a Wrecsam yn 2006-07 (3%).
- Ni fu unrhyw gynnydd yn unrhyw ardal o 2006-07 i 2007-08 yn nhermau newydd-ddyfodiaid fel canran o gyfanswm y bobl ifanc yn yr ardal.
- Roedd cyfanswm nifer y newydd-ddyfodiaid yng Nghymru yn 2005-06 a 2006-07 yn sylweddol is nag yn unrhyw ardal arall ar draws Cymru a Lloegr sy'n darparu ffigurau i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- Mae'r cwmp 14% mewn newydd-ddyfodiaid yng Nghymru rhwng 2005-06 a 2006-07 yn cymharu'n ffafriol â'r cynnydd 7% ar draws Cymru a

²² Mae newydd-ddyfodiaid (FTE) yn bobl ifanc sy'n myned i'r System Cyfiawnder Ieuenctid am y tro cyntaf ac yn cael eu ceryddu am y tro cyntaf, yn cael rhybudd terfynol neu orchymyn llys.

²³ Mae data wedi cael ei ryddhau ar newydd-ddyfodiaid i'r System Cyfiawnder Ieuenctid o 2005-06 i 2006-07 yn ôl ardal YOT. Dim ond ers 2005-06 y mae'r data yma wedi'i gasglu ac ar hyn o bryd, nid ydyw'n cael ei rannu yn ôl rhyw nac oed.

- Lloegr yn gyffredinol; ac mae'n ostyngiad mwy nag ym mhob rhanbarth arall ar wahân i'r De Ddwyrain (14%) a Dwyrain Canolbarth Lloegr (18%).
- Mae'r duedd newydd-ddyfodiaid rhwng 2005-06 a 2006-07 yn anghyson ar draws Cymru - gyda rhai ardaloedd YOT yn adlewyrchu tuedd Cymru gyfan o gwmpau wedi'u cofnodi mewn newydd-ddyfodiaid, tra bo eraill wedi cofnodi cynnydd. Fodd bynnag, mae'n annhebyg bod newidiadau bach o'r math yn arwyddocaol yn ystadegol, ac felly dylid eu dehongli gyda gofal.
 - Cafwyd y gostyngiadau mwyaf mewn newydd-ddyfodiaid o 2005-06 i 2006-07 yng Nghaerdydd (89%), Gwynedd Môn (38%), Abertawe (27%), Wrecsam (26%), a Sir Benfro (26%).

Gorchmynion cyn mynd i'r llys²⁴ ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru 2002-07

- Ar gyfer 2002-07, rhoddwyd 26,422 o orchmynion cyn mynd i'r llys i bobl ifanc yng Nghymru (72% i wrywod), oedd yn cynnwys 17,366 o geryddau gan yr heddlu (70% i wrywod) a 9,056 o rybuddion terfynol (77% i wrywod).
- Ar draws Cymru ers 2002-03, bu nifer cyffredinol y gorchmynion cyn mynd i'r llys a roddwyd i bobl ifanc yn cynyddu ac yn lleihau fymryn am yn ail. Bu'r duedd hon yn, i raddau helaeth, yn gyson o ran y ddau fath o orchymyn cyn mynd i'r llys a bu'n gyson ar gyfer y ddau ryw.
- Gan mwyaf, dim ond newidiadau bach a gafwyd dros amser yn nifer y ceryddau gan yr heddlu ar gyfer rhan fwyaf y grwpiau oed. Yr eithriad yw ar gyfer pobl ifanc 17 oed, lle mae'n ymddangos bod yna duedd am i lawr yn nifer y ceryddau gan yr heddlu ers 2003.
- Mae tueddiadau sy'n gysylltiedig â rhybuddion terfynol yn debyg yn fras i'r rheiny ar gyfer ceryddau gan yr heddlu gyda chynnydd neu leihau bach o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r duedd hon yn wir ar gyfer y ddau ryw²⁵.
- Mae nifer y rhybuddion terfynol a roddir yn cynyddu gydag oed hyd 15 oed. Mae'n dueddol o leihau ar gyfer pobl ifanc 17 oed gan y rhoddwyd rhan fwyaf y rhybuddion terfynol bob blwyddyn i bobl ifanc 15 oed (2002-03, 2005-06, 2006-07) neu 16 oed (2003-04, 2004-05)

Gorchmynion llys²⁶ a roddwyd i bobl ifanc yng Nghymru 2002-07

- Mae nifer cyffredinol y gorchmynion llys wedi codi 9% o 2002-03 (6,050) i 2006-07 (6,613).
- Rhoddir rhan fwyaf y gorchmynion llys ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru i wrywod – gyda chynnydd o 5% ar gyfer gwrywod rhwng 2002-03 a 2006-07 (o 5,312 i 5,599) a chynnydd o 37% ar gyfer benywod (o 738 i 1,014).
- Y gorchymyn llys mwyaf cyffredin a roddwyd i bobl ifanc yng Nghymru bob blwyddyn ers 2002-03 yw'r gorchymyn atgyfeirio. Mae hyn wedi cyfrif am 24% (cyfanswm o 7,634) o'r 32,204 o orchmynion llys o 2002-2007.

²⁴ Fel arfer, mae pobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed a gofnodir yn troseddau am y tro cyntaf a'r ail dro yn destun gorchymyn cyn mynd i'r llys (oni bai bod y drosedd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau achosion llys) – sef cerydd gan yr heddlu (a roddir am drosedd gyntaf) neu rybudd terfynol (ar gyfer ail drosedd).

²⁵ Am fanylion pellach, weglwr Figwr 1 yn Atodiad 1

²⁶ Mae pobl ifanc sydd wedi cyflawni trydydd trosedd (oni bai bod y drosedd gyntaf/ail drosedd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau camau yn y llys) yn cael eu hanfon i lys ieuentid a rhoddir orchymyn llys iddynt allai ymestyn o ryddhad (llwyr neu amodol), i ddirwy neu gael eu rhwymo, i orchymyn atgyfeirio (ar gyfer pobl ifanc sy'n pledio'n euog yn eu hymddangosiad cyntaf yn y llys), i orchymyn cymunedol (e.e. goruchwyllo, atgyweirio, canolfan fynychu, hwyrgloch, adsefydlu cymunedol), i gystodaeth (e.e. cadw a hyfforddi, Adran 90-91).

- Y gorchymyn llys mwyaf cyffredin wedyn oedd dirwyon (3,765, 12% o'r cyfanswm), wedi'u dilyn gan orchymyn iawndal (3,765, 10% o'r cyfanswm), rhyddhad amodol (2,776, 9% o'r cyfanswm) a gorchymyn goruchwyllo (2,750, 9% o'r cyfanswm).
- Nid yw gorchymynion llys a roddwyd i bobl ifanc wedi dangos unrhyw duedd gyson o 2002-2007 - gyda chynnydd neu ostyngiad bach o flwyddyn i flwyddyn.

Ail-gollfarnu pobl ifanc yng Nghymru²⁷

- Y gyfradd ail-gollfarnu 12 mis gyffredinol ar draws Cymru oedd 42% yn 2002 (o gymharu â 28% yn Lloegr) a 37% yn 2005 (sy'n gyffelyb â'r gyfradd yn Lloegr).
- Roedd y gyfradd ail-gollfarnu gyffredinol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru yn 2002 yn amrywio rhwng 28% (Ceredigion a Phowys) a 53% (Casnewydd), gyda rhan fwyaf yr ardaloedd eraill yn cofnodi cyfraddau ail-gollfarnu o 38% a 48%.
- Yn 2005, roedd ail-gollfarnu'n amrywio o 28% (Sir Gâr, Ceredigion a Phowys) a 55% (Merthyr Tudful), gyda rhan fwyaf yr YOTs yn cofnodi cyfraddau ail-gollfarnu o rwng 35% a 42%²⁸.
- Yn 2002, roedd canran yr aildroseddwy'r a gofnodwyd yng Nghymru a gyflawnodd drosedd fwy difrifol tua'r un fath yng Nghymru a Lloegr (24% o'i gymharu â 23%, yn ôl eu trefn), ond yn is yn 2005 (16% o'i gymharu â 22%).
- O ran *difrifoldeb* troseddau, cafwyd canran uchaf yr aildroseddwy'r a ail-gollfarnwyd am droseddau mwy difrifol yng Nghasnewydd (29%) yn 2002, a Merthyr Tudful (33%) yn 2005. Nodwyd y canrannau isaf yn Wrecsam (18%) yn 2002, a Chasnewydd a Sir Gâr (9%) yn 2005²⁹.
- Roedd y gyfradd gyfartalog o ail-droseddu a gofnodwyd gyda mwy o amllder yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr yn 2002 (23% o gymharu â 20%), ond fymryn yn is yn 2005 (19% o gymharu ag 20%).
- Yn 2002, cofnodwyd cyfran uchaf y troseddwy'r a ail-gollfarnwyd gyda mwy o amllder yng Nghasnewydd (34%) ac roedd yr isaf yn Wrecsam (14%). Erbyn 2005, roedd y canran uchaf ym Merthyr Tudful (36%) a'r isaf yn Wrecsam (8%)³⁰.

Crynodeb

Mae'r darlun cenedlaethol eang ar gyfer Cymru yn un o leihad cyffredinol yn y troseddau ieuencid a gofnodwyd³¹ - gan gynnwys lleihad mwy mewn trosedd iau

²⁷ Mae data ailgollfarnu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer 2002-2005 yn cwmpasu *ailgollfarniad* troseddwy'r a gofnodwyd (y canran a gollfarnwyd o fewn 12 mis o drosedd flaenorol), y *difrifoldeb* (canran y bobl ifanc a ailgollfarnwyd am drosedd mwy difrifol na'r un y gwreiddiol y cawsant eu collfarnu amdano) ac *amllder* ailgollfarniadau (canran y rheiny a ailgollfarnwyd sy'n troseddu'n amlach, h.y. amllder y troseddu yn y 12 mis cyn y collfarniad/gorchymyn, o'i gymharu â'r 12 mis ar ôl collfarniad).

²⁸ Caiff y cyfraddau hyn eu cyfrifo ar niferoedd cymharol fach o bobl ifanc ac felly dylid ymdrin â gwahaniaethau o ardal i ardal gyda gofal.

²⁹ Mae'r niferoedd bach iawn o ail-droseddwy'r a gofnodwyd y mae'r dadansoddiad hwn wedi'i seilio arnynt (yn arbennig ail-droseddwy'r difrifol - gyda chyfartaledd o 28 o bobl ifanc yr ardal YOT yn 2002, gan gwmpo i 23 yn 2005) yn golygu bod hyd yn oed newidiadau bychain yn arwain at newidiadau mawr mewn canran sy'n gallu ystumio dehongliad ystadegau a gofnodwyd pan cant eu dadansoddi fel tueddiadau.

³⁰ Golyga nifer bach iawn y troseddwy'r ymddrinwyd â nhw (ar gyfartaledd, 36 yr ardal yn 2002, gan gwmpo i 27 yn 2005) na ddylid cymryd y newidiadau mewn canran ar ei wynebwerth.

³¹ Rhwng 2002 a 2007, cwympodd troseddau ieuencid a gofnodwyd yng Nghymru 12% - o 18,957 i 16,676 o droseddau at ei gilydd.

a gofnodwyd o gymharu â Lloegr ers 2004-05³². Ar draws Cymru roedd nifer y troseddwyd ifanc a gofnodwyd fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth ieuenctid rhwng 1 a 6% yn 2007-08³³. Er bod yna gafeadau pwysig yn gysylltiedig â'r data ystadegol sydd ar gael, gellir archwilio tueddiadau lleol mwy cymhleth. Mae'r data yma'n datgelu bod rhan fwyaf yr ardaloedd YOT yng Nghymru wedi cofnodi cwmpadau bychain mewn troseddau ieuenctid o 2002-07³⁴; dim newid³⁵ neu gynnydd o 1%³⁶. Yn nhermau nifer y troseddwyd ieuenctid a gofnodwyd, rhwng 2006-07 a 2007-08, ni chofnododd ran fwyaf yr ardaloedd YOT unrhyw newid³⁷ ond cofnododd rhai cwmpadau bychain (1-2%)³⁸.

³² Er bod y gwahaniaeth rhwng y gwledydd yn gymharol fach – llai na 0.2% yn 2006-07 – ac yn anhebygol o fod yn arwyddocaol yn ystadegol.

³³ Gan nad oes ystadegau ar gael hyd yma ar gyfer cyfanswm nifer y troseddau a gyflawnwyd yn 2007-08, mae'n anodd asesu a yw newidiadau yn nifer y troseddwyd a gofnodwyd wedi trosi'n newidiadau cyffelyb yn nifer y troseddau a gyflawnwyd.

³⁴ Caerdydd, Merthyr, Sir Benfro, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Wrecsam

³⁵ Pen-y-bont ar Ogwr, Castell Nedd Port Talbot, Bro Morgannwg.

³⁶ Blaenau Gwent a Chaerffili, Sir Gâr, Sir Y Fflint.

³⁷ Blaenau Gwent a Chaerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Conwy a Sir Ddinbych, Merthyr, Sir Fynwy, Castell Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe, Bro Morgannwg.

³⁸ Sir Gâr, Sir Y Fflint, Powys, Wrecsam. Ceir mwy o fanylion am y dadansoddiad hwn yn Atodiad 1.

Dadansoddiad o ddeunydd a gedwir ar gronfa ddata SCF

Rhagarweiniad

Mae'r Adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o ddata o'r Gronfa Ddata Prosiect Ariannu³⁹ sy'n ymwneud ag arian cymeradwy gan y Gronfa Cymunedau Diogelach (SCF) ar gyfer dwy flynedd gyfrifo'r gronfa: Ebrill 2006 i Fawrth 2007 ac Ebrill 2007 i Fawrth 2008⁴⁰. Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon wedi'i gyflwyno ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd ac, lle bo'n bosibl, ar gyfer pob un o'r 22 o ardaloedd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP).

Nodyn ar gymariaethau ardal

Dylid dehongli gwahaniaethau mewn arian SCF o ardal i ardal yn ofalus, gan fod yr ardaloedd eu hunain yn wahanol o ran maint, nodweddion poblogaeth, ac yn nifer yr achosion o drosedd⁴¹. I grynhoi:

- Gan Gaerdydd y mae'r boblogaeth fwyaf, wedi'i dilyn gan Ronda Cynon Taf ac Abertawe. Y poblogaethau lleiaf oedd Merthyr Tudful ac Ynys Môn.
- Gan Gaerdydd a Chasnewydd yr oedd nifer uchaf y troseddau hysbysadwy o'i gymharu â maint y boblogaeth, wedi'u dilyn gan Ferthyr Tudful. Roedd y lefelau isaf yng Ngheredigion a Phowys.⁴²
- Mae cyfran y bobl ifanc yn amrywio ar draws ardaloedd, gyda chanran y boblogaeth sy'n iau nag 20 oed yn amrywio o 22.7% yng Nghonwy i 27.5% yng Nghasnewydd.

Dyranid arian SCF

Cymeradwywyd yn agos i £4.3 miliwn o arian gan y Gronfa Cymunedau Diogelach yn y flwyddyn ariannol Ebrill 2006 i Fawrth 2007 (Tabl 5-1), cyfartaledd o £1.50 ar gyfer pob person sy'n byw yng Nghymru neu gyfartaledd o £18 y drosedd hysbysadwy y flwyddyn honno. Roedd yr arian ar gyfer 2007-08 dros £4.6 miliwn – cynnydd o tua 7% ym mhob ardal (ac eithrio Merthyr Tudful, lle cododd dros 46%).

³⁹ Mae cylchlythyr y Gronfa Ddata Prosiect Ariannu o fis Medi 2007 yn ei ddisgrifio fel "prif Wasanaeth Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau Ar-lein y DU. Fe'i defnyddir gan 100 o bartneriaethau ar hyd a lled y Wlad. Gwybodaeth ar 6400 o ddatrysiadau i leihau trosedd." Ni chafodd y Gronfa Ddata Prosiect Ariannu ei dylunio'n benodol at ddibenion monitro a gwerthuso ac mae'n cynnwys data sy'n gysylltiedig â sianelau ariannu eraill ac ardaloedd eraill ar wahân i Gymru. Ni roddwyd copi o'r gronfa ddata i'r tîm ymchwil ond rhoddwyd mynediad riportio safonol ar-lein iddynt i'r gronfa ddata ar gyfer Cymru yn unig. Golyga hyn nad ydym wedi gallu ymholi'r gronfa ddata i'r graddau sy'n arferol ar gyfer gwerthusiad o'r natur hwn ac mae ein dadansoddiad wedi'i gyfyngu i feysydd data oedd ar gael trwy'r swyddogaethau riportio safonedig.

⁴⁰ Mae data'n cael ei roi i mewn i'r Gronfa Ddata Prosiect Ariannu'n barhaus ac felly data cyfyngedig oedd yn gysylltiedig â'r flwyddyn ariannol 2008-09 oedd ar gael yn ystod cyfnod dadansoddi'r gwerthusiad hwn. Oherwydd natur anghyflawn y data hwn, rydym wedi canolbwyntio ar y blynyddoedd 2006-07 a 2007-08 gan fod data ar gyfer y blynyddoedd hyn i'w weld yn gyflawn i raddau helaeth.

⁴¹ Mae Tabl 3 yn Atodiad 1 yn dangos rhai o'r gwahaniaethau hyn trwy ddangos maint y boblogaeth, canran y boblogaeth sy'n iau nag 20 oed, a nifer y troseddau hysbysadwy ar gyfer pob ardal. At hyn, mae cyfradd troseddau crai wedi'i gyfrifo trwy rannu nifer y troseddau hysbysadwy gyda maint y boblogaeth er mwyn gwneud rhai cymariaethau bras.

⁴² Nid oedd y tîm ymchwil yn gallu asesu'r gwahaniaethau hyn yn fanwl, ond meant yn gyson â'r gwahaniaethau trefol/gwledig mewn lefelau troseddu yn ardaloedd eraill y DU.

Tabl O-1 Arian SCF cymeradwy (£) yn ôl ardal, 2006-07 a 2007-08

| | 2006-07 | 2007-08 | % y cynnydd o 2006-07 i 2007-08 |
|--------------------------|------------------|------------------|---------------------------------|
| Blaenau Gwent | 146,684 | 156,939 | 7.0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 185,929 | 198,927 | 7.0% |
| Caerffili | 246,014 | 263,212 | 7.0% |
| Caerdydd | 470,197 | 503,069 | 7.0% |
| Sir Gâr | 198,072 | 211,919 | 7.0% |
| Ceredigion | 116,518 | 124,665 | 7.0% |
| Conwy | 155,595 | 166,473 | 7.0% |
| Sir Ddinbych | 159,788 | 170,959 | 7.0% |
| Sir Y Fflint | 194,392 | 207,982 | 7.0% |
| Gwynedd | 157,737 | 168,765 | 7.0% |
| Merthyr Tydfil | 126,251 | 184,565 | 46.2% |
| Sir Fynwy | 136,537 | 146,083 | 7.0% |
| Castell Nedd Port Talbot | 192,898 | 206,384 | 7.0% |
| Casnewydd | 235,157 | 251,596 | 7.0% |
| Sir Benfro | 145,089 | 155,233 | 7.0% |
| Powys | 151,283 | 161,858 | 7.0% |
| Rhondda Cynon Taf | 295,934 | 316,622 | 7.0% |
| Abertawe | 332,959 | 356,238 | 7.0% |
| Torfaen | 155,378 | 166,241 | 7.0% |
| Bro Morgannwg | 178,429 | 190,903 | 7.0% |
| Wrecsam | 194,124 | 206,896 | 6.6% |
| Ynys Môn | 116,201 | 124,325 | 7.0% |
| Cymru | 4,291,166 | 4,639,854 | 8.1% |

Dim ond un math o ffynhonnell arian mawr ar gyfer yr ardaloedd hyn yr oedd arian SCF yn ei gynrychioli. Y cronfeydd mawr eraill oedd ar gael i CSPs oedd y Gronfa Uned Reoli Sylfaenol (BCU)⁴³, y Gronfa Gyfalaf Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (CRASB) a'r gronfa Refeniw CRASB – a chafodd bob un o'r rhain ei ffynonellu gan Swyddfa Llywodraeth Cymru y Swyddfa Gartref' (Home Office Government Office Wales). Hefyd, mae yna ffynonellau ariannu eraill ar gael nad ydynt wedi'u cofnodi yn y Gronfa Ddata Ariannu.⁴⁴

Ar gyfer y ddwy flynedd, y Gronfa Cymunedau Diogelach oedd y mwyaf o'r pedair prif gronfa hyn, wedi'i ddilyn gan Gronfa Refeniw CRASB a'r gronfa BCU⁴⁵. Roedd arian SCF yn cynrychioli tua 38% o'r cyfanswm a wariwyd ar draws y pedair cronfa fawr hyn ar gyfer 2006-07, gan godi i 42% ar gyfer 2007-08 (Tabl 5-2). Ar gyfer rhai ardaloedd, roedd arian SCF y cyfrif am gyfran uwch na'r cyfartaledd o gyfanswm yr arian oddi wrth y pedair prif gronfa. Er enghraifft, roedd arian SCF yn 47% o'r cyfanswm yn 2007-08 ar gyfer Ceredigion, Merthyr Tudful, Sir Benfro a Phowys. I gyferbynnu, roedd arian SCF yn gyfran lai o'r cyfanswm yn Abertawe a Chaerdydd (38% a 35% yn ôl eu trefn ar gyfer 2007-08). Ar gyfer rhan fwyaf yr ardaloedd, roedd cyfran y cyfanswm a gwmpaswyd

⁴³ Nid yw arian BCU yn cael ei ddyrannu'n syml i bob un o'r 22 ardal CSP. Mae yna bedwar prif ardal ariannu, ac mae pob un o'r rhain yn cynnwys dwy is-ardal: BCU Canolog (Conwy a Sir Ddinbych), BCU Dwyreiniol (Sir Y Fflint a Wrecsam), BCU Torfaen a Sir Fynwy (Torfaen a Sir Fynwy), a BCU Gorllewinol (Gwynedd ac Ynys Môn).

⁴⁴ Gwerth yw crybwyll y Gronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAF) yn benodol mewn perthynas â hyn, a chanddi gyllideb o ychydig dros £22 miliwn yn 2008-09. Yn amlwg mae yna ryw faint o orgyffwrdd rhwng gwaith a ariennir gan SMAF a pheth o'r gwaith a ddisgrifiwyd yn yr adran hon, er bod cynnal dadansoddiad manwl o gyn-lleadaeniad y gwaith y tu hwnt i gylch gorchwyl y tîm.

⁴⁵ Ceir gwybodaeth bellach ar y swm y gronfa ar gyfer pob ardal CSP yn Atodiad 1

gan arian SCF yn dilyn y duedd gyffredinol gan godi ychydig o bwyntiau canran o 2006-07 i 2007-08 (ac eithrio Merthyr Tudful lle cododd arian SCF o 36% o'r cyfanswm yn 2006-07 i 47% yn 2007-08).

Tabl 0-2 Arian SCF fel canran o gyfanswm yn arian yn ôl ardal

| | Arian SCF fel canran o'r cyfanswm (2006-07) | Arian SCF fel canran o'r cyfanswm (2007-08) |
|--------------------|---|---|
| Blaenau Gwent | 37% | 41% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 37% | 41% |
| Caerffili | 38% | 41% |
| Caerdydd | 34% | 38% |
| Sir Gâr | 41% | 45% |
| Ceredigion | 44% | 47% |
| Merthyr Tydfil | 36% | 47% |
| Castell Nedd Port | | |
| Talbot | 37% | 40% |
| Casnewydd | 36% | 40% |
| Sir Benfro | 43% | 47% |
| Powys | 43% | 47% |
| Rhondda Cynon Taf | 39% | 42% |
| Abertawe | 32% | 35% |
| Bro Morgannwg | 37% | 40% |
| Conwy | | |
| Sir Ddinbych | 42% | 45% |
| Sir Y Fflint | | |
| Wrecsam | 40% | 44% |
| Sir Fynwy | | |
| Torfaen | 41% | 45% |
| Gwynedd | | |
| Ynys Môn | 44% | 47% |
| I gyd | 38% | 42% |

Noder: Mae'r cyfanswm wedi'i ddiffinio fel Cronfa BCU, Cronfa Cyfalaf CRASB, Cronfa Refeniw CRASB (i gyd oddi wrth Swyddfa Llywodraeth Cymru y Swyddfa Gartref' (Home Office Government Office

Wales) yn ogystal â'r Gronfa Cymunedau Diogelach (oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ymyriadau a ariennir gan SCF

Mae dyluniad y Gronfa Ddata Ariannu wedi'i seilio ar fodel datrys problemau SARA⁴⁶. Mae gwybodaeth ar beth y defnyddiwyd arian SCF ar ei gyfer ar ffurf *ymateb* mewn perthynas â *phroblem* benodol a ddiffinnir o dan *amcan* ehangach⁴⁷. Gellir ariannu unrhyw amcan, problem neu ymateb trwy ddefnyddio mwy nag un ffynhonnell arian.

Nifer cyffredinol yr ymyriadau

Ar gyfer y flwyddyn 2006-07 ac ar draws pob cronfa fawr, bu 224 o amcanion a 450 o broblemau oedd yn ymwneud â'r 700 o ymatebion a ariannwyd (Tabl 5-3). Ychydig o CSPs a restrodd yr un amcanion, problemau neu ymatebion (bu 182 o amcanion amlwg, 420 o broblemau amlwg a 687 o ymatebion amlwg). At hyn, bu amrywiaeth mawr yn y ffordd yr aeth CSPs ati i fynd i'r afael â dyluniad SARA o'r Gronfa Ddata Ariannu⁴⁸.

⁴⁶ Sganio, Dadansoddi, Ymateb, Asesu – gweler troednodyn 1, uchod.

⁴⁷ Mae'r amcan yn un strategol y mae CSP yn ceisio'i gyflawni yn erbyn thema benodol fel y rheiny a amlinellir yn Asesiad Strategol neu Gynllun Partneriaeth y CSP.

⁴⁸ Gweler troednodyn 1 uchod. Dilynodd rai CSPs natur hierarchaidd strwythur SARA trwy gael nifer fach o amcanion yr oedd nifer mwy o broblemau ac ymatebion wedi'u grwpio oddi tanynt ond roedd gan eraill nifer

Nid oedd cael arian cymeradwy oddi wrth fwy nag un ffynhonnell ariannu'n anghyffredin: cafodd 55% o amcanion, 24% o broblemau a 7% o ymatebion eu hariannu oddi wrth fwy nag un ffynhonnell yn 2006-07. Mae tabl 5-3 yn dangos nifer yr amcanion, problemau ac ymatebion a ddiffiniwyd gan bob CSP yn 2006-07 a 2007-08 ar gyfer pob ffynhonnell ariannu, ac mae Tabl 5-4 yn dangos yr un wybodaeth ond dim ond ar gyfer arian SCF.

Tabl 0-3 Nifer yr amcanion, problemau ac ymatebion, yn ôl ardal ar gyfer pob cronfa

| | Ebrill 2006-Mawrth 2007 | | | Ebrill 2007-Mawrth 2008 | | |
|-------------------------|-------------------------|------------|------------|-------------------------|------------|------------|
| | Amcanion | Problemau | Ymatebion | Amcanion | Problemau | Ymatebion |
| Blaenau Gwent | 3 | 4 | 25 | 5 | 7 | 28 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 8 | 40 | 43 | 12 | 45 | 48 |
| Caerffili | 5 | 17 | 47 | 4 | 14 | 31 |
| Caerdydd | 14 | 16 | 51 | 9 | 23 | 49 |
| Sir Gâr | 4 | 18 | 18 | 4 | 17 | 17 |
| Ceredigion | 5 | 20 | 27 | 4 | 10 | 16 |
| Conwy | 9 | 18 | 18 | 5 | 20 | 24 |
| Sir Ddinbych | 9 | 19 | 19 | 7 | 14 | 14 |
| Sir Y Fflint | 9 | 19 | 19 | 10 | 18 | 18 |
| Gwynedd | 6 | 16 | 27 | 8 | 12 | 30 |
| Merthyr Tydfil | 7 | 22 | 22 | 6 | 17 | 17 |
| Sir Fynwy | 4 | 12 | 21 | 8 | 10 | 17 |
| Castell Nedd Port | | | | | | |
| Talbot | 9 | 12 | 26 | 5 | 8 | 21 |
| Casnewydd | 6 | 16 | 40 | 5 | 13 | 29 |
| Sir Benfro | 8 | 28 | 31 | 7 | 38 | 38 |
| Powys | 6 | 13 | 22 | 5 | 17 | 24 |
| Rhondda Cynon Taf | 8 | 18 | 26 | 8 | 15 | 25 |
| Abertawe | 48 | 48 | 52 | 29 | 38 | 42 |
| Torfaen | 6 | 9 | 16 | 8 | 12 | 14 |
| Bro Morgannwg | 10 | 14 | 38 | 6 | 7 | 35 |
| Wrecsam | 9 | 11 | 49 | 8 | 13 | 46 |
| Ynys Môn | 9 | 34 | 37 | 9 | 13 | 28 |
| BCU Canolog | 5 | 8 | 8 | 8 | 25 | 25 |
| BCU Dwyreiniol | 7 | 7 | 7 | 7 | 8 | 8 |
| Sir Fynwy a BCU Torfaen | 6 | 7 | 7 | 4 | 13 | 13 |
| BCU Gorllewinol | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Cyfanswm | 224 | 450 | 700 | 194 | 430 | 660 |

Noder: Sylfaen yw ymatebion gydag arian cymeradwy.

Er gwaethaf y materion sy'n gysylltiedig ag anghysondeb data, mae'n rhesymol tybio bod nifer yr ymatebion yn y Gronfa Ddata Ariannu'n gyfartal â nifer yr ymyriadau a ariannwyd gan SCF. Cyfanswm hyn oedd 231 yn 2006-07 a 209 yn 2007-08 (Tabl 5-4). Pan gynhaliwyd y dadansoddiad, dim ond ychydig fisoedd o'r flwyddyn 2008-09 oedd wedi pasio felly nid oedd ffigyrau cyflawn ar gael. Fodd bynnag, fel arwydd, erbyn mis Gorffennaf 2008 roedd 153 o ymatebion wedi gwneud cais am arian SCF (cyfanswm o £4.3 miliwn), ac roedd 124 o'r rhain wedi'u derbyn gydag eraill i ddod.

tebyg o amcanion fel problemau – gan ddiffinio pob problem (neu hyd yn oed yr ymateb) fel amcan. Hefyd, bu peth dryswch mewn llawer o ardaloedd rhwng problemau ac ymatebion – gyda'r ymateb yn aml yn cael ei rhoi i mewn fel problem.

Yn 2006-07, roedd nifer yr ymyriadau a ariannwyd ym mhob ardal yn amrywio o 4 yng Nghasnewydd i 20 yn Abertawe a Bro Morgannwg. Gwelwyd tueddiad ardal tebyg yn 2007-08 pan roedd gan Gasnewydd y nifer lleiaf (4 o ymatebion) ac roedd gan Fro Morgannwg ac Abertawe'r niferoedd uchaf (19 ac 18 yn ôl eu trefn).

Tabl 5-4 Nifer yr amcanion, problemau ac ymatebion, yn ôl ardal ar gyfer arian SCF

| | Ebrill 2006-Mawrth 2007 | | | Ebrill 2007-Mawrth 2008 | | |
|--------------------------|-------------------------|-----------|-----------|-------------------------|-----------|-----------|
| | Amcanion | Problemau | Ymatebion | Amcanion | Problemau | Ymatebion |
| Blaenau Gwent | 1 | 1 | 8 | 2 | 2 | 8 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | 17 | 17 | 4 | 10 | 10 |
| Caerffili | 3 | 8 | 19 | 3 | 7 | 9 |
| Caerdydd | 3 | 3 | 16 | 2 | 3 | 13 |
| Sir Gâr | 1 | 9 | 9 | 1 | 9 | 9 |
| Ceredigion | 1 | 1 | 5 | 1 | 1 | 6 |
| Conwy | 2 | 8 | 8 | 1 | 9 | 11 |
| Sir Ddinbych | 4 | 8 | 8 | 2 | 7 | 7 |
| Sir Y Fflint | 4 | 5 | 5 | 4 | 5 | 5 |
| Gwynedd | 2 | 5 | 8 | 4 | 4 | 8 |
| Merthyr Tydfil | 2 | 6 | 6 | 2 | 6 | 6 |
| Sir Fynwy | 3 | 6 | 13 | 4 | 5 | 8 |
| Castell Nedd Port Talbot | 4 | 4 | 8 | 1 | 1 | 5 |
| Casnewydd | 1 | 1 | 4 | 1 | 1 | 4 |
| Sir Benfro | 2 | 6 | 6 | 3 | 13 | 13 |
| Powys | 1 | 3 | 7 | 1 | 3 | 7 |
| Rhondda Cynon Taf | 5 | 7 | 9 | 4 | 6 | 9 |
| Abertawe | 20 | 20 | 20 | 18 | 18 | 18 |
| Torfaen | 3 | 4 | 8 | 4 | 5 | 5 |
| Bro Morgannwg | 6 | 6 | 20 | 1 | 1 | 19 |
| Wrecsam | 4 | 4 | 12 | 3 | 6 | 15 |
| Ynys Môn | 5 | 15 | 15 | 5 | 7 | 14 |
| Cyfanswm | 81 | 147 | 231 | 71 | 129 | 209 |

Noder: Sylfaen yw ymatebion gydag arian cymeradwy.

Cymharu SCF â ffynonellau ariannu eraill

Cyfartaledd yr arian SCF ar roddwyd ar gyfer ymyriad unigol oedd £18,576 yn 2006-07, gan godi i £22,200 yn 2007-08 (Tabl 5-5). Fodd bynnag, roedd yna amrywiaeth sylweddol, gyda'r swm a ariannwyd yn amrywio o £500 yr ymyriad i £113,000 yn 2006-07 (£286 i £140,884 yn 2007-08). Dengys cymhariaeth gyda'r tair cronfa fawr arall bod arian SCF cyfartalog yr ymateb yn uwch na ffynonellau ariannu mawr eraill.

Tabl 0-5 Swm yr arian cymeradwy (£)yr ymyriad yn ôl cronfa

| | Cronfa BCU | Cronfa Cyfalaf CRASB | Cronfa Refeniw CRASB | Cronfa Cymunedau Diogelach |
|---------------------------|-------------------|-----------------------------|-----------------------------|-----------------------------------|
| 2006-07 | | | | |
| Arian cyfartalog (cymedr) | 15,524 | 9,698 | 13,909 | 18,576 |
| Lleiafswm ariannu | 250 | 50 | 200 | 500 |
| Uchafswm ariannu | 101,000 | 100,580 | 72,884 | 113,000 |
| Nifer yr ymyriadau | 146 | 123 | 249 | 231 |
| Cyfanswm ariannu | 2,266,446 | 1,192,863 | 3,463,302 | 4,291,166 |
| 2007-08 | | | | |
| Arian cyfartalog (cymedr) | 14,100 | 10,020 | 15,164 | 22,200 |
| Lleiafswm ariannu | 89 | 122 | 200 | 286 |
| Uchafswm ariannu | 101,564 | 99,000 | 67,194 | 140,884 |
| Nifer yr ymyriadau | 162 | 115 | 198 | 209 |
| Cyfanswm ariannu | 2,284,248 | 1,152,260 | 3,002,413 | 4,639,854 |

Noder: cyfartaliion wedi'u talgrynnu i'r £ agosaf.

Arian yn ôl y math o ymagwedd lleihau trosedd⁴⁹

O ran y categorïau sydd yn y gronfa ddata SCF, yn 20067-07, y math mwyaf cyffredin o ymyriad a ariannwyd gan SCF oedd prosiectau ieuenctid neu ymyriadau a anelwyd at gynyddu diogelwch ieuenctid (29%). Roedd y rhain yn amrywio'n enfawr ond yn aml roeddynt yn cynnwys rhyw fath o weithgareddau gwrthdymol ar gyfer pobl ifanc⁵⁰. Y math mwyaf poblogaidd nesaf o ymyriad a ariannwyd gan SCF oedd mentrau oedd wedi'u hanelu at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (24%). Eto, roedd yr ymyriadau hyn yn amrywio ond roeddynt yn aml yn cynnwys darparu gwasanaeth atgyfeirio ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithwyr achos neu uned ymddygiad gwrthgymdeithasol arbenigol. Nod bron i un o bob pum ymyriad a ariannwyd gan SCF oedd lleihau troseddau ieuenctid (19%)⁵¹.

⁴⁹ Gweler Atodiad 2 am ddisgrifiad o'r ymagwedd a gymerwyd gan y tîm ymchwil i gategoreiddio prosiectau a ariannwyd gan SCF. Mae'r categorïau a ddefnyddir yn Nhabl 5-6 wedi'u cymryd o ddeunydd yn y gronfa ddata SCF.

⁵⁰ Ymhlith yr enghreifftiau o'r rhain y mae Menter Lleihau Niwsans Beiciau Modur Oddi ar y Ffordd, Prosiect 'Cold Barn Farm Timebank', a'r ddarpariaeth o Weithiwr Her y Gwasanaeth Antur. Nid yw ym mha synnwyr yr oedd prosiectau yn y categori hwn yn cael eu hystyried yn rhai a oedd "yn cynyddu diogelwch ieuenctid" bob tro'n amlwg o'r manylion a gynhwyswyd yn y gronfa ddata, er bod rhai prosiectau'n amlwg yn ffocysu ar leihau anafiadau neu ddamweiniau (e.e. prosiectau diogelwch tân), ac ymddengys bod eraill yn ffocysu ar leihau risg pobl ifanc o erledigaeth.

⁵¹ Ymhlith yr enghreifftiau o'r rhain roedd Gweithiwr Allgymorth Ardal â Phroblem, DVD "Knife Slice and Dice", a darpariaeth cerbyd Canolfan Cyfiawnder Ieuenctid.

Tabl 0-6 Nifer yr ymatebion yn ôl y math o ymyriad a chronfa, 2006-07

| | Cronfa BCU | | Cronfa Cyfalaf CRASB | | Cronfa Refeniw CRASB | | Cronfa Cymunedau Diogelach | | I gyd | |
|--|------------|-------------|----------------------|-------------|----------------------|-------------|----------------------------|-------------|------------|-------------|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| Prosiectau ieuentid/diogelwch ieuentid Ymddygiad | 2 | 1% | 7 | 6% | 6 | 2% | 66 | 29% | 77 | 11% |
| Gwrthgymdeithasol | 16 | 11% | 25 | 20% | 42 | 17% | 55 | 24% | 128 | 18% |
| Troseddau ieuentid Camddefnyddio sylweddau | 0 | 0% | 1 | 1% | 1 | 0% | 44 | 19% | 45 | 6% |
| Cydluniant a sicrwydd cymunedol | 9 | 6% | 11 | 9% | 41 | 16% | 23 | 10% | 79 | 11% |
| Lleihau trosedd | 21 | 14% | 18 | 15% | 27 | 11% | 12 | 5% | 71 | 10% |
| Cyfiawnder adferol | 24 | 16% | 11 | 9% | 10 | 4% | 8 | 3% | 47 | 7% |
| Gwaith partneriaeth | 1 | 1% | 0 | 0% | 2 | 1% | 7 | 3% | 10 | 1% |
| Trosedd cerbydau | 19 | 13% | 3 | 2% | 54 | 22% | 4 | 2% | 76 | 11% |
| Troseddwyr cyson iawn/blaenoriaeth | 8 | 5% | 3 | 2% | 4 | 2% | 4 | 2% | 19 | 3% |
| Trais domestig | 7 | 5% | 2 | 2% | 8 | 3% | 3 | 1% | 20 | 3% |
| Troseddau amrywiaeth/hil a chasineb | 6 | 4% | 7 | 6% | 20 | 8% | 2 | 1% | 30 | 4% |
| Gwylidwriaeth (TCC) | 7 | 5% | 0 | 0% | 4 | 2% | 1 | 0% | 12 | 2% |
| Troseddu treisgar | 6 | 4% | 15 | 12% | 9 | 4% | 1 | 0% | 30 | 4% |
| Lleihau byrgleriaeth | 3 | 2% | 1 | 1% | 0 | 0% | 1 | 0% | 5 | 1% |
| Troseddu yn erbyn Busnesau | 5 | 3% | 10 | 8% | 9 | 4% | 0 | 0% | 19 | 3% |
| Prosiectau ar gyfer cyn-droseddwyr | 2 | 1% | 2 | 2% | 5 | 2% | 0 | 0% | 9 | 1% |
| Cymorth i Ddioddefwyr Eraill | 0 | 0% | 1 | 1% | 1 | 0% | 0 | 0% | 2 | * |
| | 2 | 1% | 1 | 1% | 0 | 0% | 0 | 0% | 3 | * |
| | 8 | 5% | 5 | 4% | 6 | 2% | 0 | 0% | 18 | 3% |
| Cyfanswm | 146 | 100% | 123 | 100% | 249 | 100% | 231 | 100% | 700 | 100% |

Noder: ni fydd y pedwar rhaniad yn ôl cronfa yn gyfwerth â'r golofn 'I gyd' oherwydd efallai bod gan ymatebion nifer o ffynonellau ariannu. * = llai na 0.5%

Y Gronfa Cymunedau Diogelach oedd prif ariannwr prosiectau ieuentid a gwaith lleihau troseddau ieuentid – gydag ond ychydig o ymyriadau o'r natur hwn wedi'u hariannu gan y tair cronfa fawr arall. Yr eithriad oedd mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn cael eu hariannu'n amlach gan y pedair cronfa: cafodd 57% o'r 128 o fentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hariannu gan y gronfa Uned Reoli Sylfaenol a'r gronfa Lleihau Trosedd a'r Cronfeydd Cyfalaf a Refeniw Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Roedd un o bob deg ymyriad a ariannwyd gan SCF yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau⁵² ond eto, roedd y rhain yn aml hefyd yn cael eu hariannu gan y ffrydiau ariannu eraill.

Mae Tabl 0-7 isod yn dangos swm yr arian yn ôl y math o ymyriad ar gyfer 2006-07.

⁵² Ymhlith yr enghreifftiau o'r rhain y mae'r Prosiect Cryfhau Teuluoedd a'r Prosiect Addysgu Cyffuriau Cymheiriaid.

Tabl 0-7 Swm yn arian (£) yn ôl y math o ymyriad a chronfa, 2006-07

| | Cronfa BCU | Cronfa Cyfalaf CRASB | Cronfa Refeniw CRASB | Cronfa Cymunedau Diogelach | Cyfanswm |
|---|------------|-------------------------|-------------------------|----------------------------------|------------|
| Prosiectau ieuencid/ diogelwch ieuencid Ymddygiad | 32,000 | 45,683 | 18,564 | 1,096,069 | 1,192,316 |
| Gwrthgymdeithasol | 190,850 | 182,105 | 809,878 | 1,026,695 | 2,209,528 |
| Trosedd ieuencid | 0 | 2,551 | 3,000 | 900,462 | 906,013 |
| Camddefnyddio sylweddau | 148,482 | 70,408 | 788,749 | 512,326 | 1,519,965 |
| Cydlyniant a sicrwydd cymunedol | 267,488 | 206,529 | 303,671 | 77,670 | 855,358 |
| Lleihau trosedd | 492,012 | 69,682 | 27,637 | 184,698 | 774,029 |
| Cyfiawnder adferol | 15,000 | 0 | 17,113 | 249,993 | 282,106 |
| Gwaith partneriaeth | 294,918 | 47,038 | 614,929 | 29,570 | 986,455 |
| Trosedd cerbydau | 93,978 | 12,290 | 47,747 | 55,858 | 209,873 |
| Troseddwyr cyson iawn/blaenoriaeth | 243,009 | 9,500 | 142,129 | 59,900 | 454,538 |
| Trais domestig | 29,814 | 24,908 | 191,985 | 77,925 | 324,632 |
| Troseddau amrywiaeth/ hil a chasineb | 24,931 | 0 | 17,500 | 2,000 | 44,431 |
| Gwyladwriaeth (TCC) | 146,228 | 297,877 | 87,478 | 6,000 | 537,583 |
| Troseddu treisgar | 58,975 | 4,650 | 0 | 12,000 | 75,625 |
| Lleihau byrgleriaeth | 53,363 | 110,278 | 200,333 | 0 | 363,974 |
| Troseddu yn erbyn Busnesau | 17,944 | 19,500 | 74,000 | 0 | 111,444 |
| Prosiectau ar gyfer cyn-droseddwyr | 0 | 35,595 | 22,000 | 0 | 57,595 |
| Cymorth i Ddiodefwyr | 9,500 | 5,000 | 0 | 0 | 14,500 |
| Eraill | 147,954 | 49,269 | 96,589 | 0 | 293,812 |
| Cyfanswm | 2,266,446 | 1,192,863 | 3,463,302 | 4,291,166 | 11,213,777 |

Mae Tabl 5-8 yn dangos swm yr arian yn ôl y math o ymyriad ar gyfer 2006-07 fel canran o'r cyfanswm. Cafodd dros 70% o arian SCF ei wario ar brosiectau ieuencid (26%), mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol (24%) a lleihau troseddau ieuencid yn gyffredinol (21%). Gwariwyd 12% arall ar ymyriadau camddefnyddio sylweddau. Yn bennaf, cafodd mentrau cyfiawnder adferol eu hariannu gan SCF (89% o gyfanswm yr arian ar fentrau cyfiawnder adferol). Er mai dim ond 3% o gyfanswm nifer yr ymyriadau a ariannwyd gan SCF oedd y mentrau hyn, roeddynt yn cyfrif am 6% o arian SCF, sy'n adlewyrchu natur ddwys y math yma o ymyriad.

Tabl 0-8 Canran yr arian yn ôl y math o ymyriad a chronfa, 2006-07

| | Cronfa BCU | Cronfa Cyfalaf CRASB | Cronfa Refeniw CRASB | Cronfa Cymunedau Diogelach | Cyfanswm |
|---|------------|----------------------|----------------------|----------------------------|------------|
| Prosiectau ieuencid/ diogelwch ieuencid | 1% | 4% | 1% | 26% | 11% |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | 8% | 15% | 23% | 24% | 20% |
| Trosedd ieuencid | 0% | * | * | 21% | 8% |
| Camddefnyddio sylweddau | 7% | 6% | 23% | 12% | 14% |
| Cydlyniant a sicrwydd cymunedol | 12% | 17% | 9% | 2% | 8% |
| Lleihau trosedd | 22% | 6% | 1% | 4% | 7% |
| Cyfiawnder adferol | 1% | 0% | * | 6% | 3% |
| Gwaith partneriaeth | 13% | 4% | 18% | 1% | 9% |
| Trosedd cerbydau | 4% | 1% | 1% | 1% | 2% |
| Troseddwyw cyson iawn/blaenoriaeth | 11% | 1% | 4% | 1% | 4% |
| Trais domestig | 1% | 2% | 6% | 2% | 3% |
| Troseddau amrywiaeth/hil a chasineb | 1% | 0% | 1% | * | * |
| Gwylidwriaeth (TCC) | 6% | 25% | 3% | * | 5% |
| Troseddu treisgar | 3% | * | 0% | * | 1% |
| Lleihau byrgleriaeth | 2% | 9% | 6% | 0% | 3% |
| Troseddu yn erbyn Busnesau | 1% | 2% | 2% | 0% | 1% |
| Prosiectau ar gyfer cyn-droseddwyw | 0% | 3% | 1% | 0% | 1% |
| Cymorth i Ddiodefwyr | * | * | 0% | 0% | * |
| Eraill | 7% | 4% | 3% | 0% | 3% |
| Sylfaen (£) | 2,266,446 | 1,192,863 | 3,463,302 | 4,291,166 | 11,213,777 |

Noder: * = llai na 0.5%

Gwelwyd tueddiadau a oedd yn lled-debyg ar gyfer 2007-08 (Tabl 5-9). Fodd bynnag, roedd nifer y prosiectau ieuencid penodol wedi codi i ffurfio 47% o ymyriadau a ariannwyd gan SCF (o 26% yn 2006-07), gyda chwymp cyfatebol yn nifer y mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau ieuencid. O wybod lefel cyfyngedig yr wybodaeth yn y Gronfa Ddata Ariannu, gall hyn adlewyrchu, yn rhannol o leiaf, bod mwy o fanylder wedi'i gofnodi yn 2007-08.

Tabl 0-9 Nifer yr ymatebion yn ôl math a chronfa, 2007-08

| | Cronfa BCU | | Cronfa Cyfalaf CRASB | | Cronfa Refeniw CRASB | | Cronfa Cymunedau Diogelach | | I gyd | |
|--|------------|-------------|----------------------|-------------|----------------------|-------------|----------------------------|-------------|------------|-------------|
| | N | % | N | % | N | % | N | % | N | % |
| Prosiectau ieuentid/diogelwch ieuentid Ymddygiad | 3 | 2% | 8 | 7% | 6 | 3% | 98 | 47% | 114 | 17% |
| Gwrthgymdeithasol | 16 | 10% | 23 | 20% | 34 | 17% | 35 | 17% | 104 | 16% |
| Trosedd ieuentid | 3 | 2% | 0 | 0% | 1 | 1% | 34 | 16% | 38 | 6% |
| Camddefnyddio sylweddau | 3 | 2% | 3 | 3% | 22 | 11% | 23 | 11% | 50 | 8% |
| Cyfiawnder adferol | 0 | 0% | 0 | 0% | 1 | 1% | 7 | 3% | 8 | 1% |
| Lleihau trosedd | 32 | 20% | 16 | 14% | 10 | 5% | 4 | 2% | 58 | 9% |
| Troseddwyr cyson iawn/blaenoriaeth | 10 | 6% | 1 | 1% | 9 | 5% | 4 | 2% | 24 | 4% |
| Trais domestig | 10 | 6% | 6 | 5% | 24 | 12% | 2 | 1% | 40 | 6% |
| Trosedd cerbydau | 9 | 6% | 0 | 0% | 2 | 1% | 1 | 0% | 12 | 2% |
| Cymorth i Ddioddefwyr | 2 | 1% | 0 | 0% | 1 | 1% | 1 | 0% | 4 | 1% |
| Lleihau byrgleriaeth | 6 | 4% | 4 | 3% | 3 | 2% | 0 | 0% | 12 | 2% |
| Troseddu yn erbyn Busnesau | 3 | 2% | 0 | 0% | 4 | 2% | 0 | 0% | 7 | 1% |
| Cydllynant a sicrwydd cymunedol | 14 | 9% | 18 | 16% | 20 | 10% | 0 | 0% | 45 | 7% |
| Gwaith partneriaeth | 27 | 17% | 9 | 8% | 46 | 23% | 0 | 0% | 80 | 12% |
| Troseddau amrywiaeth/hil a chasineb | 8 | 5% | 1 | 1% | 2 | 1% | 0 | 0% | 11 | 2% |
| Prosiectau ar gyfer cyn-droseddwyr | 0 | 0% | 0 | 0% | 2 | 1% | 0 | 0% | 2 | * |
| Gwylidwriaeth (TCC) | 6 | 4% | 20 | 17% | 5 | 3% | 0 | 0% | 30 | 5% |
| Troseddu treisgar | 4 | 2% | 4 | 3% | 3 | 2% | 0 | 0% | 10 | 2% |
| Eraill | 6 | 4% | 2 | 2% | 3 | 2% | 0 | 0% | 11 | 2% |
| Cyfanswm | 162 | 100% | 115 | 100% | 197 | 100% | 209 | 100% | 660 | 100% |

Noder: ni fydd y pedwar rhaniad yn ôl cronfa yn gyfwerth â'r golofn 'I gyd' oherwydd efallai bod gan ymatebion nifer o ffynonellau ariannu. * = llai na 0.5%

Gwelwyd patrwm tebyg gydag arian SCF yn 2007-08 (Tabl 5-10 a Thabl 5-11). Cyfran yr arian SCF a wariwyd ar brosiectau ieuentid oedd 38% gyda 23% arall wedi'i wario ar droseddau ieuentid. Roedd mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cyfrif am 18% o arian SCF, cyfran debyg i'r ffynonellau ariannu mawr eraill (16% o arian BCU, 19% o arian Cyfalaf CRASB a 24% o arian Refeniw CRASB). At ei gilydd, gwariwyd mwy na £2.1 miliwn (19% o gyfanswm yr arian ar draws y bedair prif gronfa) ar fentrau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 2007-08.

Tabl 0-10 Swm yr arian (£) yn ôl y math o ymateb a chronfa, 2007-08

| | Cronfa BCU | Cronfa Cyfalaf CRASB | Cronfa Refeniw CRASB | Cronfa Cymunedau Diogelach | Cyfanswm |
|--|------------------|----------------------|----------------------|----------------------------|-------------------|
| Prosiectau ieuencid/ diogelwch ieuencid | 33,140 | 104,943 | 41,113 | 1,748,952 | 1,928,148 |
| Trosedd ieuencid | 18,500 | 0 | 22,502 | 1,052,936 | 1,093,938 |
| Ymddygiad | | | | | |
| Gwrthgymdeithasol | 364,130 | 223,548 | 705,576 | 833,440 | 2,126,694 |
| Camddefnyddio sylweddau | 59,451 | 7,373 | 435,494 | 516,266 | 1,018,584 |
| Cyfiawnder adferol | 0 | 0 | 29,000 | 246,202 | 275,202 |
| Troseddwyd cyson | | | | | |
| iawn/blaenoriaeth | 294,832 | 3,483 | 189,357 | 141,484 | 629,156 |
| Trais domestig | 62,524 | 21,430 | 269,548 | 47,787 | 401,289 |
| Lleihau byrgleriaeth | 124,802 | 21,512 | 148,171 | 46,652 | 341,137 |
| Trosedd cerbydau | 121,042 | 0 | 17,500 | 5,000 | 143,542 |
| Cymorth i Ddiodefwyr | 7,500 | 0 | 2,000 | 1,135 | 10,635 |
| Troseddu yn erbyn Busnesau | 20,000 | 0 | 51,521 | 0 | 71,521 |
| Cydllynant a sicrwydd | | | | | |
| cymunedol | 130,066 | 184,658 | 217,568 | 0 | 532,292 |
| Lleihau trosedd | 388,948 | 108,648 | 51,369 | 0 | 548,965 |
| Gwaith partneriaeth | 388,802 | 56,318 | 604,147 | 0 | 1,049,267 |
| Troseddau amrywiaeth/hil a chasineb | 40,118 | 651 | 48,172 | 0 | 88,941 |
| Prosiectau ar gyfer cyn-droseddwyd | 0 | 0 | 30,500 | 0 | 30,500 |
| Gwylidwriaeth (TCC) | 94,958 | 376,474 | 55,067 | 0 | 526,499 |
| Troseddu treisgar | 101,503 | 31,066 | 31,500 | 0 | 164,069 |
| Eraill | 33,932 | 12,156 | 52,308 | 0 | 98,396 |
| Cyfanswm | 2,284,248 | 1,152,260 | 3,002,413 | 4,639,854 | 11,078,775 |

Tabl 0-11 Canran yr arian yn ôl y math o ymateb a chronfa, 2007-08

| | Cronfa BCU | Cronfa Cyfalaf CRASB | Cronfa Refeniw CRASB | Cronfa Cymunedau Diogelach | Cyfanswm |
|--|------------------|----------------------|----------------------|----------------------------|-------------------|
| Prosiectau ieuencid/ diogelwch ieuencid | 1% | 9% | 1% | 38% | 17% |
| Trosedd ieuencid | 1% | 0% | 1% | 23% | 10% |
| Ymddygiad | | | | | |
| Gwrthgymdeithasol | 16% | 19% | 24% | 18% | 19% |
| Camddefnyddio sylweddau | 3% | 1% | 15% | 11% | 9% |
| Cyfiawnder adferol | 0% | 0% | 1% | 5% | 2% |
| Troseddwyd cyson | | | | | |
| iawn/blaenoriaeth | 13% | 0% | 6% | 3% | 6% |
| Trais domestig | 3% | 2% | 9% | 1% | 4% |
| Lleihau byrgleriaeth | 5% | 2% | 5% | 1% | 3% |
| Trosedd cerbydau | 5% | 0% | 1% | * | 1% |
| Cymorth i Ddiodefwyr | 0% | 0% | * | * | * |
| Troseddu yn erbyn Busnesau | 1% | 0% | 2% | 0% | 1% |
| Cydllynant a sicrwydd | | | | | |
| cymunedol | 6% | 16% | 7% | 0% | 5% |
| Lleihau trosedd | 17% | 9% | 2% | 0% | 5% |
| Gwaith partneriaeth | 17% | 5% | 20% | 0% | 9% |
| Troseddau amrywiaeth/hil a chasineb | 2% | * | 2% | 0% | 1% |
| Prosiectau ar gyfer cyn-droseddwyd | 0% | 0% | 1% | 0% | * |
| Gwylidwriaeth (TCC) | 4% | 33% | 2% | 0% | 5% |
| Troseddu treisgar | 4% | 3% | 1% | 0% | 1% |
| Eraill | 1% | 1% | 2% | 0% | 1% |
| Sylfaen (£) | 2,284,248 | 1,152,260 | 3,002,413 | 4,639,854 | 11,078,775 |

Noder: * = llai na 0.5%

Patrymau ariannu SCF: ymyriadau gyda phobl ifanc

Hefyd, lluniodd y tîm ymchwil set ar wahân o gategoriâu ar gyfer disgrifio ymyriadau a ariannwyd gan SCF, a bu iddynt ymgymryd â pheth gwaith dadansoddi trwy ddefnyddio'r rhain⁵³. Yn gyffredinol, roedd tua un o bob pedwar ymyriad a ariannwyd gan SCF (Tabl 5-12) yn weithgaredd hamdden dan

⁵³ Gweler Atodiad 2 am ddisgrifiad o'r ymagwedd a gymerwyd i gategoreiddio ffyrdd o weithio gyda phobl ifanc.

gyfarwyddyd⁵⁴. Roedd gweithgareddau hamdden hunan-gyfeiriol yn llai cyffredin (6% o ymyriadau a ariannwyd yn 2006-07 a 2% yn 2007-08) ac fe'u gwelwyd gan amlaf mewn ardaloedd gwledig lle mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru'n fwy yn ddaearyddol. Hefyd, roedd ymyriadau oedd wedi'u seilio ar y teulu'n gymharol anarferol: 3%-4% o gyfanswm yr ymyriadau a ariannwyd. Yn bennaf, roedd y rhain yn ymyriadau oedd wedi'u hanelu at addysgu rhieni oedd yn camddefnyddio sylweddau ac at gefnogi eu plant. Roedd gweithgareddau yn yr ysgol yn cyfrif am 8% o ymyriadau a ariannwyd gan SCF. Ymhlith yr enghreifftiau o'r rhain roedd cynlluniau'r *Crucial Crew* a *Validate* oedd yn gweithredu mewn ysgolion mewn nifer o ardaloedd.

Tabl 0-12 Y math o ymyriad a ariannwyd gan SCF yn ôl blwyddyn

| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|---------|------|---------|------|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Gweithgareddau hamdden dan gyfarwyddyd (DL) | 57 | 25% | 57 | 27% |
| Gweithgareddau hamdden hunan-gyfeiriol (SDL) | 13 | 6% | 5 | 2% |
| Gweithgareddau wedi'u seilio ar y teulu (FAM) | 8 | 3% | 8 | 4% |
| Gweithgareddau yn y gymuned (SCH) | 19 | 8% | 17 | 8% |
| Gweithgareddau cyfiawnder ieuenctid (YJ) | 55 | 24% | 49 | 23% |
| Eraill (OTH) | 37 | 16% | 41 | 20% |
| Anhysbys (NK) | 42 | 18% | 32 | 15% |
| I gyd | 231 | 100% | 209 | 100% |

Roedd gweithgareddau oedd wedi'u seilio ar Gyfiawnder Ieuenctid, gan weithio gyda throseddwr y gwyddys amdanynt, yn cyfrif am tua un o bob pedwar ymyriad a ariannwyd gan SCF. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o brosiectau ar gyfer troseddwr a chanddynt Orchymyn Gwaith Di-dâl i ymgymryd â thasgau fel cael gwared ar graffiti a nifer o ymyriadau oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu gweithwyr arbenigol mewn YOTs⁵⁵.

Nid oedd tua un o bob pump ymyriad a ariannwyd yn ffitio i mewn i'r pum prif dosbarthiad ac felly maent wedi'u galw'n "eraill". Roedd y rhain yn cyfrif am 16% o ymyriadau yn 2006-07 ac 20% yn 2007-08. Yn y grŵp yma, roedd yna dri is-grŵp amlwg: prosiectau camddefnyddio sylweddau cyffredinol (10 ymyriad yn 2006-07 ac 12 yn 2007-08), prosiectau mentora (4 ymyriad yn y ddwy flynedd) ac ymyriadau addysgol nad oeddynt wedi'u seilio yn yr ysgol fel prosiectau llythrennedd a rhifedd (9 ymyriad yn 2006-07 a 6 yn 2007-08). Roedd "eraill" hefyd yn cynnwys amrywiaeth eang o ymyriadau a oedd yn cynnwys goleuadau stryd, TCC, larymau personol, ffair Diogelwch y Cartref, taflenni, ymarferion ymchwil/sgopio, darparu hyfforddiant a rhoi sicrwydd i'r henoed. Yn olaf, ni fu'n bosibl dosbarthu 18% o ymyriadau yn 2006-07 ac 15% yn 2007-08 oherwydd diffyg gwybodaeth addas yn y gronfa ddata.

⁵⁴ e.e.: Roundwood Saturday Club' yng Nghaerdydd a'r 'Friday Chill' ym Mro Morgannwg a ddyluniwyd i ddarparu gweithgareddau i bobl ifanc gael 'rhywle y gallant fynd iddo ac ymlacio yn lle loetran ar y strydoedd".

⁵⁵ Fel Gweithwyr Camddefnyddio Sylweddau a gweithwyr Cymorth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Mae Tabl 0-13 yn dangos faint o arian SCF a wariwyd a chanran y cyfanswm ar gyfer pob grŵp. Gwariwyd tua thraean o'r arian ar weithgareddau oedd wedi'u seilio ar Gyfiawnder Ieuenctid gyda thua un rhan o bump wedi'i wario ar weithgareddau oedd wedi'u seilio ar hamdden.

Tabl 0-13 Swm yr arian SCF (£) yn ôl y math o ymyriad a'r flwyddyn

| | 2006-07 | | 2007-08 | |
|---|------------|------|------------|------|
| | Swm | % | Swm | % |
| Gweithgareddau hamdden dan gyfarwyddyd (DL) | £847,149 | 20% | £977,815 | 21% |
| Gweithgareddau hamdden hunan-gyfeiriol (SDL) | £356,524 | 8% | £222,327 | 5% |
| Gweithgareddau wedi'u seilio ar y teulu (FAM) | £177,696 | 4% | £197,329 | 4% |
| Gweithgareddau yn y gymuned (SCH) | £347,527 | 8% | £314,168 | 8% |
| Gweithgareddau cyfiawnder ieuenctid (YJ) | £1,339,150 | 31% | £1,621,357 | 35% |
| Eraill (OTH) | £623,500 | 15% | £565,223 | 12% |
| Anhysbys (NK) | £599,610 | 14% | £741,575 | 16% |
| I gyd | £4,291,166 | 100% | £4,639,854 | 100% |

Crynodeb

Cafodd yn agos i £4.3 miliwn o arian ei gymeradwyo gan y Gronfa Cymunedau Diogelach yn y flwyddyn ariannol Ebrill 2006 – Mawrth 2007, gyda'r arian ar gyfer 2007-08 yn codi cyfartaledd o 7% i dros £4.6 miliwn. Arian SCF oedd y mwyaf o bedair ffynhonnell arian fawr⁵⁶, a oedd yn cynrychioli tua 38% o'r cyfanswm a wariwyd ar gyfer 2006-07, a 42% o gyfanswm y gwariant ar gyfer 2007-08. Y Gronfa Cymunedau Diogelach oedd prif ariannwr prosiectau ieuenctid ac ymyriadau eraill i leihau troseddau ieuenctid gan mai ond ychydig o ymyriadau o'r natur hwn a arianwyd gan y tair cronfa arall.

Cafodd 231 o ymyriadau arian SCF yn 2006-07 ac fe'i gafwyd gan 209 o ymyriadau yn 2007-08. Roedd nifer yr ymyriadau a ariannwyd ym mhob ardal yn amrywio (gan ymestyn o 4 yng Nghasnewydd i 20 yn Abertawe a Bro Morgannwg yn 2006-07; a chan ymestyn o 4 yng Nghasnewydd i 19 ym Mro Morgannwg yn 2007-08). Cyfartaledd yr arian SCF yr ymyriad unigol oedd £18,576 yn 2006-07, gan godi i gyfartaledd o £22,200 yn 2007-08. Bu amrywiaeth sylweddol yn y swm a ariannwyd (gan ymestyn o £500 yr ymyriad i £113,000 yn 2006-07; ac o £286 i £140,884 yn 2007-08). O gymharu â'r tair cronfa fawr arall, cyfartaledd arian SCF yr ymyriad oedd yr uchaf.

Yn 2006-07, gwariwyd dros 70% o arian SCF ar: brosiectau ieuenctid (26%), mentrau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (24%) a lleihau trosedd ieuenctid yn gyffredinol (21%). Yn bennaf, er mai dim ond canran bach (6%) o ymyriadau a ariannwyd gan SCF oeddynt, cafodd mentrau cyfiawnder ieuenctid eu hariannu gan SCF (89% o gyfanswm yr arian ar fentrau cyfiawnder ieuenctid). Yn amlach, cafodd mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hariannu gan gronfeydd mawr eraill, yn ogystal â'r Gronfa Cymunedau Diogelach. Yn gyffredinol, gwariwyd

⁵⁶ Y rhai eraill yw cronfa'r Uned Reoli Sylfaenol (BCU), Cronfa Cyfalaf Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (CRASB) a chronfa Refeniw CRASB.

mwy na £2.1 miliwn (19% o gyfanswm yr arian ar draws y pedair cronfa fawr) ar leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn 2007-08.

Gwelwyd tueddiadau lled-debyg ar gyfer 2007-08. Fodd bynnag, roedd nifer y prosiectau ieuentid penodol wedi codi i lunio 47% o ymyriadau a ariannwyd gan SCF (o 26% yn 2006-07), gyda chwmp cyfatebol yn nifer y mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsteddau ieuentid. Cyfran yr arian SCF a wariwyd ar brosiectau ieuentid oedd 38% gyda 23% arall yn cael ei wario ar droseddau ieuentid. Roedd mentrau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cyfrif am 18% o arian SCF. Trwy ddsbarthu ymyriadau a ariannwyd gan SCF yn nhermau sut yr oeddynt yn gweithio gyda phobl ifanc, gwelwyd bod yna ddwy prif ymagwedd – ymyriadau oedd yn seiliedig ar Gyfiawnder Ieuentid a gweithgareddau hamdden dan gyfarwyddyd. Roedd y ddau dull yma yn cyfrif am tua chwarter o'r cyfanswm yr un⁵⁷.

Ar hyn o bryd, nid yw cronfa ddata SCF yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o'r math iawn i allu dod i gasgliadau am arferion da neu am effeithiolrwydd ymyriadau. O ganlyniad, ychydig o gasgliadau y gellir eu gwneud am 'gydweddiad' prosiect gyda naill ai meini prawf Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan neu dechneg SARA. Ymddengys mai dim ond monitro a mewnbynnu data arwynebol a wna rhai partneriaethau. Yn yr ardaloedd astudiaeth achos, nid oedd y gwaith a oedd yn amlwg yn cael ei wneud ar lawr gwlad bob tro'n cael ei adlewyrchu'n llawn yn y gronfa ddata.

Felly, nid fu'n bosibl gwerthuso i ba raddau y mae prosiectau a ariannwyd wedi dilyn y meini prawf datrys problemau strategol sy'n gysylltiedig â meini prawf SARA y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, mae peth o'r deunydd yn y gronfa ddata'n fanwl iawn ac yn awgrymog, ac yn ein barn ni, gellid cryfhau'r defnydd o'r fframwaith bresennol er mwyn gallu casglu set o wybodaeth ehangach ac o ansawdd uwch am arferion SCF ar draws Cymru.

⁵⁷ Roedd 27% yn weithgareddau hamdden dan gyfarwyddyd; roedd 23% yn weithgareddau oedd yn seiliedig ar Gyfiawnder Ieuentid; roedd 8% yn weithgareddau yn yr ysgol; roedd 4% yn weithgareddau oedd yn seiliedig ar y teulu ac roedd 2% yn weithgareddau hunan-gyfeiriol. Roedd 20% arall o ymyriadau yn y grŵp "eraill" ac nid oedd yn bosibl dosbarthu 15%.

Astudiaethau Achos Prosiect SCF

Dyluniad a dethol astudiaethau achos

Mae'r ymagwedd astudiaeth achos yn elfen fawr o'r gwerthusiad hwn ac mae'n ymdrin â'r amcanion a ganlyn:

- archwilio'r mathau o brosiectau a ariennir gan SCF a disgrifio'r gwaith y mae'r prosiectau'n ymgymryd ag ef gyda phobl ifanc;
- archwilio sut y caiff problemau trosedd ac anhrefn ieuenctid eu hadnabod a'u dehongli gan y rheiny sy'n cael cymorth SCF;
- sefydlu pwy sy'n rhan o'r broses o adnabod a dehongli problemau trosedd ac anhrefn ieuenctid;
- archwilio sut y caiff ymatebion i'r problemau hyn eu dylunio a'u comisiynu;
- archwilio sut y caiff effaith yr ymatebion hyn eu hasesu a beth yw canlyniad hyn ar gyfer datrys problemau yn y dyfodol.

Mae'r astudiaethau achos wedi'u dylunio i archwilio tair ardal: Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Sir Y Fflint⁵⁸. Tybir bod gan yr ardaloedd hyn strategaethau arloesol, llwyddianus ag adnoddau da ar gyfer atal troseddau ieuenctid (Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2008) ac roedd pob un yn cyflwyno cyd-destunau gwrthgyferbyniol ar gyfer atal troseddau ieuenctid yn, yn ôl eu trefn, cymoedd dad-ddiwydianedig De Cymru, un o'r prif ddinasoedd arfordirol a sir sy'n bennaf wledig yng Ngogledd Cymru.

Hefyd, bu'n rhaid dethol prosiectau penodol o fewn pob un o'r ardaloedd astudiaeth achos hyn i'w harchwilio'n fanylach. Roedd y prosiectau a ariennir gan SCF a ddewiswyd i gyd yn 'fyw' adeg y gwerthusiad hwn. Fel y dangosir yn Nhabl 6-1, y prosiectau hynny sydd wedi'u huwcholeuo'n 'bold' oedd y prosiectau arbennig a ddetholwyd ar gyfer yr astudiaeth achos⁵⁹.

Roedd yr ymchwil astudiaeth achos yn cynnwys:

- cyfweld â rheolwyr strategol (rheolwyr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid) a oedd yn gyfrifol am gomisiynu prosiectau a ariannwyd gan SCF⁶⁰;
- cyfweld â rheolwyr y prosiectau a'r gweithwyr rheng-flaen a gyflogwyd ar y prosiectau hyn⁶¹;
- cyfweliadau grŵp ffocws gyda'r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y prosiectau hyn, a chydag oedolion yn y gymuned⁶².

⁵⁸ Nid yw'r gwerthusiad astudiaeth achos hwn wedi'i ddylunio i alluogi cyffrediniadau o 'sampl cynrychiadol' o brosiectau a ariennir gan SCF. Yn hytrach, mae'n ffocysu ar yr hyn y gellir ei ddyysgu am atal troseddau ieuenctid trwy nifer cyfyngedig o astudiaethau manwl o brosiectau a ariennir gan SCF mewn ardaloedd penodol yng Nghymru.

⁵⁹ Gwnaethpwyd y detholiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau sgopio gyda rheolwyr strategol lleol y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid oedd yn rhan o ddyrannu cymorth SCF.

⁶⁰ 6 rheolwr strategol (2 o bob ardal).

⁶¹ 23 o staff prosiect (7 o Abertawe, 9 o Rhondda Cynon Taf a 7 o Sir Y Fflint).

⁶² Cynhaliwyd 5 grŵp ffocws gyda phobl ifanc oedd yn cymryd rhan mewn prosiectau a ariannwyd gan SCF (2 yn Abertawe, 2 yn Rhondda Cynon Taf ac 1 yn Sir Y Fflint), a chynhaliwyd 2 grŵp ffocws cymunedol yn Abertawe.

Tabl 0-1 Prosiectau 'Byw' a ariannwyd gan SCF yn Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Sir Y Fflint adeg yr ymchwil

| Math o brosiect | Ardal | | |
|---|---|---|---|
| | Rhondda Cynon Taf | Abertawe | Sir Y Fflint |
| <i>DL</i> (Gweithgareddau hamdden dan gyfarwyddyd) | Parth Diogelwch, £26K Swyddog Dargyfeiriol, £30K 'Friday Night, Blue Light', £20K | Rhwystro ac Atal, £207, 885 'Skool's Out', £14,620K Prosiect Cynhwysiant Chwaraeon, £42K Prosiect 'Spark/CRED', £10.7K Prosiect Ieuenctid Fairbridge, £5K | Menter Lleihau ac Atal trosedd £76,000 |
| <i>SDL</i> (Gweithgareddau hamdden hunan-gyfeiriol) | 'Friday Night, Blue Light', £20K 'Validate' – prawf oed, £20K | 'Youth Mobile', £7K Rheoli Dicter, £33, 983 | Prosiect Addysg Cyffuriau £72,000 |
| <i>FAM</i> (Gweithgareddau wedi'u seilio ar y teulu) | Gweithiwr Ieuenctid ASBO, £43K | Rhwystro ac Atal, £207, 885 Prosiect Cynhwysiant Chwaraeon, £42K | Amh |
| <i>SCH</i> (Gweithgareddau yn y gymuned) | Parth Diogelwch, £26K Cyfiawnder adferol mewn Ysgolion, £114,300 'Get Sorted' – Camddefnyddio sylweddau mewn Ysgolion, £44.4K 'All Safe' –Swyddog Cyswllt yr Heddlu ag Ysgolion £10K | Prevent and Deter, £207, 885 Hyfforddiant ac Addysg i Ieuenctid y Gwasanaeth Tân, £25K 'Hype', £10K | Prosiect Addysg Cyffuriau £72,000 |
| <i>YJ</i> (Gweithgareddau wedi'u seilio ar Gyfiawnder Ieuenctid) | Dim | Rhwystro ac Atal, £207, 885 Rheoli Dicter, £33, 983 | Menter Lleihau ac Atal Trosedd £76,000 Atgyweiriadau Cymunedol £13,500 |

Noder: Y prosiectau sydd mewn teip 'bold' yw'r rhai a ddetholwyd yn unedau i'w dadansoddi ar gyfer yr astudiaeth achos (am fanylion codau y mathau o brosiect, gweler Atodiad 2).

Ardal Astudiaeth Achos 1 - Sir Y Fflint

Mae'r Adran hon yn disgrifio'r tri prosiect a ariannwyd gan SCF yn Sir Y Fflint a ddewiswyd i'w harchwilio'n fanylach.

Menter lleihau/atal trosedd

Mewnbwnau SCF

Caiff arian SCF ei ddefnyddio i (1) cyflogi gweithiwr Dug Caeredin amser llawn yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuencid Sir Y Fflint; (2) talu am eiddo Dug Caeredin ac Atgyweirio Cymuned ar y cyd⁶³; a (3) talu am gynorthwy-ydd gweinyddol rhan-amser i gynnal mewnbwn prosiect i'r gronfa ddata CAREWORKS⁶⁴.

Nod y Prosiect

Prif nod y prosiect yw atal trosedd trwy ddarparu (1) "defnydd adeiladol o amser hamdden"; (2) y posibilrwydd o ennill sgiliau a chymwysterau newydd (y mae'r wobwr Dug Caeredin yn un enghraifft ohonynt); a (3) cyfle i bobl ifanc gyfrannu at eu cymunedau lleol.

Ymyriad a grŵp targed

Mae'r prosiect yn darparu'r cynllun Dug Caeredig i bobl ifanc 'mewn perygl' o drosedd⁶⁵. Yn bennaf, daw atgyfeiriadau oddi wrth yr YOS, ond maent yn cynnwys ystod o ffynonellau eraill⁶⁶. Hefyd, mae'r prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi cael Gorchymyn Cosb Cymunedol (CPO)⁶⁷ y mae'n rhaid iddynt fynychu'r prosiect (nad yw'n wir am y cyfranogwyr eraill). Mae rhan helaethaf y bobl ifanc yn aros ar y prosiect am chwe mis⁶⁸.

Cyd-destun lleol

Gan nad oes wasanaeth cyffelyb yn yr ardal i bobl ifanc 'mewn perygl', mae'r prosiect yn llenwi bwlch yn narpariaeth gwasanaethau lleol – yn arbennig i bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r YOT:

"O fewn yr YOT,maen nhw naill ai'n cael eu disgyblu neu'n cael gwybod bod rhaid iddyn nhw fod yn y fan hon, neu fod yn y fan draw. ...Os nad oedd y prosiect yno nid oes yna unrhyw ffordd arall o fewn yr YOT y byddai ganddyn nhw unrhyw beth adeiladol neu bositif i'w wneud. Iawn, maen nhw wedi cyflawni trosedd, ond mae ganddyn nhw'r holl amser yma gyda chi, felly gadewch i ni o leiaf roi rhywbeth adeiladol iddyn nhw ei wneud – er mwyn efallai troi dalen newydd ac elwa rhywbeth ar ei ddiwedd."

⁶³ Darparu lle i storio offer a lleoliad ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys: trwsio beiciau sydd wedi'u torri i'w cyfrannu i elusen; diwrnodau addysg (modur); a phrosiectau celf.

⁶⁴ Hefyd, caiff CAREWORKS ei defnyddio gan tua 40 o YOTs yng Nghymru a Lloegr.

⁶⁵ Mae gweithiwr Dug Caeredin wedi gweithio i Wasanaethau Troseddau Ieuencid Sir Y Fflint ers tua phedair blynedd - dim ond yn ddiweddar y cafodd y swydd ei hariannu gan SCF.

⁶⁶ Fel: hostelau, canolfannau ieuencid a gweithwyr ieuencid.

⁶⁷ Yn cynnwys tua chwarter llwyth achos y prosiect (tua 20). Mae cwblhau'r prosiect yn lleihau hyd eu CPO 20 y cant.

⁶⁸ Mae Gwobr Efydd yn cymryd 6 mis, Arian blwyddyn, ac Aur hyd at 3 blynedd.

Effaith y Prosiect⁶⁹

Mae'r prosiect yn addysgu amrywiaeth o sgiliau (fel: gosod briciau, mosäigau, peirianeg modurau, cynnal a chadw, peirianeg beiciau), wrth ddarparu ystod eang o waith atgyweirio i'r gymuned leol (e.e. gofalu am y grŷn bowlio lleol, glanhâu graffiti, codi ysbwriel, adeiladu parciau i bobl anabl, reidiau elusen noddedig). Ar yr un pryd, mae'n darparu neges eglur am ymddygiad sydd o blaid cymdeithas:

"Nid dim ond mynd trwy'r wobwr er mwyn ei basio yw'r pwrpas. Mae yna negeseuon cudd am ymddygiad positif, yr hyn sy'n iawn ac yn anghywir, ...a thra'u bod nhw gyda ni gallwn [hefyd] cynnwys sesiynau ar reoli dicter, ymddygiad gwrthgymdeithasol, yfed a chyffuriau, ...gan ddefnyddio'r wobwr fel esgus."

Mae gan y bobl ifanc y cyfle i ennill gwobrau a chymwysterau (er gwaethaf y ffaith nad yw llawer ohonynt wedi llwyddo cael rhai mewn manau eraill) ac yn aml 'tyfu allan' o droseddu tra fyddant ar y prosiect:

"Ar ddiwedd y dydd mae ganddyn nhw wobwr efydd Dug Caeredin a Rhwydwaith Coleg Agored (OCN) na fydden nhw fel arall wedi'u cael. ...Mae'n syndod faint o bobl sydd heb gael unrhyw beth; TGAU, NVQ, unrhyw beth. ...Felly mae'n fantais iddyn nhw ei wneud, heb os. ...Rydym yn cynnig [gwobrau] arian ac aur ... [ond mae yna] lai o bobl yn gwneud arian ac aur oherwydd unwaith y byddan nhw wedi gwneud efydd, wedi iddynt ei basio, maen nhw'n fodlon ar hynny ac erbyn hynny mae'n syndod faint o bobl sydd wedi symud ymlaen [o'r risg o droseddu]. Maen nhw wedi aeddfedu tra'u bod wedi bod gyda chi."

Hefyd, mae yna fanteision ehangach, llai mesuradwy, i'r prosiect:

"Yn sicr, maen nhw'n ennill hunan-barch ganddo. Fel arfer trwy'r pethau na fydden nhw'n eu gwneud, fel yr alldaith ... lle maen nhw'n cerdded trwy'r dydd, yn gwersylla dros nos ac yn cerdded eto. Mae hanner ohonyn nhw, pan rydych chi'n dweud wrthyn nhw beth maen nhw am ei wneud, maen nhw'n dweud, 'Iesu, dydw i byth yn mynd i wneud hynna'. Ond maen nhw'n ei wneud ac mae'n rhoi cymaint o hunan-barch iddyn nhw ac ymdeimlad o gyflawniad personol. ...Rydw i'n gweld llawer o hynny ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud. ...[Hefyd] yn sicr mae'n dymchwel rhwystrau o fewn y gymuned oherwydd mae llawer o bobl ifanc, pan fyddwn ni'n mynd allan ac yn gwneud rhywbeth yn y gymuned ac maen nhw'n cwrdd â heddweision neu ddynion tân neu hen bobl, wedi iddyn nhw weithio gyda nhw am hanner awr neu siarad gyda nhw, mae o'n dymchwel rhwystrau."

⁶⁹ Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda phedwar cyfranogwr prosiect oedd o dan CPO, ond cafwyd diffyg deunydd ymchwil o ganlyniad i hwn. Nid oedd y cyfranogwyr hyn yn gwahaniaethu rhwng eu profiad o'r CPO a'u hymglymiad yn y prosiect. O ganlyniad, nid oeddynt yn ymgysylltu'n arbennig â'r prosiect ac roedd eu hadborth ar y CPO yn gwbl negyddol.

Prosiect Atgyweirio Cymuned

Mewnbwn SCF

Caiff SCF ei ddefnyddio i ariannu darpariaeth prosiectau atgyweirio – *nid* costau staff nac eiddo⁷⁰. Caiff rhan fwyaf arian SCF ei wario ar yr “*arfau a'r offer iechyd a diogelwch*” sydd eu hangen i ddarparu prosiectau er bod yna hyblygrwydd o ran hyn:

“Dydyn ni ddim yn dueddol o brynu deunyddiau os fedrwn ni beidio. Fe wnawn ni, ond ddim llawer. ...Gyda'r prosiect parcio ceir, fe wnaethom ni helpu gyda'r blociau parcio oherwydd nad oedden nhw [yr eglwys leol] yn gallu eu fforddio, ac oherwydd ei fod yn un o'r prosiectau hynny yr oedd wirioneddol ei angen ar y gymuned.”

Nod y prosiect

Nod y prosiect yw darparu holl elfennau atgyweirio sy'n gysylltiedig â dedfrydau cymunedol troseddwr ifanc ⁷¹.

Ymyriad a grŵp targed

Mae'r prosiect yn rhedeg am bum diwrnod yr wythnos a'i lwyth achosion presennol yw 2-3 troseddwr ifanc y dydd. Yr amser mwyaf y gall person ifanc unigol ei dreulio ar brosiect yr wythnos yw tri diwrnod neu ddau ddeg un awr (y lleiaf yw chwech awr).

Un o'r anawsterau allweddol i bobl ifanc y mae'r prosiect atgyweirio'n ceisio ymdrin ag ef yw “*sgiliau ymrwymiad, y sgiliau cyfathrebu*”. Fodd bynnag, mae'r prosiectau hefyd yn anelu at ymdrin ag ymddygiad anodd a heriol pobl ifanc:

“Llawer o'r amser ni fydd gan y bobl ifanc hyn ffiniau go-iawn, rydym yn gofyn i'r gweithwyr herio ymddygiad anodd. Pan maen nhw ar y prosiect, mae ganddyn nhw reolau iechyd a diogelwch, bydd rhaid iddyn nhw gadw at reolau'r prosiect, ac os na fyddan nhw, fydden nhw'n cael eu herio. Ac yna rydym ni'n esbonio iddyn nhw nhw pam eu bod wedi'u herio ... [felly] daw meddwl am ganlyniadau'n ran ohono. ...A hefyd cymhelliant – lle nad oes ar y person ifanc eisiau gwneud dim ... mae angen eu hannog i sylweddoli'r hyn y maen nhw wedi'i wneud a bod hyn yn gyfle iddyn nhw roi rhywbeth yn ei ôl.”

Mae'r prosiect yn cynnig ystod amrywiol o waith atgyweirio – fel arfer gan ddarparu un “prosiect mawr” a chanddo “is-brosiectau”. Mae hyn yn galluogi i'r rheolwr prosiect ymateb i anghenion amrywiol y bobl ifanc:

“Mae yna lawer o bobl ifanc sydd ddim yn gallu gweithio mewn grŵp, felly mae'n rhaid gweithio ar lefel un i un gyda nhw, neu mae ganddyn nhw anawsterau dysgu difrifol, er enghraifft, dydyn nhw ddim yn gallu mynd â denfyddio arfau pŵer. Felly, fe wnawn ni addasu prosiectau yn ôl eu hanghenion.”

Mae'r tîm yn gwneud eu gorau i ddatblygu amrywiaeth diddorol o dasgau:

⁷⁰ Caiff y rheolwr prosiect a'r gweithwyr sesiynol eu hariannu'n allanol, fodd bynnag, mae'r gweithiwr prosiect yn cael ei ariannu gan SCF – trwy'r fenter lleihau/atal trosedd.

⁷¹ Gorchymynion Cosb Cymunedol a Rhaglenni Goruchwylio ac Arolygu Dwys (ISSPs) yn bennaf.

"Pe bawn ni'n dod yma ac yn gwneud byrddau adar neu flychau adar ddydd ar ôl dydd – rydych chi'n creu sefyllfa lle bydd pobl ifanc yn methu a lle na fyddant yn dod nôl y diwrnod nesaf ... gall fod yn ailadroddus. Rydw i'n meddwl os ydyn ni'n gwneud hynny, nid ydym yn rhoi'r math iawn o neges i'r bobl ifanc."

... gan hefyd "cael prosiect a chanddo'r cydbwysedd iawn er lles y bobl ifanc a'r gymuned":

"Mae'n rhaid i'r gymuned elwa ohono ... Ni fyddai'n atgyweirio os mai dim ond y bobl ifanc fyddai'n elwa ohono. ... Ar y foment rydym yn ailwampio capel, a daeth [y prosiect] hwn o'r gymuned. Mae'r capel yna'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd iawn, iawn ond nid oes ganddynt lawer o arian. Mae'n rhyw fath o dirnod yn y gymuned oedd ag angen help ac roedd galw mawr amdano yn y gymuned."

Effaith y prosiect

Mae'r prosiectau atgyweirio'n cael effaith ar sawl lefel: maent yn galluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau (gan gynnwys gwobrau ASDAN⁷² a "sgiliau cyflogi trosglwyddadwy"):

"Mae'r adborth rydym wedi'i gael gan bobl ifanc yn reit brawychus. Pan rydych chi'n edrych ar rai pobl sydd ddim hyd yn oed yn gwybod sut i ddal brwsh paent yn iawn, ond ar ôl mis o weithio (ar brosiect) maen nhw'n dod nôl gan ddweud eu bod nhw wedi paentio ystafell wely eu chwaer fach."

Hefyd, mae'r prosiectau'n cael effaith ar lefel mwy personol – ar ymddygiad y bobl ifanc ac ar eu hunan-barch. Trwy geisio hybu "perchnogaeth" a "hunan-ddiddordeb" pobl ifanc yn eu gwaith, mae'r prosiect yn eu galluogi i "deimlo fel pe baen nhw wedi gallu gwneud rhywbeth positif am unwaith."

Mae'r prosiectau'n ymgymryd â gwaith adeiladu, adnewyddu neu atgyweirio y mae angen mawr amdano wrth hefyd newid canfyddiad y gymuned o droseddwy'r ifanc:

"Elfen allweddol yw gwneud yn siwr bod y bobl ifanc yma'n cael eu gweld yn y gymuned yn rhoi rhywbeth nôl, oherwydd nid yw pawb yn gwybod bod y bobl ifanc hyn yn gwneud unrhyw waith o gwbl ar wasanaeth cymunedol. Maen nhw fel petaent yn meddwl eu bod yn mynd i'r llys ac yn cael dim. Felly mae'n hanfodol bod pobl yn eu gweld â'u llygaid eu hunain yn rhoi rhywbeth i'w cymuned leol."

Fel rhan o hyn, pan fydd prosiect pwysig yn cael ei gwblhau, mae'r rheolwr prosiect yn ceisio trefnu "sesiwn tynnu lluniau gyda chynghorwyr sir" ar gyfer y wasg leol. Hefyd, caiff barn y gymuned leol ei monitro ac fe fu'n bositif :

⁷² Gwobrau Cyflawniad Ieuencid, y mae'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Gwobrau (ASDAN) yn eu goruchwyllo – tebyg i'r gwobrau Rhwydwaith Coleg Agored (OCN).

"[Yn ogystal â'r] ...diolch a'r llythyrau a gawn gan y gymuned, gan y bobl sydd wedi bod yn rhan or prosiect, ... rydym yn ceisio dychwelyd i leoliad y prosiect ar ôl ychydig fisoedd i weld a yw'r gymuned yn ei ddefnyddio ac i weld beth maen nhw'n ei feddwl ohono."

Un o'r prif fanteision a gafwyd drwy cronfeydd SCF fu galluogi'r rheolwr prosiect i ddatblygu prosiectau wedi'u 'targedu' yn fwy penodol:

"Rydym wedi cyrraedd y lefel rydym wedi'i gyrraedd hyd yma oherwydd yr arian [SCF]. ...O ran datblygu prosiectau mae wedi caniatáu prosiectau gwell, prosiectau mwy cynaliadwy, gwell addysg ar gyfer y bobl ifanc, a diogelwch i'r bobl ifanc. Os nad ydych chi'n gallu fforddio'r offer diogelwch iawn, dydych chi ddim yn gallu fforddio gwneud y jobsys iawn, ac felly ni fyddant [y bobl ifanc] yn cael y sgiliau iawn, fydd [yn ei dro] ddim yn rhoi'r 'priodolddau' iawn i'r prosiect os liciwch chi."

Ond gydag arian cyfyngedig yn unig, mae cwmpas y prosiectau atgyweirio'n parhau i fod yn gymharol gyfyngedig:

"Pe bawn ni'n gallu prynu mwy o ddeunyddiau, gallen ni wneud mwy, ...yn arbennig yn misoedd y gaeaf, pan ... nad yw'r tywydd yn arbennig o dda i wneud llawer o brosiectau awyr agored. Fe allen ni wneud meinciau a dodrefn gardd a'u cyfrannu nhw."

Prosiect addysg cyffuriau

Mewnbwn SCF

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu'n rhannol gan SCF i ddarparu rheolwr prosiect sy'n rhoi addysg cyffuriau i ddisgyblion ysgolion uwchradd yn Sir Y Fflint a gweithiwr addysg cymheiriaid sy'n datblygu, hyfforddi a chefnogi addysgwyr cymheiriaid.

Nodau'r prosiect

Ymatebodd y prosiect hwn i ofyniad y cwricwlwm cenedlaethol y dylai gwersi Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ddarparu addysg cyffuriau:

"Y nod allweddol yw rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i bobl ifanc am gyffuriau ac alcohol, i'w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus ac yn y pendraw, lleihau nifer y bobl sy'n denfyddio cyffuriau ac alcohol ac sy'n rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throstedd."

Ymyriadau a grŵp targed

Mae gan y prosiect hwn ddwy prif elfen. Mae'r cyntaf yn cynnwys rheolwr prosiect sy'n darparu addysg cyffuriau i ddisgyblion ysgolion uwchradd yn Sir Y Fflint trwy eu gwersi ABCh⁷³. Mae'r ail yn cynnwys gweithiwr addysg cymheiriaid sy'n recriwtio, hyfforddi a chefnogi addysgwyr cymheiriaid er mwyn "dod o hyd i ffordd arall o ddarparu addysg cyffuriau". Disgrifiodd y gweithiwr addysg cymheiriaid sut y mae dwy elfen y prosiect yn cyflenwi'i gilydd:

⁷³ Mae hyn yn digwydd yn neg o'r deuddeg ysgol uwchradd sydd yn y sir, gan ddarparu addysg cyffuriau i "bob dosbarth ym mhob grŵp blwyddyn".

"Mae'r ddau ohonom yn gweithio'n agos iawn gyda'n gilydd. Rydw i'n gwybod beth y mae o'n ei wneud, ...ac i'r gwrthwyneb, mae o'n gwybod am y cynllun sesiwn y mae'r addysgwyr cymheiriaid yn mynd i'w ddarparu, felly fe all ddilyn ymlaen o hwnnw gyda mwy o waith. Maent yn cyflenwi'i gilydd yn dda iawn."

Mae cynnwys y sesiynau addysg cyffuriau'n cael ei "arwain gan angen", gan ddibynnu'n fawr ar "y problemau rydym yn gwybod amdanynt ym mhob ardal". Yn bennaf, daw'r tystiolaeth ar gyfer hyn trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Grŵp Gweithredu ar y Cyd⁷⁴. Fel enghraifft o'r ymagwedd 'ymatebol' hon:

"Dyweddod yr heddlu wrthym bod y wardeniaid cymdogaeth wedi dod o hyd i ardal lle roedd tuniau ('canisters') yn cael eu defnyddio, felly bu i ni dargedu'r ysgol leol gyda sesiwn cam-drin toddyddion."

Hefyd, daw tystiolaeth o angen lleol am addysg cyffuriau oddi wrth y bobl ifanc eu hunain. Mae'r prosiect wedi prynu cyfrifiadur rhyngweithiol arloesol o'r enw 'Blwch Cyffuriau'. Fel y disgrifiodd y Rheolwr Prosiect Addysg:

"Rydym wedi gadael un yn y Siop Wybodaeth yn [tref cyfagos], ... gall bobl ifanc gyrchu gwybodaeth – mae'n sgrîn gyffwrdd – a'r cwbl y mae angen iddynt ei wneud yw rhoi eu cod post ynddo a beth fydd y cyfrifiadur yn ei wneud yw storio'r wybodaeth y maen nhw'n ei chyrchu. ...Felly'r cwbl a wnawn ni yw mynd ar ein gwefan, rhoi cyfrinair i mewn a gallwn weld am ba wybodaeth y mae pobl ifanc [o ardaloedd penodol] wedi bod yn chwilio ... A bydd hynny'n llunio sail i'r hyn a wnawn ni yn yr Ysgol Uwchradd y flwyddyn nesaf."

Hefyd, mae'r ysgolion yn rhoi mewnbwn i'r sesiynau:

"Daeth un o'r ysgolion uwchradd atom ynglŷn â grŵp o enethod ifanc a oedd yn yfed yn ystod eu hawr ginio, ac fe aethom i mewn a gwneud darn o waith wedi'i dargedu gyda'r grŵp hwnnw o bobl ifanc dros nifer o wythnosau."

Mae'r addysg cymheiriaid yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 10 (14/15 oed) a Blwyddyn 12 (16/17 oed) yn rhoi addysg gyffuriau i ddisgyblion sydd dair neu bedair blynedd yn iau na nhw eu hunain⁷⁵. Mae'r sesiynau addysgol wedi'u dylunio'n ofalus i sicrhau eu bod yn oed-benodol: "cyfleu'r negeseuon iawn, i'r grŵp oedran iawn".

"Fyddwn ni ddim yn siarad am crac cocên a heroin gyda Blwyddyn 7, ond byddwn yn siarad gyda nhw am doddyddion, canabis ac alcohol. Ac yna, wrth iddynt fynd yn hŷn efallai mwy am y cyffuriau parti: cocên ac ecstasi pan fyddant ym Mlwyddyn 11 ."

⁷⁴ Lle mae gwahanol asiantaethau o ledled y wlad yn rhannu gwybodaeth am broblemau penodol y meint yn eu profi.

⁷⁵ Roedd y gwahaniaeth yma mewn oed yn un yr oedd yr addysgwyr cymheiriaid eu hunain yn "fwyaf cyfforddus" age f, ond yn ddigon agos fel bod y rheiny sy'n cael yr addysg cymheiriaid yn meddwl bod yr addysgwyr cymheiriaid yn "dal i fod ar yr un donfedd".

Gofynnir i fyfyrwyr wirfoddoli i fod yn addysgwyr cymheiriaid wedi i'r gweithiwr addysg cymheiriaid roi cyflwyniad i'r grŵp blwyddyn cyfan:

"Fel arfer, rydw i'n cael rhestr o wirfoddolwyr ac yna ... bydd yr ysgolion a minnau'n mynd trwy'r rhestr. Ac rydw i'n gwerthfawrogi barn yr ysgol ar hynny oherwydd dydw i ddim eisiau ... pobl sydd am ei wneud am ddim rheswm o gwbl. ...Rydyn ni'n hoffi'r rhai sydd efallai ar y perifferi neu y mae ganddynt fymryn fwy o hygrededd pen stryd, neu'r rhai y mae'r ysgol wedi nodi a fyddai efallai'n elwa o sgiliau meithrin hyder."

Mae bod yn rhan o'r prosiect yn ymrwymiad gymharol fawr dros y flwyddyn academaidd gyfan. I gychwyn, rhoddir pedwar diwrnod o hyfforddiant i'r holl addysgwyr cymheiriaid⁷⁶. Fel bod gan yr elfen addysg cymheiriaid "hygrededd", daw'r llyw o'r addysgwyr cymheiriaid – gyda rhai ohonynt yn ymdrechu'n eithriadol o galed i nodi'r materion mwyaf perthnasol y dylid ymdrin â nhw:

"Fe wnaethon nhw rhywfaint o ymchwil y farchnad [gyda disgyblion Blwyddyn 7] cyn iddynt ddarparu'r sesiwn, a'r cyffuriau yr oedd ar ddisgyblion Bl 7 yr ysgol honno eisiau gwybod mwy amdanynt oedd tawelyddion, tybaco, cannabis a 'speed'. Nawr, roeddwn i wedi fy syfrdanu'n llwyr eu bod nhw eisiau gwybod mwy am dawelyddion, ond fe wnaethon nhw [yr addysgwyr cymheiriaid] y sesiwn gyfan ar y pedwar cyffur yna oherwydd mai dyna roedd Blwyddyn 7 eisiau gwybod amdano."

Effaith y prosiect

Mae'r ymagwedd gefell at addysg cyffuriau – trwy ddarpariaeth ffurfiol ac addysgwyr cymheiriaid – yn caniatáu i wybodaeth gael ei lledaenu mewn gwahanol ffyrdd, gan efallai cyrraedd cynulleidfa ehangach:

"Trwy ddefnyddio cymheiriaid, mae'n rhoi safbwynt ychydig fwy realistig. Maent yn siarad fel y byddent gyda'u cymheiriaid, maen nhw ... yn dweud pethau'n hollol ddidwyll."

Fel sy'n wir am unrhyw addysg cyffuriau, mae'n anodd mesur effaith:

"Gallwch fesur yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu, ond rydw i'n meddwl weithiau ei fod yn eithaf anodd mesur unrhyw newidiadau mewn agwedd."

Yn wir, mae gan y prosiect arf o'r enw 'Activote' i fesur dysgu tymor-byr:

"Mae Activote yn debyg iawn i'r set law 'Who Wants to be a Millionaire'. Mae gan y bobl ifanc i gyd eu set law eu hunain, sydd wedi'u plygio i mewn i liniadur, a chaiff y canlyniadau eu dangos yn

⁷⁶ Mae'r ddau ddiwrnod cyntaf yn ymdrin â "sgiliau addysg cymheiriaid, ymdrin â grwpiau anodd, meithrin hyder, cyfrinachedd, ac ati", mae'r trydydd diwrnod yn ymdrin ag "addysg cyffuriau sylfaenol, felly dysgu am wahanol gyffuriau, gwahanol ddsbarthiadau, sut maen nhw'n edrych, eu heffeithiau". Ar y pedwerydd diwrnod, sef y diwrnod olaf, mae'r addysgwyr cymheiriaid yn cael dewis beth maen nhw eisiau ei ddarparu, a pha ddull y meant yn teimlo fyddai'n fwyaf addas i wneud hynny.

syth ar fwrdd gwyn. Felld trwy ei wneud cyn ac ar ôl sesiwn, gallwn werthuso'r wybodaeth y maent wedi'i dysgu ac ... mae'n dangos bod eu dealltwriaeth a'r hyn maen nhw'n ei elwa o'r sesiynau yn bositif iawn."

Ond efallai na fydd prif effaith y prosiect yn dod i'r amlwg am flynyddoedd i ddod:

"Fe all fod yn bum mlynedd yn ddiweddarach pan fydd rhywun mewn clwb ac maen nhw wedi gwneud y penderfyniad i gymryd rhywbeth, ac efallai y gwnawn nhw gofio rhywbeth rydyn ni wedi'i ddweud yn yr ysgol ac o ganlyniad, efallai y gwnawn nhw ddewis saffach."

Mae'n anoddach byth mesur canlyniadau'r elfen addysg cymheiriaid. Er bod yr addysgwyr cymheiriaid i gyd yn ennill gwobr cyflawniad ieuencid (ASDAN) am gymryd rhan, gall y manteision fod yn ehangach o lawer. Fel y nododd y gweithiwr addysg cymheiriaid:

"Weithiau dydych chi ddim yn gallu asesu pa sgiliau y maen nhw wedi'u dysgu. ... Hyd yn oed deuddeg mis, dwy flynedd, yn ddiweddarach mae addysgwyr cymheiriaid yn dod ata'i gan ddweud 'pam na allwn ni ei wneud o 'leni, roedden ni'n caru gwneud hynna, roedd hynna'n grêt', neu 'Rydw i newydd cael fy nerbyn i fynd i'r brifysgol a nes i ddweud fy mod i'n gwneud gwaith addysg cymheiriaid ac roedden nhw'n wirioneddol meddwl bod hynny'n beth da ac rydw i'n falch iawn fy mod i wedi'i wneud'. Dydych chi ddim yn gallu potelu. ... Eu sgiliau, o ran hyder, gwybodaeth, meithrin tîm a sgiliau cyflwyno. Y sgiliau trosglwyddadwy hynny y maen nhw'n ei elwa o'i wneud, ond dydych chi jest ddim yn gallu ei binbwyntio a'i ysgrifennu ar bapur."

Mae staff yn bwriadu cynnal asesiadau mwy hir-dymor o'u gwaith – yn debyg i'r asesiadau Activate – gan ddychwelyd at fyfyrwyr un tymor yn ddiweddarach ac yna ar ôl 12 mis i weld beth maen nhw'n ei gofio. Yn y dyfodol, mae'r prosiect hefyd yn gobeithio ymestyn ei 'gyrraedd' - yn nhermau gweithio gyda'r holl ysgolion uwchradd yn Sir Y Fflint, ac efallai dechrau darparu addysg cyffuriau mewn ysgolion cynradd:

"Rydw i'n meddwl bod angen i ni ddechrau cyfleu'r neges i blant iau ... maen nhw'n amlwg yn dechrau yfed mwy a mwy yn iau ... Rydw i'n meddwl bod angen i ni eu dal nhw'r tymor olaf hwnnw cyn iddyn nhw fynd i'r ysgol uwchradd, oherwydd wedyn maen nhw'n wynebu pwysau gan gymheiriaid yn yr ysgol uwchradd."

Ardal astudiaeth achos 2 - Rhondda Cynon Taf

Mae'r adran hon yn disgrifio bob un o'r pedwar prosiect a ariannwyd gan SCF yn Rhondda Cynon Taf a ddewiswyd i'w harchwilio'n fanylach.

Prosiect Cyfiawnder Adferol mewn Ysgolion

Mewnbynnau SCF

Galluogodd arian SCF i'r prosiect Cyfiawnder Adferol mewn Ysgolion a oedd eisoes yn bodoli⁷⁷ barhau ac ymestyn – gan gyflogi mwy o staff, cynyddu ei bresenoldeb mewn ysgolion a darparu ymagwedd ehangach at Gyfiawnder Adferol sy'n ymateb yn well i anghenion ysgolion. Mae'r prosiect yn cyflogi tri gweithiwr prosiect⁷⁸ sydd wedi'u lleoli yn y Tîm Atal YOS, sy'n reolwr llinell arnynt.

Nod y prosiect

Gan fod yr heddlu'n chwarae rhan mwy a mwy amlwg mewn ysgolion lleol a chan fod lefel uchel o ddisgyblion yn cael eu gwahardd, nod y prosiect yw lleihau mynediad pobl ifanc i'r system cyfiawnder ieuenticid. Hefyd, mae'n ceisio lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol a chyfraddau triwantiaeth a galluogi ysgolion i ymyrryd yn gynnar mewn unrhyw wrthdaro mewn ymdrech i leihau pa mor aml y maent yn cyfeirio digwyddiadau at yr heddlu. Roedd hyn mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith " *mewn rhai rhannau o'n dinas, mae'r ffigyrau presenoldeb yn reit wael*".

Ymyrraeth a grŵp targed

Mae'r prosiect yn bresennol ym mhob ysgol uwchradd ar draws Rhondda Cynon Taf – gan ymweld ag ysgolion bob bore a chynnal tasgau gweinyddol yn eu swyddfa YOS bob prynhawn. Mae staff wedi meithrin perthnasoedd cryf a phositif gyda phob un o'r ysgolion ac wedi adnabod person penodol ym mhob ysgol i gysylltu â nhw. Mae hyn yn hwyluso gwell gwaith partneriaeth – yn arbennig wrth nodi ac atgyfeirio'r plant mwyaf priodol i weithio gyda nhw.

Mae'r prosiect yn ceisio gweithio gyda phobl ifanc sydd fwyaf mewn angen ymyrraeth, a'r prif grŵp targed yw plant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Yn aml, mae gan y plant yma nifer o broblemau, gan gynnwys: triwantiaeth, bwlio, perthnasoedd gwael gyda phobl ifanc eraill, trais, gwrthdaro a diffyg ffrindiau priodol.

"Yr hyn rydym yn ceisio'i wneud yw cyrraedd y plant sy'n rhan o gyfres o frwydrau a dadleuon – yn hytrach nag o ddigwyddiadau unigryw. Rydym yn gwneud gwaith gyda'r achosion unigol hynny, ond rydym yn ceisio canolbwyntio ar ymddygiad ailadroddus... rydw i'n meddwl erbyn hyn ein bod wedi symud ymlaen a chydabod y ffaith ein bod yn ceisio gweithio gyda rhai sydd i weld yn gwrthdaro gyda phobl eraill yn aml."

Mae staff y prosiect yn teilwra eu gwaith i ddiwallu anghenion y bobl ifanc – gan edrych ar pam eu bod yn cwffio droeon a'r anawsterau sydd ganddynt wrth reoli'u dicter. Maent yn darparu ymyriadau rheoli dicter ac yn mabwysiadu ymagwedd holistaidd at ddarparu cymorth i bobl ifanc. Mae rhai ysgolion yn gofyn iddynt weithio gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n ei chael yn anodd datblygu perthnasoedd positif gyda'u cymheiriaid. Mae'r prosiect yn annog pobl ifanc agored i niwed, sy'n gallu bod yn dreisiol, i ddod o hyd i ymatebion ymddygiadol amgen i sefyllfaoedd sy'n peri straen trwy feithrin hyder a hunan-barch. Mae

⁷⁷ Dechreuodd y prosiect dros bum mlynedd yn ôl gydag arian y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenticid. Yn 2006, gyda'r arian yn dod i ben, gwnaeth y prosiect gais llwyddiannus am Arian Cymunedau Diogelach.

⁷⁸ Hefyd, mae staff y prosiect yn cymryd rhan mewn gwaith allgymorth 'Friday Night'.

staff yn gofyn i bobl ifanc feddwl am eu hymddygiad a cheisio deall pam eu bod wedi ymateb mewn ffordd benodol i sefyllfa benodol:

"Rydym yn gofyn... sut wyt ti'n teimlo, beth sydd wedi digwydd ers hynny, sut wyt ti'n meddwl y gelli di ddatrys hyn dy hun... Rydym yn ceisio gwneud iddyn nhw gymryd cyfrifoldeb am wneud yn iawn am bethau."

Amlygodd staff y prosiect manteision bod yn weithwyr proffesiynol sy'n dod o tu allan i'r ysgol – gan annog y disgyblion i ymddiried yn eu gwasanaeth cyfrinachol:

"Rydym yn dweud wrthynt yn glir bod yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym yn gyfrinachol o fewn terfynau diogelwch, ac rydym wedi cynnal yr hunaniaeth ar wahân honno oddi wrth yr ysgol. Oherwydd bod staff bugeiliol yn rhan o'r ysgol rydym wedi sicrhau ein bod yn endyd ar wahân i'r ysgol."

"Mae llawer iawn o bobl ifanc wedi dweud bod cael rhywun yn yr ysgol y gallant fynd i siarad â nhw, y maen nhw'n gwybod nad ydynt unrhyw beth i wneud â'r ysgol mewn unrhyw ffordd arall... yn gwneud y plant a'r bobl ifanc yn lawer mwy agored."

Effaith y prosiect

Mae'r prosiect yn rhoi cymorth sylweddol i ysgolion. Gall ei staff wrando ar ddisgyblion, diwallu eu hanghenion a chynnig ateb neu ddull amgen i ymddygiad ymosodol. Gall disgyblion anhapus, aflonyddgar ddysgu sgiliau newydd sy'n eu galluogi i ail-integreiddio i addysg brif ffrwd, ac mae'r ymagwedd hyblyg a holistaidd at ddarparu'r gwasanaeth yn cyflwyno ffyrdd newydd o ymdrin â phroblemau pobl ifanc – gan ddarparu canlyniadau positif ar gyfer plant sydd mewn perygl allai fel arall gael eu gwahardd o'r ysgol.

Fel y gellir gweld, mae'r prosiect Cyfiawnder Adferol mewn Ysgolion yn cyd-fynd â Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan – gan geisio atal pobl rhag myned i'r system cyfiawnder ieuentid yn y lle cyntaf. Mae plant sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn trosedd, ac felly mae ymdrechion y prosiect i weithio gyda'r grŵp agored i niwed hwn yn gallu cael effaith sylweddol ar eu dyfodol. Hefyd, mae'r prosiect yn cefnogi nodau addysgol y Cynllun Pobl Ifanc – gan alluogi i bobl ifanc aros mewn addysg trwy eu helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gyfathrebu'n effeithiol heb orfod troi at ymddygiad treisgar, aflonyddgar neu fwlio.

At hyn, gall egwyddorion cyfiawnder adferol roi'r sgiliau angenrheidiol i bobl ifanc fynd i'r afael â rhai o'r heriau y gallent eu wynebu – nawr ac yn y dyfodol:

"Mae'n rhoi ffordd i bobl ifanc allu ymdrin â phethau. Nid yw'n mynd i ddigwydd i bawb, [ond] bydd yn digwydd i rai ohonynt. Ac rydw i'n meddwl pan fo pobl yn wirioneddol gwranddo arno rydych chi'n ei gymhwyso trwy gydol eich bywyd, nid ydych chi ddim ond yn ei gymhwyso mewn sefyllfa yn yr ysgol neu sefyllfa yn y gwaith, rydych chi wirioneddol yn ei ddefnyddio. A dyna rydym ni'n gobeithio ei

gyflawni, cael plant a phobl ifanc i allu ei gario ymlaen a'i ddefnyddio trwy'r amser."

Trwy ddarparu cymorth uniongyrchol i ysgolion, mae'r prosiect yn gwella'r berthynas rhyngddyn nhw a'r YOS yn sylweddol – ac felly'n galluogi i gyfranogwyr ifanc aros yn yr ysgol (neu ddychwelyd iddi):

"Yr hyn y bu i ni ei ddarganfod gyda'r Prosiect Cyfiawnder Adferol mewn Ysgolion – nid yn unig ei fod yn creu canlyniadau positif i'r bobl ifanc, roedd hefyd yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd yr ydym ni [y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid] a'r ysgolion yn gweithio gyda'n gilydd – oherwydd ei fod wirioneddol yn ymddangos fel pe bai'n annog ymagwedd partneriaeth... golygodd am y tro cyntaf nad oedden ni'n dweud wrth ysgolion, "A wnewch chi eu cymryd nhw nôl?" Roedden ni'n gallu dweud wrth ysgolion, 'Gallwn gynnig hyn i chi'."

At hyn, mae hyn wedi esmwytho'r ffordd ar gyfer gweithredu YISP:

"Yn gyntaf oll, rwy'n meddwl bod y bartneriaeth rhwng Addysg a'r YOS wedi gwella'n nodedig ac rwy'n meddwl bod hynny'n effaith mawr iawn. Yn sicr, o ran yr YISP, mae Cyfiawnder Adferol mewn Ysgolion wedi paratoi'r ffordd i mewn i'r ysgolion. Rydw i'n credu y byddem ni wedi cael amser anoddach o lawer yn sefydlu partneriaethau gydag ysgolion ar gyfer y YISP nag rydym wedi'i weld os nad oedd gennym y prosiectau Cyfiawnder Adferol. Felly mae o wedi agor y drws ychydig, rhywsut. Do, yn sicr wedi agor y drws."

Tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mewnbynnau SCF

Yn wreiddiol, roedd y prosiect yn cyflogi pedwar aelod arall o staff: un cydlynnydd prosiect, yn heddwas, gweithiwr ieuencid ar wahân⁷⁹ i gefnogi'r tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG) yn y gymuned, a gweinyddydd. Mae'r tîm YGG wedi'i leoli yn swyddfeydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Rhondda Cynon Taf a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n reolwr llinell arno.

Nod y prosiect

Sefydlwyd y tîm YGG i ymateb i achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i'w hatal rhag gwaethygu. Roedd hyn yn cynnwys cymryd ymagwedd fwy hir-dymor, gynaliadwy:

"Roedd yn adnabod asiantaethau mawr eraill yn y gwahanol gymunedau allai weithio gyda [ni]... Felly, yn ei hanfod, roedd hefyd yn chwilio am, gobeithio, os oedd yn bosibl, datrysiadau hir-dymor hefyd, yn hytrach na dim ond mynd i mewn a gwneud prosiect cyflym a gadael a dyna ni. Felly dyna oedd nod cynnwys asiantaethau eraill, fel y gallen ni gyd weithio gyda'n gilydd ac yna ... cymryd cam yn ôl ac fe allasen nhw ddal ati gyda'r gwaith."

⁷⁹ Nawr wedi symud i swydd arall.

Ymyriad a grŵp targed

Mae'r prosiect yn cael rhan fwyaf yr atgyfeiriadau'n uniongyrchol oddi wrth yr heddlu⁸⁰. Hefyd, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, heddlu trafndiaeth Prydeinig, staff Cymdeithasau Tai, staff awdurdod lleol a gwasanaethau cyfryngu hefyd yn atgyfeirio, yn ogystal â'r cyhoedd- "trwy sianelau penodol lle bo pobl yn rhoi gwybod am yr achosion cychwynnol i ni neu i'w swyddogion rhawd lleol".

Mae gweithgarwch y prosiect wedi datblygu mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, ar gyfer unigolion sy'n rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol, sefydlodd y prosiect banel YGG i ddarparu ymateb aml-asiantaeth lle bo angen⁸¹. Wedi i atgyfeiriad gael ei wneud, caiff pob achos ei gofnodi ar y gronfa ddata YGG a bydd y tîm yn penderfynu beth fydd y cam nesaf. Cynhelir cyfarfodydd pob pythefnos (os oes angen) ac mae'r prosiect, ynghyd ag asiantaethau eraill⁸² yn ymgymryd â chynadledda YGG. Mae cynadleddau o'r fath yn galluogi'r panel i asesu pob achos a gall y rheiny sy'n cael eu cyhuddo o ymddygiad gwrthgymdeithasol gyflwyno'u barn a gellir eu hatgyfeirio (os oes raid) i wasanaethau priodol mewn ymdrech i ymdrin ag unrhyw problemau sylfaenol.

Mae'r prosiect wedi dylunio model pedwar cyfnod er mwyn ymateb i YGG:

1. Ar gyfer digwyddiadau annifrifol anfonir llythyr o rybudd. Ar gyfer pobl ifanc, caiff llythyr ei anfon i'w rhieni.
2. Ar gyfer y rheiny sy'n dod i sylw'r tîm eto, bydd Heddwes ac aelod o staff y prosiect yn ymweld â nhw adref i drafod canlyniadau YGG parhaus.
3. Cynadledda YGG ac ymyriadau gydag asiantaethau partner.
4. Ymddangosiad llys lle caiff yr unigolyn ei f/bygwth â Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO).

Ni ystyrir bod y pedwerydd cyfnod yn ganlyniad positif a chaiff ei osgoi os yn bosibl. Dim ond pan fetho popeth arall y caiff ASBOs eu defnyddio pan fydd pob opsiwn arall wedi'i archwilio.

Mae ail ffrwd gweithgarwch y prosiect yn ymdrin ag YGG a gyflawnir gan grwpiau o bobl ifanc, trwy gyflogi gweithiwr ieuenctid allgymorth profiadol⁸³. Mae'r unigolyn hwn yn targedu ardaloedd penodol lle mae YGG yn broblem – gan weithio gyda phobl ifanc a'r gymuned ehangach i asesu'r angen lleol. Mae'r broses gyfan wedi'i seilio ar ymrwymiad a chyfranogiad gwirfoddol – ymagwedd newydd at ymyriad YGG gyda phobl ifanc:

"Rydw i'n credu mai fi oedd un o'r gweithwyr ASBO cyntaf, a oedd hefyd yn weithiwr ieuenctid penodol, a oedd yn gweithio mewn Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru."

⁸⁰ Gan ddefnyddio ffurflenni cofnodi Digwyddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – sy'n ymagwedd safonedig erbyn hyn a ddefnyddir ar draws De Cymru.

⁸¹ Gwahoddir pob asiantaeth leol briodol i fynychu'r panel.

⁸² Fel y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

⁸³ Mae'r gweithiwr ieuenctid allgymorth a oedd yn rhan o'r prosiect hwn wedi gadael erbyn hyn, ond mae'r gwaith wedi parhau gydag arian gan raglen Cymunedau yn Gyntaf Maerdy.

Hyd yma, mae'r gweithiwr allgymorth wedi sefydlu dau brosiect: prosiect bancio amser ym Maerdy a phrosiect eiriolaeth yn Hirwaun (sy'n gysylltiedig â'r YMCA). Cynhyrchodd bobl ifanc o'r ddau brosiect ffilm yn eu hardal leol⁸⁴.

Er mwyn gwneud y mwyaf o effaith posibl y prosiect, mae staff wedi mabwysiadu ymagwedd hyblyg, gydweithredol iawn at eu gwaith:

"Roeddwn i wedi bod yn eithaf hyblyg ynglŷn â phryd roeddwn yn gallu gweithio erioed. Felly nid oeddwn i'n dweud 'O, dydw i ddim yn gweithio'r noson hon, neu dydw i ddim eisiau gweithio'r noson honno.' Os oedd angen gwneud hynny i gyflawni'r swydd, buaswn yn newid fy nosweithiau'n ôl yr angen."

"Hefyd, rhaid gwneud yn siwr bod yr asiantaethau eraill yn gwybod bod ganddynt ran fawr i'w chwarae yn yr holl beth. Ni allaf i fynd i mewn a dweud, 'A dweud y gwir bois, rydw i eisiau i chi wneud hyn, llall, a'i gilydd.' Mae'n waith partneriaeth, gan wneud yn siwr bod pawb yn gallu lleisio'u barn, gan gynnwys pobl ifanc, ond mae'n dod â phopeth at ei gilydd fel y gallwn ddiwallu nodau ac amcanion pawb."

Effaith y prosiect

Dywed staff y prosiect eu bod wedi lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ym mhob ardal a dargedwyd ac maent wedi cael adborth positif am eu gwaith. Hefyd, ymddengys bod manteision wedi dod i'r gymuned ehangach yn sgil y prosiect – rhywbeth efallai nad yw'r dynion ifanc yn ei amgyffred yn llawn:

"Rydw i'n meddwl mai beth dydy'r bois ddim yn ei ddeall, hefyd – ac er eu bod nhw weithiau wedi cael adborth gan y gymuned – yw ymhle y mae rhai ohonynt wedi gweithio ... gweini cinio i'r ... grŵp pobl hŷn, maen nhw wedi cael llythyrau nôl jyst yn dweud pa mor ddiolchgar oedd y grŵp."

"Mae'n anodd cael y grŵp yma i sylweddoli efallai bod rhywbeth y maen nhw'n ei wneud oherwydd eu bod nhw wedi diflasu ac eisiau cael credydau yn help mawr yn y gymuned. Os yw'n clirio mieri yn yr eglwys, neu'n gweini bwyd i bobl hŷn, neu helpu cynlluniau chwarae mae rhai ohonynt wedi'i wneud, neu helpu gyda'r chwaraeon a gwneud pêl-droed yn y gampfa, mae'n help mawr."

Hefyd, mae nifer isel yr ASBOs y mae'r prosiect wedi gwneud cais amdanynt yn cyd-fynd â'r polisi lleol yn Ne Cymru i ddefnyddio ASBOs pan fetho popeth arall:

"Mae gennym dros 4,500 o bobl sydd wedi'u hatgyfeirio atom, efallai bod hynny'n 5,000 erbyn rwan, ond dim ond tri deg naw o orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol rydym wedi'u cyhoeddi [Ebrill 2008... [mae'r] ffordd y mae De Cymru'n gweithio ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar ymyriadau, rhybuddion, ac ati... ei nod yw ceisio addasu ymddygiad... yn hytrach na mynd i'r llys a chyhoeddi ASBO."

⁸⁴ Cymerodd y bobl ifanc ym Maerdy ran mewn gwneud ffilm o'r enw 'Doing Time' a enillodd wobwr yng Ngŵyl Ffilm Abertawe. Creodd y bobl ifanc o'r prosiect eiriolaeth yn Hirwaun DVD oedd yn amlinellu'r broses ASBO. Enillodd y DVD hwn wobwr hefyd yn y categori cymunedol Media4schools.

Adborth oddi wrth gyfranogion y prosiect 'Time Bank'⁸⁵

Roedd y cyfranogion y cyfwelwyd â nhw ar gyfer y gwerthusiad i gyd yn bositif am y prosiect. Roeddynt i gyd wedi clywed amdano trwy ffrindiau, ac wedi clywed y gallent wneud gweithgareddau fel pledu paent os oeddynt yn casglu digon o gredydau. Ymhlith y gweithgareddau fyddai'n rhoi credydau iddynt roedd garddio yn y rhandir ac yn y coetiroedd a thrwsio'r pafiliwn. Dywedasant eu bod wedi dysgu "*llwyth o bethau*" trwy'r prosiect fel "*sut i baentio'n daclus*" a "*chymorth cyntaf*". Hefyd, roeddynt wedi gwneud cyrsiau mentora ieuencid a chysiau coginio. Gyda'u credydau, roeddynt wedi mwynhau gweithgareddau fel pledu paent, dringo creigiau, pasys i gampfeydd ac aelodaeth golff ac yn arbennig yr ymweliadau preswyl: "*Mynd gyda'r holl hogiau a chael 'laff' a hwyl.*"

Cytunodd y cyfranogion i gyd bod cymryd rhan yn y prosiect wedi bod yn brofiad positif ac ni awgrymodd unrhyw un bod angen newid unrhyw beth amdano - ar wahân i gael gafael ar fwy o arian fel y gallent fynd yno fwy nag unwaith yr wythnos - yn ddelfrydol hyd at ddwy neu dair gwaith yr wythnos, yn arbennig gan "*nad oes unrhyw beth i'w wneud ym Maerdy*". Heb y prosiect i gymryd rhan ynddo, awgrymasant y byddent yn "*Mynd i helynt*" neu'n "*Hongian o gwmpas ar y ffordd y tu allan i 'Spar'*." Roedd yr holl gyfranogion y cyfwelwyd â nhw eisiau parhau gyda'r prosiect am gyfnod amhendant oherwydd "*mae'n well na hongian o gwmpas, yn dydi?*" ac roeddynt i gyd yn gobeithio am arian ychwanegol fel bod eraill yn gallu ymuno gan eu bod wedi argymhell y prosiect i'w ffrindiau yn barod.

Parth Diogelwch

Nod y prosiect

Mae'r prosiect Parth Diogelwch yn rhoi rhywle i blant ysgol fynd iddo lle gallant ddysgu am y risgiau posibl y gallent eu wynebu mewn gwahanol leoliadau⁸⁶. Nod y prosiect yw annog pobl ifanc i roi'r gorau i ymddygiad peryglus yn ogystal â cheisio deall pam na ddylent beri risg i'w hunain. Er enghraifft, mae man cyfarfod y prosiect yn cynnwys setiau sy'n efelychu gwahanol amgylchiadau sydd wedi'u dylunio i ddangos rhai o'r peryglon sy'n bresennol i bobl ifanc pe baent yn camymddwyn neu'n anwybyddu risgiau diogelwch⁸⁷.

Mae'r prosiect wedi'i ddylunio i fod yn hyblyg wrth ddiwallu gwahanol anghenion ei gleientiaid amrywiol, gan weithio gydag ystod eang o blant ar draws sbectrum academiaidd ac ymddygiadol eang. Mae sesiynau wedi'u dylunio gyda chynulleidfaoedd penodol mewn meddwl, a chaiff cynrychiolwyr ysgolion/asiantaethau eu hannog i weithio gyda staff Parth Diogelwch i sicrhau bod anghenion eu grŵp cleientiaid yn cael eu diwallu.

"Fe'i ddyluniwyd mewn ffordd sy'n eich galluogi i newid unrhyw senario. Gall unrhyw grŵp ddod yma ... Gellir addasu unrhyw un o'r

⁸⁵ Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda saith o ddynion ifanc rhwng 15 ac 18 oed a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect 'Time Banking' - un o'r mentrau a ddechreuwyd gan y Tîm YGG.

⁸⁶ Tarddodd y syniad o greu darpariaeth addysg iechyd a diogelwch annibynnol o du fewn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a chafodd ei seilio ar raglen oedd yn cael ei chydabod yn genedlaethol o'r enw 'Crucial Crew'.

⁸⁷ Gan gynnwys safle adeiladu, tafarn, rheilffordd, cegin ddomestig, a siop.

setiau i unrhywbeth y mynnwch. A byddwn yn anelu cyflwyniad y bobl sy'n dod, y sefydliadau hynny sydd allan yno, i weddu pa bynnag grŵp oedran neu allu sy'n ei wyllo".

Ymyriad a grŵp targed

Mae'r gweithgareddau wedi'u dylunio i ymgysylltu a chynnwys y bobl ifanc a'u hannog i ddatrys problemau:

"Er bod y gweithgareddau'n llawn hwyl, mae yna bwynt difrifol iddynt. Mae'r Parth Diogelwch yn eich galluogi i ymgysylltu â phobl ar dir niwtral, gan ddangos iddyn nhw eich bod yn barod i ddarparu rhywbeth ar eu cyfer, ac yna, o ganlyniad i wneud cyswllt â nhw ar y lefel mwy ffurfiol hwnnw, gallwch siarad gyda nhw am bethau oedd yn fwy difrifol ac yn gysylltiedig â'u diogelwch. Pethau fel dinasyddiaeth, ymddygiad gwrthgymdeithasol, sefyllfaoedd llawn risg a diogelwch, y math yna o beth."

"A'r hyn roeddwn i'n ei wneud, yn arbennig gyda rhai grwpiau o, dywedwch, Uned Atgyfeirio Disgyblion, eu rhannu mewn hanner ... byddai gan bob ochr awr i greu problem ac yna ar ddiwedd yr awr byddai'r naill yn rhoi cynnig ar ddatrys problem y llall ac yna rhoi marciau iddo o ran anhawster, pa mor hawdd oedd ei wneud... Tra fyddant wrthi'n gwneud hyn, beth nad ydyn nhw'n ei sylweddoli yw bod eu sgiliau cyfathrebu, eu sgiliau rheoli dicter, maent yn ymdopi ac mae'r holl prosesau hyn yn mynd ymlaen ond dydyn nhw ddim yn ei ystyried fel yna, maen nhw jyst yn cael ychydig o hwyl".

Roedd y gweithwyr prosiect yn awyddus i gynnwys bob math o ddysgwyr ac roeddynt yn ymwybodol y gallai'r Parth Diogelwch, i rai pobl ifanc, allai fod yn ddysgwyr cinesthetig, ddiwallu eu hanghenion er mwyn iddynt ddysgu trwy wneud, yn hytrach nag eistedd a gwranddo:

"[Mae'r Parth Diogelwch] yn cynnig dysgu trwy wneud... ac rydw i'n meddwl mai dyna fydd yr athrawon yn ei ddweud. Mewn gwirionedd, mae'r llyfr sylwadau'n dweud hynny, allen nhw ddim gwneud hyn yn yr ystafell ddsbarth. [Er enghraifft] er eu bod yn siarad gyda heddwes go-iawn yn yr ystafell ddsbarth, dydyn nhw ddim yn eistedd mewn gorsaf heddlu gyda chell, lle gellir dangos iddyn nhw sut y mae cell yn edrych."

Effaith y prosiect

Mae adborth ar y prosiect wedi bod yn bositif iawn. Er enghraifft:

"...Roedd Network Rail yn cael trafferthion ar reilffordd ger ysgol yn Nhreforci. Hefyd, yn arbennig y Comisiwn Coedwigaeth, maent wedi dweud wrthym fod tanau fforest a difrod troseddol yn y goedwigaeth wedi cwmpo ers i ni sefydlu 'Crucial Crew'."

Er bod effaith y prosiect ar ddiogelwch cymunedol wedi'i gwestiynu, roedd gweithwyr y prosiect yn gwbl glir am ehangder y dylanwad y mae eu gwaith yn ei gael ar ansawdd bywyd a dinasyddiaeth pobl ifanc. Roedd y gweithwyr prosiect yn credu mai "natur real" y senarios oedd yn peri i'r bobl ifanc ymgysylltu â'r

neges. Er enghraifft, mae ysgolion yn frwdfrydig iawn am waith y prosiect a chredir bod y ffaith eu bod yn dychwelyd at y prosiect flwyddyn ar ôl blwyddyn yn brawf pellach o'i lwyddiant: "*Mae ysgolion yn ffonio ac yn dweud, 'Pryd mae'n cael ei gynnal y tro yma?'*"

Y Clwb Nos Wener

Mewnbynnau SCF

Mae staff yr YOS a'r CSP wedi arfer cefnogi'r Clwb Nos Wener, ac mae rhai swyddi CSF yn cynnwys gwaith allgymorth Nos Wener ym manyleb eu swyddi. Nid yw rhanddeiliaid eraill (fel heddweision a gweithwyr ieuenctid) yn cael eu hariannu gan SCF⁸⁸.

Nod y prosiect

"Mae'n dîm o weithwyr ieuenctid a ariennir gan yr awdurdod lleol ac SCF sy'n gwneud gwaith ieuenctid ar y stryd. Felly mae'n ymgysylltu â phobl ifanc agored i niwed rhwng 11 a 25 oed ar draws Rhondda Cynon Taf i gyd lle bynnag y maen nhw. Felly ar corneli strydoedd, meinciau parciau, y tu allan i 'Spar'... Rydym yn gweithio mewn llawer o wahanol ffyrdd i ymgysylltu pobl ifanc ac i geisio gweithio mewn partneriaeth cymaint â phosibl."

Dechreuodd y Clwb Nos Wener fel menter i ddod â gwahanol asiantaethau a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc yn Rhondda Cynon Taf at ei gilydd wrth ddarparu allgymorth allai adnabod anghenion pobl ifanc lleol:

"Mae'n bartneriaeth aml-asiantaeth lle mae gwahanol proffesiynau'n mynd allan gyda'i gilydd i adnabod ac edrych ar bobl ifanc agored i niwed o gwmpas y lle. ... Rydym i gyd allan gyda'n gilydd, rydym i gyd yn ymgysylltu â phobl ifanc. Defnyddiol iawn o ran ... dymchwel y rhwystrau proffesiynol".

Wrth i wahanol anghenion y bobl ifanc gael eu nodi, caiff ymarferwyr penodol o wahanol dimau eu galw i mewn i ddiwallu'r angen hwnnw, gan weithio gydag unigolion a grwpiau o bobl ifanc.

Ymyriad a grŵp targed

Mae'r fenter Nos Wener yn cynnwys dwy gainc allweddol. Y cyntaf o'r rhain yw'r gwaith stryd allgymorth, lle bo Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, heddweision, gweithwyr allgymorth a gweithwyr ieuenctid proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd, gan dargedu ardaloedd penodol mewn ymdrech i ymgysylltu ac yna cyfeirio pobl ifanc at y gwasanaethau priodol (lle bo rhaid). Nododd y gwaith allgymorth hwn yr angen i ddarparu gweithgareddau i bobl ifanc lleol – mewn ymateb i'r ffaith bod pobl ifanc yn hongian o gwmpas heb ddim i'w wneud ac o ganlyniad i nifer uchel yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ieuenctid ar nos Wener a nos Sadwrn: "*roeddem yn gwybod nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar nos Wener a nos Sadwrn. Mae pethau YGG yn*

⁸⁸ Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda Gweithiwr Allgymorth Ieuenctid Rhondda Cynon Taf, a heddwys sydd ill dau'n hollbwysig wrth yrru a hwyluso gwaith y prosiect. Caiff y ddwy swydd eu hariannu gan arian craidd statudol (nid SCF).

cynyddu'n anhygoel". Ymgynghorodd y tîm allgymorth â llawer o bobl ifanc i sicrhau bod unrhyw wasanaeth fyddai'n cael ei ddarparu wedi'i ddylunio i ddenu cymaint o bobl ifanc â phosibl.

"Yr hyn sy'n codi yn yr ymgynghoriad... dro ar ôl tro.. [yw] eu bod eisiau darpariaeth ar y penwythnos ond maen nhw jyst eisiau rhywle i fynd i ymlacio, jyst i ymlacio gyda'u ffrindiau ".

Felly, ail elfen y prosiect yw'r Disgo Golau Glas – cyfres o ddisgos wedi'u trefnu (wedi'u staffio gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a gweithwyr ieuencid) lle gall pobl ifanc y Cymoedd gwrdd, gwranddo ar gerddoriaeth, cael tro ar fod yn DJ a dawnsio. Mae staff y prosiect yn feirniadol iawn o'r hyn yr oeddynt yn ei ystyried yn ddiffyg amlwg yn y ddarpariaeth statudol ar gyfer pobl ifanc ar draws ardal Rhondda Cynon Taf:

"Roedd lefel y ddarpariaeth ieuencid yn y fwrdeistref hon yn chwerthinllyd. ...Rhaid i mi wneud y gwahaniaeth rhwng y sector gwirfoddol a'r setcor statudol yn amlwg. Mae'r sector gwirfoddol yn grêt ac maen nhw'n gwneud eu gorau boed hynny'n ... grwpiau lleol, hyd yn oed sgowtiaid, brownies, grwpiau eglwys, beth bynnag. ... Maen nhw'n gwneud gwaith anferthol ond o ran y ddarpariaeth statudol... mae'n ofidus".

Er bod y disgo wedi'i deilwra at anghenion pobl ifanc, y mae hefyd wedi'i ddylunio'n benodol i gynnig gweithgaredd hamdden dan oruchwyliaeth ac i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Erbyn hyn, caiff y disgos eu trefnu a'u cynnal gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac mae nifer da o bobl ifanc yn parhau i fynd iddynt: "Maent yn cael dros 200 o bobl ifanc y nos yn rheolaidd. ... Erbyn hyn, maent yn ciwio o hanner awr wedi chwech er mwyn gallu mynd i mewn i'r lleoliadau."

Effaith y prosiect

Pan ofynnwyd iddynt ddarparu tystiolaeth o effaith y Clwb Nos Wener, dywedodd un gweithiwr:

"Mae achosion o bobl ifanc yn bod yn boen wedi lleihau yn yr ardaloedd y maen nhw [y gweithgareddau Clwb Nos Wener] yn cael eu cynnal... felly mae wedi cael effaith. Os byddaf yn gorffen gwaith yma am ddeg o'r gloch ar ddydd Gwener, rydw i'n gwneud pwynt o yrru trwy ganol y dref, jyst allan o chwilfrydedd. Mae yna blant o hyd yn hongian o gwmpas, ond nid cymaint. I mi, os ydym yn llwyddo i gyrraedd y garfan honno o bobl, ...mae'n beth positif iawn oherwydd yn yr oed yna, mae pobl yn troi o chwifio ar geir [yr heddlu] i daflu briciau atynt, ac os gallwn eu cadw ar ein ochr ni yn ystod y cyfnod hwnnw o newid, o safbwynt dinasyddiaeth... nid ydym yn mynd i'w colli i'r un raddau. ... O ran ei fonitro... mae ein dadansoddwr troseddau'n edrych arno ac maen nhw'n dweud bod galwadau am bobl ifanc yn bod yn boen neu'n ymddwyn yn gwrthgymdeithasol yn is ar y nosweithiau mae'r clwb yn cael ei gynnal".

Soniodd gweithiwr arall am y ffordd y mae'r disgos yn rhoi rhywbeth positif i'r plant lleol fod yn ran ohono:

"Mae yna ofod enfawr yn y ddarpariaeth i bobl ifanc - y ffaith nad oes yna ddim i'r plant ei wneud. Wel, un o'r prif ddadleuon y mae plant yn ei daflu atoch chi pan rydych chi'n mynd i siarad gyda nhw ar y stryd yw: 'Wel does yna ddim byd i ni ei wneud ac os oedd yna rywbeth, fe fydden ni'n mynd â'i wneud a fydden ni ddim yn bod yn broblem.' Wel mae ganddyn nhw rywbeth i'w wneud rŵan."

Ymateb gweithiwr arall oedd:

"[Er bod y disgos] yn eu hanfod yn weithgaredd dargyfeiriol syml iawn, ... o ran dymchwel y rhwystrau rhwng pobl ifanc a'r heddlu mae'n debyg ei fod yn reit dda. ... Mae'r ffaith bod gennyh heddweision y tu allan i'w hamgylchedd eu hunain, ...yn gwneud rhywbeth positif i'r plant, mae'n mynd i fod yn fanteisiol tu hwnt yn yr hir-dymor."

Adborth oddi wrth gyfranogion y prosiect graffiti haf⁸⁹

Yn ogystal â'r gwaith allgymorth a'r disgos, bu i'r prosiect Nos Wener hefyd trefnu prosiect graffiti ar gyfer pobl ifanc – ac ymgynghorwyd â'r grŵp hwn fel rhan o'r gwerthusiad. Dywedodd pawb eu bod wedi mwynhau'r gwahanol weithgareddau roeddynt wedi ymgymryd â nhw, fel: "pŵl a phêl-droed"; "chwarae ar y PSP"; "cicio pêl y tu allan"; "chwarae ping-pong"; "chwarae hoci aer"; "bowlïo"; "marchogaeth"; "mynd i'r traeth"; a gweithgareddau creadigol fel "graffitio". Roeddynt i gyd yn teimlo na fyddent fel arall wedi cael y cyfle i wneud y pethau yma ac heb y prosiect y byddent yn "hongian allan yn y parc" neu'n "styc yn y tŷ". Dywedodd lawer ohonynt bod eu rhieni'n falch eu bod yn mynychu'r gweithgareddau – "Maent yn meddwl ei fod yn dda oherwydd fel arfer buaswn yn eistedd yn y tŷ'n chwarae gemau cyfrifiadur" neu "oherwydd buaswn ar y strydoedd yn creu trafferth" – ac roedd y bobl ifanc eu hunain i gyd yn bositif iawn am y gweithwyr prosiect:

"Nid oes llwyth o staff yma ond mae'r staff sydd yma'n dda oherwydd rydym yn arfer â nhw oherwydd eu bod nhw yma o hyd. Ma' nhw fel ffrindiau a dweud y gwir."

Yn ogystal â'r gweithgareddau, mae'r gweithwyr prosiect yn darparu help a chynghor cyffredinol:

"Nid oeddwn i'n siwr beth i'w wneud ar ôl fy TGAU ac fe wnes i siarad gyda [gweithiwr prosiect]. Fe roddodd hi wybodaeth i mi am y pethau y gallaf eu gwneud yn y coleg."

Ardal astudiaeth achos 3 - Abertawe

Mae'r Adran hon yn disgrifio'r tri phrosiect a ariannwyd gan SCF yn Abertawe a ddewiswyd i'w harchwilio ymhellach.

⁸⁹ Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda saith o bobl ifanc (pum bachgen a dwy eneth) rhwng 11 ac 14 oed oedd yn cymryd rhan yn y prosiect graffiti haf a drefnwyd gan y tîm gwaith ieuencid ar wahân.

Y prosiect "Atal a Rhwystro"

Mae'r prosiect 'Atal a Rhwystro' yn cyfrif am ddwy ran o dair o gyfanswm y gyllideb SCF a gaiff Abertawe ac fe'i defnyddiwyd i gyfuno nifer o ffrydiau o waith blaenorol yr ymgymeryd ag ef gyda phobl ifanc. Er, ar hyn o bryd, bod gan y prosiect bedair cainc sy'n gorgyffwrdd – sy'n cynnwys staff sy'n gweithio ar ystod o geinciau eraill hefyd (rhai wedi'u hariannu gan SCF, ac eraill heb⁹⁰) – dim ond tair o'r ceinciau sydd wedi'u cwmpasu yn yr astudiaeth achos hon⁹¹. Mae'r rhain yn cynnwys:

- atgyfeirio pobl ifanc i gyfleusterau hamdden dan gyfarwyddyd yn dilyn llythyr cyntaf neu ail lythyr o rybudd am ymddygiad gwrthgymdeithasol a/neu fel cydran o 'gontract ymddygiad gwrthgymdeithasol' (ABC) y cytunwyd arno gyda pherson ifanc cyn iddynt gael ASBO;
- gwaith mewn ysgolion gyda phlant 8 i 13 oed (a ariannwyd gynt o dan y prosiect 'Her Gwasanaeth Antur') yn addysgu pobl ifanc am beryglon a chanlyniadau troseddu; a,
- chymorth ar gyfer mentora cyfoedion yn yr ysgol ac ymyriadau i greu gwell dealltwriaeth 'rhwng y cenedlaethau' ymhlith pobl ifanc, eu gwarcheidwaid ac oedolion eraill yn y gymuned.

Gwaith Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Nod y prosiect

Yn anhebyg i lawer o wasanaethau troseddau ieuencid eraill, mae gan YOS Abertawe swyddi ymddygiad gwrthgymdeithasol arbenigol ers tair blynedd. Nod y gwasanaeth hwn yw lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol⁹² ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd trwy ddargyfeirio pobl ifanc i mewn i weithgareddau eraill:

"Nid â'r ochr orfodi y mae ein gwaith yn ymdrin gan amlaf ... atal yw ein nod bob tro."

Ymyriad a grŵp targed

Yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol â phobl ifanc sy'n cael eu nodi'n gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol, disgrifiodd aelodau'r tîm hefyd y gwaith ataliol ehangach y maent yn ymgymryd ag ef mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach:

"Yn y lle cyntaf, fy rôl oedd gweithio gyda'r holl bobl ifanc hynny sydd ar gontractau ymddygiad derbyniol neu waeth. Felly buaswn yn gweithio gyda phobl ifanc ar y contract am chwe mis a gweithio ar ba amodau fyddai'n ymdrin â'r problemau sylfaenol oedd yn achosi eu hymddygiad. Y gobaith oedd y byddent yn cwblhau hynny'n llwyddiannus. Os nad oeddynt, pan fyddai'r person ifanc yn mynd i'r cyfnod ASBO, buaswn yn mentora'r ASBO am gyfnod o dros ddwy flynedd yn ogystal â goruchwyllo'r gorchmynion cymorth unigol sy'n

⁹⁰ Mae dosbarthiad a ffocws yr arian SCF y mae Abertawe wedi'i gael wedi newid dros y blynyddoedd, gan ei wneud yn anodd gwahaniaethu rhwng gwaith a ariennir gan SCF a gwaith a ariennir trwy geinciau eraill.

⁹¹ Mae'r gainc nad yw'r dadansoddiad achos hwn yn ei chwmpasu yn gweithio gyda throseddwr cyson iawn a rhai blaenoriaeth y mae'r system cyfiawnder ieuencid a'r Uned Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn gwybod amdanynt.

⁹² Yn nhermau atal pobl ifanc rhag "codi i fyny'r system".

rhedeg ochr yn ochr â'r ASBO. Ond hefyd, rwy'n gweithio llawer ar waith ataliol rwan, prosiectau cymunedol, cyflwyniadau, unrhyw beth a phopeth a dweud y gwir sy'n gysylltiedig ag YGG gyda phobl ifanc wrth iddo godi."

"Rydyn ni'n mynd o gwmpas fel rhan o'r hyn maen nhw'n ei alw'n 'Kiddo's Choice', sy'n raglen sy'n ymweld â phob ysgol uwchradd, gyda gweithdai yn dilyn ymlaen o DVD deinamig iawn, iawn a gynhyrchwyd. Felly dyna rydyn ni wedi'i wneud ac rydw i'n meddwl bod gwaith atal, mynd i mewn a siarad gyda'r bobl ifanc, wirioneddol wedi cael dylanwad mawr ar lefelau'r YGG."

Mae'r gwasanaeth yn "broses a arweinir gan asiantaethau" a reolir gan yr YOS ac mae'n gweithio'n agos â'r heddlu, a'r gwasanaethau tai ac addysg. Nu fu mewnbyn uniongyrchol oddi wrth bobl ifanc na'r gymuned ehangach i ddyluniad a gweithrediad y gwasanaeth ac ni fu proses ymgynghori ffurfiol. Fodd bynnag, mae yna ffyrdd anuniongyrchol y mae'r gwasanaeth yn ymateb i gyfranogwyr ac aelodau'r gymuned⁹³. Er enghraifft, ynglŷn â phobl ifanc, esboniodd y rheolwr achosion:

"Rydw i'n meddwl eu bod wedi hysbysu ein proses pan fyddwn yn gwneud cyflwyniadau, a thrwy siarad gyda nhw rydym yn gweld am beth maen nhw eisiau clywed a beth mae arnyn nhw angen ei wybod ac mewn beth maen nhw'n ymddiddori... Felly a dweud y gwir maen nhw'n hysbysu'r ffordd rydym yn gweithio, yn arbennig ar lefel un i un hefyd."

Yn nhermau gweithio gyda'r bobl ifanc a nodwyd yn gyfrifol am ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithiodd y tîm i herio "ymddygiad disymud" ymhlith pobl ifanc sydd yn aml wedi cael bywyd cartref cythryblus a dim ond ychydig iawn o gyswllt â'r ysgol:

"Mae llawer o'r sesiynau ... wedi'u seilio ar yr hyn yw eu cysyniadau nhw o beth sy'n iawn ac yn anghywir. ...Rydym yn gweithio gyda'r person ifanc ar lefel un i un gyda'r taflenni gwaith a herio'u cysyniad o'r hyn y maen nhw'n ei ystyried yn dderbyniol ac yn annerbyniol."

Gwelwyd bod diffyg cyswllt rheolaidd â'r ysgol yn broblem mawr i'r tîm ymdrin ag ef – yn arbennig wrth geisio dychwelyd pobl ifanc i'r ysgol:

"Roedd bron pob tŷ yr es iddo, lle nad oedd y person ifanc yn yr ysgol... [naill ai] yn triwantio neu ... [oherwydd] roeddynt wedi'u hatal dros dro neu eu gwahardd. ... Yna byddai'r person ifanc yn cadw draw [o'r ysgol ar ôl i'w gwaharddiad ddod i ben] ac ymddengys bod yna fwlch o dri mis cyn i unrhyw asiantaeth sylwi ar eu hachos."

Hefyd, roedd gweithio gyda'r bobl ifanc yn cynnwys trafod eu hymddygiad gyda'u rhiant/rhieni – rhywbeth yr oedd y tîm yn credu bod y teulu ehangach hefyd yn elwa ohono:

⁹³ Er enghraifft, mynychodd aelodau'r tîm gyfarfodydd y cynllun Partneriaethau a Chymunedau gyda'i Gilydd (PACT).

"Yn aml, rydym yn gweld bod llawer o'r rhieni hyn wedi cyrraedd pan eu tennyn ac nid oes unrhyw un arall wedi dangos diddordeb yn yr un ffordd ag y gallwn ni... [Er enghraifft] rydym wedi bod yn edrych ar roi cymorth i'r teulu yn hytrach na [dim ond] i'r unigolyn. Dyna o le daw 'Breakouts' – sy'n gynllun rydym wedi'i ddyfeisio lle byddem yn cefnogi'r teulu cyfan yn hytrach na dim ond y cleient. Oherwydd roedd llawer o'r brodyr neu chwiorydd yn dweud 'wel mae o'n cael yr holl gilfanteision hyn am ei ymddygiad gwrthgymdeithasol a dydyn ni'n cael dim'."

Hefyd, roedd yna elfen o weithio gyda'r rhieni i "roi gwybod iddyn nhw am y terfynau a sgiliau rhianta" ac i edrych am "gyrsiau a chyingor, ac ymrwymo â'r gwasanaethau cymorth perthnasol". Mewn gwirionedd, teimlodd y tîm bod "ceisio cael gwasanaethau cymorth i ymgysylltu â'r teulu" yn her allweddol i'r gwasanaeth. Er enghraifft, nododd y tîm ddiffyg gwasanaethau priodol i blant iau:

"Mae rhan fwyaf ein gwaith, neu gyfran dda ohono, gyda phlant o dan ddeg, un ar ddeg oed ac nid yw llawer o'r gwasanaethau yn ymestyn iddyn nhw - yn enwedig rheoli dicter. Nid oes yna raglen rheoli dicter penodol i blant o dan 11 oed mewn gwirionedd, ac rydym ni'n ffeindio bod hynny'n cymryd llawer iawn o'n hamser ar hyn o bryd."

Problem arall oedd rhieni a oedd yn dioddef trais gan eu plentyn:

"Mae dau neu dri o rieni [sydd] wedi bod mewn yn eithaf diweddar, ... wedi dioddef trais gan eu plentyn ac mae hynny'n faes anodd iawn, iawn i gael cyngor a chymorth arno."

Gyda "mwyafrif" yr achosion mewn llety awdurdod lleol, mae'r tîm hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda gwasanaethau tai lleol i ymdrin â theuluoedd.

"Mae gan wasanaethau tai awdurdod lleol lawer mwy o bŵer dros eu tenantiaid na sydd gan landlordiaid preifat. Felly gallwn gyflawni llawer mwy trwy gytundebau tenantiaeth awdurdod lleol a phethau fel yna."

"Mae'r rhybuddion yn cael ychydig mwy o effaith mewn perthynas â hynny oherwydd gallwch ddweud wrth y person y bydd eu tŷ'n cael ei gymryd oddi arnyn nhw os bydd eu YGG yn parhau ... mae hynny'n arf ataliol grymus mewn ystadau lleol..."

Effaith y prosiect

At ei gilydd, mae'r tîm yn credu bod "y system yn lwyddiant" a bu iddynt briodoli'r llwyddiant hyn i "waith partneriaeth" da a chymorth oddi wrth yr YOS a gwasanaethau eraill. Hefyd, ymddengys bod yr ystadegau'n cefnogi'r farn hon:

"Bu cwmp drammatig yn nifer yr atgyfeiriadau ac yn y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn YGG, sy'n cael ei riportio i ni."

"Mae'r ystadegau wedi hanneru...mewn pum mlynedd."

At hyn, mae'r tîm yn cael adroddiadu'n rheolaidd oddi wrth deuluoedd unigol yn nodi sut y mae'r gwasanaeth wedi'u helpu nhw:

"Fel arfer, mae'r rhieni... jyst yn falch eu bod nhw wedi cael rhywun i siarad gyda nhw ac i wrando arnyn nhw ac maent yn rhoi gwbod i ni beth yw eu safbwynt... Felly fel arfer maen nhw'n ddiolchgar am yr ymweliad."

Y Cynllun Her Gwasanaeth Antur

Nod y prosiect

Mae'r Cynllun Her Gwasanaeth Antur yn brosiect ymyrraeth gynnar mewn ysgolion sy'n gweithio gyda saith ysgol gynradd a'r Tîm Atal yn YOS Abertawe. Ei brif nod yw lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy ddatblygu'r plentyn mewn ffordd holistaidd:

"Rydym yn hoffi meithrin hyder a hunan-barch."

Un o nodau eraill y prosiect yw gwella presenoldeb disgyblion yn yr ysgol oherwydd mae'n rhaid i'r plentyn fynychu'r ysgol er mwyn gallu cymryd rhan yn y prosiect:

"Os nad ydych chi'n gwneud yn dda yn yr ysgol rydych chi'n dueddol o beidio eisiau mynd, felly rydych chi'n ei osgoi. Ond gyda'r cynllun hwn, mae'n rhaid iddyn nhw fynychu, oherwydd a) mae o yn ystod amser ysgol, a b) dim ond os ydyn nhw wedi bod yn yr ysgol yn ystod yr wythnos hefyd y gallen nhw fynychu [r cynllun]."

Ymyriad a grŵp targed

Cynhelir y prosiect yn ystod oriau ysgol ac mae'n gweithio gyda grwpiau bach o blant – "fel arfer rhwng pump a deg" – rhwng wyth ac 11 oed. Mae'r ysgolion yn atgyfeirio plant y maent yn poeni amdanynt i'r prosiect, ac unwaith maent ar y prosiect, caiff ymyriad wedi'i deilwra'n unigol ei ddatblygu ar gyfer pob plentyn.

Yn nhermau gweithgareddau, mae'r prosiect yn cwmpasu meysydd fel sgiliau bywyd - e.e. "bwyta'n iach a gofalu am eich hunan, ... diogelwch ffordd, ... jyst pethau bob-dydd rydych yn dod ar eu traws, nad ydych chi o reidrwydd yn dysgu amdanynt yn yr ysgol" – ac mae'n darparu amgylchedd dysgu didaro- "dydyn nhw ddim yn cael eu gorfodi i wneud pethau dydyn nhw ddim eisiau eu gwneud" – i'r plant hynny allai fod yn straffaglu gyda dosbarth prif ffrwd:

"Rydym yn ei wneud mewn ffordd hwyliog mewn amgylchedd didaro fel nad ydynt dan gymaint o bwysau yn yr ystafell ddosbarth. ...Maent yn cael yr ychydig o help ychwanegol hwnnw y mae arnynt ei angen, ...[ac] mae'r grwpiau'n llai ac maent yn cael mwy o amser un i un."

Mae'r ymatebolrwydd hwn hyd yn oed yn ymestyn i gynnwys y plant yn nyluniad a darpariaeth y prosiect:

"Mae ganddynt lawer o ddweud ynddo, ...ac un sesiwn bob chwech wythnos, maent yn rhedeg y sesiwn."

Effaith y prosiect

Mae'r prosiect yn helpu'r plant mewn nifer o ffyrdd. Fel y crynhodd y gweithiwr prosiect:

"Mae ganddynt oliau i weithio tuag atynt a chysondeb bob wythnos, mae ganddynt rywbeth i edrych ymlaen ato... Ac ar ddiwedd y sesiwn, os byddwn ni'n gwneud rhywbeth sydd wedi'i seilio ar gelf, a dyna beth rydyn ni'n dueddol o'i wneud, mae ganddynt rywbeth gweledol, ffisegol yn eu dwylo, i'w gymryd adref ac i fod yn falch ohono ac i gofio."

At hyn, sylwodd y gweithiwr ar welliannau amlwg yn ymddygiad llawer o'r plant:

"Maent yn cymysgu'n well, neu rydw i'n meddwl eu bod nhw jyst yn dawelach ac efallai nad ydyn nhw gymaint o ofn dod i'r ysgol, a dweud y gwir."

"Does ond raid i chi edrych ar y newidiadau yn eu gwaith [ysgol], eu hymddygiad, eu hyder... Rydw i'n gwybod fy mod yn ei ddweud o hyd, ond hyder, mae [eu] hyder wedi gwella'n aruthrol."

Prosiect Pontio'r Cenedlaethau West Side

Nod y prosiect

Nod allweddol Prosiect Pontio'r Cenedlaethau West Side yw:

"gwella cydlyniad cymunedol ac felly lleihau ofn troseddau ar sail cymdogaethau. Ac rydym yn gobeithio gwneud hynny trwy gyflawni amcanion fel dod â phobl hŷn a phobl iau at ei gilydd o fewn rhyw fath o fforwm yn y gymuned sy'n eu galluogi i drafod problemau yn y gymuned a datrys materion ar yr un tir â'i gilydd."

Sefydlwyd y prosiect mewn ymateb i ganfyddiad problemau oedd yn gysylltiedig ag ieuencid yn yr ardal, fel *"pobl ifanc yn ymgasglu o gwmpas y siopau, ...[ac] yfed tan oed yn y parc"*. Fel yr esboniodd y gweithiwr prosiect:

"Roedd yna lefel uchel o ymddygiad niwsans gan bobl ifanc yn cael ei gofnodi yn yr ardal honno, ac ... roedd rhan fwyaf y cofnodion hynny wedi dod oddi wrth drigolion dros 50 oed yn bennaf sydd wedi byw yn yr ardal ers amser hir ac a oedd yn teimlo'n gryf am ... ddatrys yr ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'r hyn yr oeddyn nhw'n ei ystyried yn drosedd yn yr ardal."

Ymyriad a grŵp targed

Wedi cychwyn ym mis Hydref 2007, mae'r prosiect yn gymharol newydd ac yn esblygu o hyd. Ar hyn o bryd mae'n ymgorffori ymagwedd aml-asiantaeth sy'n cynnwys: YOS Abertawe; cynrychiolwyr o'r Bartneriaeth Bobl Ifanc a'r Strategaeth 50 oed a throsodd; dau Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu; gweithwyr ieuencid lleol; staff Clwb Rygbi lleol a Theatr Ieuencid; yn ogystal ag aelodau o bob oed o'r gymuned.

Un o heriau mawr y prosiect oedd recriwtio aelodau hŷn ac iau y gymuned i gymryd rhan:

"Arweiniodd y Strategaeth 50 Plws y broses o recriwtio pobl dros 50 oed oherwydd bod ganddynt fynediad iddynt. Nawr, pan edrychom ar sut i recriwtio pobl ifanc ar gyfer y rhaglen ... bu i ni siarad gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a oedd yn lawer o help... ac fe benderfynasant y byddent yn arwain y broses o recriwtio pobl ifanc yr ardal. Roedd hyn yn ddelfrydol oherwydd fel y gwyddoch mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar droed ac maent yn patrolio'r ardal rydym ni'n gweithio ynddi. Felly, fe roddasant daflenni i'r bobl ifanc a rhoi gwybod iddynt am yr hyn rydym yn ei wneud ac yn raddol adeiladwyd grŵp o bobl ifanc."

Yn dilyn y recriwtio, cynhaliwyd nifer o "grwpiau trafod" gyda'r bobl ifanc, gan edrych ar "sut beth yw byw yn y gymuned honno, beth yw'r materion, beth yw'r problemau, beth yw'r gobeithion a'r ofnau yn y gymuned honno a beth all y bobl ifanc ei gynnig". Y prif fater a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn gyda phobl ifanc oedd y diffyg pethau priodol iddynt eu gwneud:

"Yr ateb sy'n codi dro ar ôl tro yw mai adnoddau cyfyng iawn sydd ganddynt yn y gymuned. ...Diffyg ...man cymdeithasol iddyn nhw eu hunain"

Cafodd dewis a dyluniad gweithgareddau'r prosiect eu seilio ar yr ymgynghoriad hwn gyda'r bobl ifanc:

"Bu i ni siarad am y math o ddarpariaethau y bydden nhw'n hoffi eu gweld yno a pha fath o weithgareddau yr hoffen nhw gymryd rhan ynddynt, pa gyfleoedd yr hoffen nhw yn eu cymuned. A bu i ni adeiladu'r prosiect o gwmpas y syniadau hynny, yn bennaf oherwydd mai un o'r atebion cryf a gafwyd gan bobl hŷn ynglŷn â pham roeddynt yn teimlo bod ymddygiad gwrthgymdeithasol i'w gael yn yr ardal oedd eu bod hwythau hefyd yn teimlo nad oedd gan bobl ifanc ddigon o bethau i'w gwneud. Felly, gadawom i'r bobl ifanc arwain hyn a dweud y gwir, a dweud pa weithgareddau y byddent yn eu dewis. Felly ...aethpwyd ati i ddarparu pethau fel hyfforddiant cymorth cyntaf, gwneud fideos a'r math yna o weithgaredd oherwydd mai dyna a awgrymodd y cyfranogwyr."

Hefyd, roedd y grŵp dros 50 oed yn cytuno gyda'r gweithgareddau a awgrymwyd:

"Pan aethom yn ôl at [y grŵp dros 50 oed] a dangos iddyn nhw'r hyn yr oedd y bobl ifanc wedi gofyn amdano cawsom ein synnu gan ba mor hapus yr oedden nhw i gytuno gydag awgrymiadau'r bobl ifanc."

Ar ôl y grwpiau trafod cychwynnol, mae nifer fach o sesiynau pontio'r cenedlaethau wedi cael eu cynnal:

"Cynhaliwyd un neu ddau o sesiynau pontio'r cenedlaethau lle gwahoddwyd pobl ifanc i wneud pethau fel hyfforddiant cymorth cyntaf"

gydag aelodau hŷn y gymuned, gwneud fideos a gweithdai theatr a chelf. Felly cawsant y cyfle wedyn i ddatblygu sgiliau newydd ochr yn ochr ag aelodau hŷn y gymuned yn ogystal â chael y cyfle i drafod rhai o faterion cyffredinol byw yn yr ardal honno."

Effaith y prosiect

Gwelwyd bod yr ymagwedd aml-asiantaeth (yn arbennig mewnbwn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu "ar lawr gwlad") a chyfranogiad aelodau'r gymuned yn nyluniad y prosiect yn gydrannau allweddol i lwyddiant y prosiect. Er bod y gweithiwr prosiect yn derbyn bod y prosiect wedi canolbwyntio mwy ar y bobl ifanc nag ar y cyfranogion hŷn – efallai oherwydd bod yr arweinydd YOS yn ffocysu ar newid ymddygiad pobl ifanc – roedd sampl o gyfranogion y prosiect⁹⁴ a chynrychiolwyr o'r gymuned⁹⁵ yn bositif iawn am y prosiect. Yn wir, roedd holl gynrychiolwyr y gymuned yn cydnabod manteision cael cenhedloedd hŷn ac iau i "*liniaru eu pryderon a'u camsyniadau am ei gilydd*". Yn ogystal â gwella perthnasoedd rhwng y ddau grŵp, ymddengys bod y prosiect wedi llwyddo i ymgysylltu'r cyfranogion ifanc a hŷn mewn 'ffordd o fyw gymunedol':

"Mae wedi rhoi ymdeimlad o gynhwysiad i'r holl gyfranogion ac ymdeimlad o fod yn ran o rhywbeth. Nid yw llawer ohonynt yn ran o unrhyw grŵp cymunedol yn yr ardal nac yn unman arall. Ac, ie, ni fyddai'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud unrhyw beth fel hyn neu ddim wir yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch cymunedol positif oni bai am y prosiect. Felly rydw i'n meddwl yn hynny o beth, mae wedi rhoi rhywfath o bwrpas i'r cyfranogion a rhywfaint o ymdeimlad o rymuso ."

Y prosiect Cynhwysiant Chwaraeon (Rugbywise)

Nod y prosiect

'Prosiect Cynhwysiant Chwaraeon' yw gwedd presennol prosiect o'r enw 'Rugbywise' oedd yn bodoli cyn SCF⁹⁶. Roedd Rugbywise yn defnyddio Undeb Rygbi mewn ystad penodol yn Abertawe i ddargyfeirio pobl ifanc oddi wrth ymddygiad troseddol, a chynnwys eu gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach mewn gweithgareddau adeiladol. Ar ôl hynny, mae'r prosiect wedi'i ymestyn i gynnwys holl ardaloedd 'Cymunedau yn Gyntaf' Abertawe⁹⁷. Fel y noddodd cydlynnydd y prosiect:

"Yn bennaf, prosiect cynhwysiant cymunedol ydyw. Yn amlwg, mae'n brosiect cynhwysiant chwaraeon hefyd – lle mae'r plant yn chwarae chwaraeon ac yn datblygu eu craffter chwaraeon – ond i mi, prosiect cynhwysiant cymdeithasol chwaraeon ydoedd yn bennaf, lle bu i ni annog y gymuned i fod yn actif a'u cael nhw i fod yn ran o glwb [Rygbi] oedd yno'n barod ac nad oeddynt wedi dangos unrhyw ddiddordeb ynddo."

⁹⁴ Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda 6 o gyfranogion y prosiect (4 gwryw a 2 benyw) rhwng 12 ac 16 oed.

⁹⁵ Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda 6 o gynrychiolwyr y gymuned oedd yn gysylltiedig â'r prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys y 2 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a 4 cynrychiolydd oedd yn gysylltiedig â'r Clwb Rygbi lleol.

⁹⁶ Sefydlwyd y prosiect Rugbywise yng Nghlwb Rygbi Penlan ym mis Tachwedd 2005.

⁹⁷ Y rheiny a chanddynt lefelau uchel o aml-amddifadedd, a chanddynt hawl i raglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ariannu adfywiad.

Ymyriad a grŵp targed

Mae'r prosiect yn rhedeg pedwar tîm rygbi i fechgyn rhwng 8 ac 11 oed. I ddechrau, roedd y prosiect yn dibynnu'n bennaf ar fewnbwn un person – y cydlynnydd:

"Roeddwn yn rhedeg y timau ar gyfer y grwpiau o dan 8 oed i o dan 11 oed, oedd yn golygu datblygu'r hyfforddwyr, datblygu'r chwaraewyr, trefnu gemau, dyfarnu gemau, hyfforddi timau. A phopeth dan haul, gan gynnwys gwneud y sglodion wedyn..."

Fodd bynnag, gydag amser, mae'r prosiect wedi'i wreiddio lawer mwy yn y gymuned leol gyda thrigolion lleol yn gwirfoddoli i fod yn hyfforddeion ac yn ddyfarnwyr ac yn llunio pwyllgor i redeg y clwb.

Effaith y prosiect

Roedd y cydlynnydd yn hyderu bod y bechgyn yn elwa mewn llawer o ffyrdd, gyda'r prosiect yn darparu: strwythur a disgyblaeth; ymarfer corff a rhyngweithio cymdeithasol; a hwb i'w hunan-hyder.

"Mae'n rhoi strwythur iddyn nhw – mae'n rhaid iddyn nhw droi i fyny i'r sesiynau hyfforddi ar ddydd Mawrth a dydd Iau, ac mae'n rhaid iddyn nhw droi i fyny ar fore dydd Sul. Mae'n rhoi ymarfer corff iddyn nhw na fydden nhw fel arall yn ei gael o bosibl. Mae'n rhoi cyfeillgarwch iddyn nhw, mae'n rhoi hyder iddyn nhw, hunan-barch, ...[ac] mae'n darparu cyfleuster ychwanegol ... a chyfle ychwanegol iddyn nhw ddatblygu a gwneud rhywbeth o'u hunain."

Roedd cyfleoedd pellach ar gyfer twf personol yn cynnwys datblygu sgiliau gwaith tîm a gwneud ffrindiau newydd:

"Mae'n rhoi'r cyfle i'r plant ... gwrdd â phlant eraill o ardaloedd eraill, ysgolion eraill a gwneud ffrindiau newydd ... Maen nhw'n dysgu i gymysgu gyda phlant eraill."

Roedd y cydlynnydd yn credu bod y prosiect yn llwyddiant ysgubol – ac un o'r rhesymau dros hyn yw, ar ôl tair blynedd, bod y gymuned gyfan yn cefnogi'r clwb:

"Erbyn hyn, rydym yn mynd i mewn i'n pedwerydd tymor. Fel y dywedais, mae gennym ddeg neu bymtheg chwaraewr ym mhob grŵp, rydym yn ennill mwy o emau na rydym yn eu colli, mae'r plant yn wirioneddol ei fwynhau oherwydd eu bod nhw'n ennill. ... Mae'r oedolion yn ei fwynhau ac mae'r gymuned yn cefnogi'r clwb. Bore dydd Sul... byddai gennych chi bumdeg neu chwedeg o grysau glas ac aur yn rhedeg o gwmpas a byddai rhieni pob un ohonyn nhw yno, ac mae'n rhyfeddod gweld y plant sydd wedi mynd o ddim i wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud rŵan."

Yn wir, y neges gryfaf a gafwyd o'r grŵp ffocws a gynhaliwyd gydag aelodau'r gymuned⁹⁸ oedd faint y maent wedi cymryd perchenogaeth dros y prosiect erbyn hyn:

"Ein clwb ni ydi o, chi'n deall. Nid yw'n glwb Rugbywise a dweud y gwir erbyn hyn; ein clwb ni ydi o rwan."

Fel rhan o'r gwerthusiad, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda nifer o blant a oedd yn rhan o'r prosiect⁹⁹. Pan gawsant eu holi, roeddynt i gyd yn bositif ac yn cytuno bod y clwb yn "beth hynod o dda" ac roeddynt yn canmol yr hyfforddwyr am ddysgu "llawer o wahanol bethau" iddyn nhw. Os nad oeddynt yn mynychu'r cynllun, roeddynt yn teimlo y byddent yn bennaf adref yn "gwyllo'r teledu" neu yn "chwarae'r PlayStation trwy'r amser".

Gweithiwr Rheoli Dicter ac Ymchwil

Nod y prosiect

Prif nod y prosiect hwn yw lleihau troseddu ymhlith troseddwr ifanc y gwyddys amdanynt a'r rheiny sydd mewn perygl o droseddu:

"Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi troseddu ac sy'n troseddu o ganlyniad i faterion sy'n gysylltiedig â dicter neu hunan-barch ... gan geisio rhoi technegau iddynt ymdopi heb droi at drais a throsedd. Hefyd, rydym yn gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ... i leihau ... y tebygolrwydd y byddant yn cyflawni trosedd."

Mae'r rôl hefyd yn cynnwys cydran ymchwil i archwilio "i'r cynnydd mewn achosion o droseddu treisgar sy'n cynnwys merched". Yn wir, roedd y cynnydd canfyddedig mewn troseddau treisgar ymhlith merched ifanc yn ysgogiad mawr dros y gwasanaeth. Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn sail i "waith ataliol" yn y dyfodol.

Ymyriad a grŵp targed

Mae'r gweithiwr Rheoli Dicter ac Ymchwil wedi'i leoli yn YOS Abertawe. Fel y disgrifiodd y gweithiwr:

"Yn bennaf, rwy'n gweithio gyda merched a chanddynt broblemau rheoli eu dicter a'u teimladau, ac yn ceisio rhoi dulliau iddynt allu ymdopi gyda bywyd yn well."

Mae'r prosiect yn ymgymryd ag asesiad cychwynnol ac yna'n cynllunio ymyriad wedi'i deilwra ar eu cyfer:

"I ddechrau, yn amlwg, rhaid deall o ble maen nhw'n dod, ymhle maen nhw'n meddwl y mae dicter yn broblem iddyn nhw. ... Felly... pwrpas y sesiwn cyntaf yw asesu eu hanghenion neu beth maen nhw'n meddwl y mae arnynt ei angen, sut yr hoffen nhw newid. Rydym yn gofyn cwestiynau fel yna iddyn nhw ac yna... rydym yn llunio cynllun i

⁹⁸ Cynhaliwyd grŵp ffocws gydag 8 o aelodau'r gymuned – 6 dyn a 2 ddynes, ac roedd gan bob un ohonynt blant yn cymryd rhan yn y prosiect.

⁹⁹ 9 o blant (8 bachgen ac 1 merch) rhwng 7 a 10 oed.

nodi i ba gyfeiriad rydym ni eisiau mynd gyda'r person ifanc yna, ymhle yr hoffen nhw fod, a sut rydym yn mynd i gyflawni hynny."

Yn dilyn yr asesiad hwn, caiff ymyriad pwrpasol ei ddylunio i ddiwallu anghenion unigol y bobl ifanc:

"Rydw i'n meddwl mai'r hyn sy'n wirioneddol bwysig am y prosiect yw'r ffordd y mae'n trin pob atgyfeiriad unigol fel un unigryw, ac nad oes ganddo lawlyfr rydym yn mynd trwyddo gyda phob person ifanc. Mae'n wasanaeth pwrpasol ac fe'i ddylunnir i ddiwallu eu hanghenion, ac mae'n addasu yn ôl yr angen pan fydd angen i gyrraedd y nod."

Yn bwysig, nid yw'r prosiect dim ond yn canolbwyntio ar reoli symbyliadau dicter ond y mae hefyd yn ceisio ymdrin â ffactorau cysylltiedig fel diffyg hunan-barch, camddefnyddio sylweddau a dylanwadau cymheiriaid. Credwyd bod hybu hunan-barch yn rhan hanfodol o'r gwaith:

"Os ydym yn ymdrin yn benodol â rheoli dicter, byddwn yn manteisio ar unrhyw gyfle i hybu hunan-barch. Felly, yn gyffredinol, maen nhw'n teimlo'n well amdany'n nhw eu hunain ar ôl y sesiwn ac rydym hefyd yn ceisio rhoi ffyrdd iddyn nhw wneud i'w hunain deimlo'n well yn ystod yr wythnos. Oherwydd, rwy'n meddwl, os allwch chi ddechrau ... eu gwneud nhw'n falch o rywbeth neu'n fwy positif am eu hunain am rywbeth... ac maen nhw'n dod i mewn yr wythnos nesaf ac yn dweud, "Wnes i roi cynnig ar y peth yna ac fe weithiodd," neu, "Fe wnes i fynd i'r ysgol trwy'r wythnos," neu beth bynnag. ... Felly a dweud y gwir, rydyn ni'n targedu hunan-barch yr holl amser."

Hefyd, bu'r prosiect yn ddefnyddiol wrth helpu merched ifanc i ymdrin â risgiau camddefnyddio sylweddau – sy'n berthnasol iawn i lawer o'r rheiny y mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda nhw:

"Yr hyn rydyn ni'n trio ei wneud yw rhoi technegau iddyn nhw a ... dulliau i'w defnyddio i ymdopi â bywyd y bydden nhw fel arfer yn troi at sylweddau i roi hyder iddynt neu i'w hymlacio a'u tawelu, neu beth bynnag. Hyd yn oed os yw hynny'n ... sigarets neu alcohol, yr hyn rydyn ni'n ceisio ei wneud yw rhoi ffyrdd iachach iddyn nhw o ymdopi gyda'u bywydau. ... Dydyn ni ddim yna i bregethu arny'n nhw i roi'r gorau i'r cyffuriau, ond yr hyn rydyn ni'n ei ddweud yw dydych chi ddim eu hangen nhw, gallwch chi ymdopi eich hunain mewn ffyrdd iachach."

Yn debyg, mae'r prosiect hefyd yn ceisio helpu merched ifanc i ymdrin â dylanwadau problemus cymheiriaid :

"Rydym yn ceisio rhoi dulliau iddyn nhw eu defnyddio weithiau i gael hyder yn eu hunain nad ydyn nhw wedi'u cael wrth dyfu fyny. Felly rydyn ni'n dweud mae gennych chi gymaint o hawl ag unrhyw un i ddweud, 'Ydw, rydw i eisiau gwneud hynny'; 'Na, dydw i ddim eisiau gwneud hynny'; 'Rydw i eisiau mynd i fanna'; 'Dydw i ddim eisiau mynd i fanna.' Ac i geisio meithrin eu hunan-barch er mwyn iddynt deimlo'n gryfach fel y gallent ymdopi."

Effaith y prosiect

Cyfyngiad mawr y prosiect oedd y cyfnod ymyrryd byr:

"Mae'n chwech wythnos, chwech sesiwn a gallwch chi ddim gwneud gwyrthiau. ... Gallwch wneud eich gorau ond, fel y dywedais i... maen nhw wedi cael un deg chwech, un deg saith blynedd o fagwraeth yn yr amgylchedd hwnnw ac maent wedi dod i arfer gyda ffordd o fyw arbennig, ac weithiau mae'n anodd pan maen nhw wedi hen arfer ag agweddau negyddol, eu newid."

Roedd a wnelo cyfyngiad arall â'r anhawster wrth werthuso'r math yma o ymyriad, o ganlyniad i'w natur unigoleddig:

"Wel, mae o wedi bod yn reit anodd ei asesu a'i fesur, a dweud y gwir... oherwydd mae popeth mor unigryw, ac ydi, mae pob achos mor wahanol. ... Felly mae'n anodd iawn... barnu llwyddiant, ac mae'n cael ei wneud yn reit reddfol, a dweud y gwir. P'un ai ydym yn teimlo bod person ifanc wedi symud ymlaen ac mewn gwell le. ...Ond rydych chi'n cael ymdeimlad o wneud lles ac, ie, o fod yn help i bobl ifanc."

Yn gyffredinol, er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, crynhodd y gweithiwr prosiect effaith y gwasanaeth mewn ffordd bositif:

"Wel, yn bennaf mae'n anecdotaidd, ond mae'n ymddangos ei fod yn cael effaith da. ... Yn nhermau achosion unigol a'u deilliannau gwell... rydw i wedi cael gwybod bod rheoli dicter yn gweithio neu bod ganddo gyfradd llwyddiant da."

Canfyddiadau ar draws yr astudiaethau achos

Mae'r adran hon yn dod â chanfyddiadau'r dair astudiaeth achos at ei gilydd, gan amlygu casgliadau trosfwaol am ddarpariaeth, effeithiolrwydd, monitro a gwerthusiad y prosiectau, ac ymagweddau at ddatrys problemau.

Darpariaeth y prosiectau

- Ar draws y prosiectau, roedd staff yn amlwg yn ymroddedig ac yn frwdfrydig. Roedd gan lawer o staff y prosiectau'r hyfforddiant a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i weithio gyda grwpiau o bobl ifanc sy'n gallu bod yn anodd ar adegau, ac i sicrhau lefelau uchel o ymroddiad a chyfranogiad gan y bobl ifanc yn y grwpiau hynny.

Ymgynghori â'r gymuned

- Mae rhan fwyaf yr ymarferwyr yn cydnabod pwysigrwydd ymgynghori gyda phobl ifanc ac aelodau eraill y gymuned - er mwyn darganfod natur problemau lleol ac i siapio ymyriadau i ymdrin â nhw - ond nodwyd bod cyfyngiadau amser yn rhwystr sylweddol.

Tystiolaeth o arferion effeithiol

- Er bod peth gwaith o ansawdd uchel iawn yn cael ei wneud ar lefel prosiect ar hyn o bryd, nid yw llawer ohono'n cael ei adlewyrchu'n ddigonol naill ai yng nghronfa ddata SCF nac mewn unrhyw gofnodion ffurfiol eraill. Mae hyn yn bechod mawr oherwydd gallai arferion da a welwyd (yn seiliedig ar ymchwil a gwybodaeth flaenorol o'r llenyddiaeth ehangach) gael eu colli os na chânt eu cofnodi neu eu gwerthuso'n gywir.

Monitro a gwerthuso

- Nid yw monitro a gwerthuso wedi bod yn flaenoriaethau allweddol i rhan fwyaf y prosiectau a ariannwyd gan SCF yn ardaloedd yr astudiaeth achos – er bod rhan fwyaf y prosiectau wedi ceisio cofnodi o leiaf rhywfaint o wybodaeth am eu prif weithgareddau a chyfranogion. Hyd yn oed mewn achosion lle roedd prosiectau'n casglu gwybodaeth ddefnyddiol am eu gweithgareddau (ac mewn rhai achosion, eu heffeithiau tymor byr), nid oedd prosiectau'n dueddol o gasglu unrhyw fesuriadau o ganlyniadau 'cyn ac ar ôl' cadarn na chyson¹⁰⁰.

Ymagweddau at ddatrys problemau

- Gan fwyaf, nid yw llawer o waith ymarferwyr 'ar lawr gwlad' yn cael ei effeithio gan ofynion ffurfiol unrhyw ymagwedd datrys problemau strategol¹⁰¹. Yn hytrach, mae gwaith gweithwyr a rheolwyr y rheng flaen yn ffocysu ar gynnal arferion gwaith cynhyrchiol a chefnogol ar gyfer eu grwpiau cleientiaid, ac maen nhw (yn ddigon dealladwy) yn dueddol o ystyried gweithgarwch monitro a gwerthuso fel rhywbeth sy'n ymyrryd ar eu gwaith craidd. Fodd bynnag, roedd ymarferwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn yn ymwybodol yn aml o broblemau lleol, ac o'r cysylltiadau rhyngddyn nhw a'u gwaith eu hunain – mewn rhai achosion, gan roi disgrifiadau a oedd yn soffistigedig ac yn argyhoeddiadol¹⁰².

Er bod y sail dystiolaeth sydd ar gael yn gyfyngedig, mae'r themâu a ganlyn hefyd yn awgrymu llwyddiant pendant a dangosyddion addawol o arferion da ar draws tair ardal yr astudiaeth achos:

- Mae llawer o waith da wedi'i wreiddio mewn ymdrin â phroblemau ac anghenion lleol.
- Mae llawer o brosiectau'n ceiso'n gyson i ymgynghori â'r bobl ifanc sy'n cael eu targedu ac aelodau'r gymuned ehangach.
- Roedd rhan fwyaf staff y prosiectau'n cydnabod pwysigrwydd ymgynghori er mwyn gwella dyluniad prosiect, ac er mwyn ymestyn y cwmpas ar gyfer

¹⁰⁰ Awgrymodd un gweithiwr prosiect eu bod yn bwriadu ymgymryd â gwerthusiad o'u gwaith eu hunain ar ôl cyfnod o dair blynedd, er enghraifft, ond nid oeddynt wedi cymryd unrhyw gamau i sicrhau y byddai data, a fyddai'n galluogi dyfarniadau am ganlyniadau bryd yna, yn cael ei gasglu fel mater o drefn.

¹⁰¹ Nid yng Nghymru yn unig y mae hyn yn wir.

¹⁰² Mewn perthynas â'r gwaith pontio'r cenhedloedd yn Abertawe er enghraifft, cyfeiriodd aelodau'r staff at gysylltiadau rhwng prosesau sy'n gwella cydlynid cymunedol, a chwmp mewn teimladau o ansicrwydd neu ofn trais – cysylltiadau sy'n cyfynd â nodweddion hysbys gwaith datblygu cymunedol effeithiol sydd wedi cael sylw mewn llenyddiaeth ymchwil.

gweithredu neu newid prosiect mewn ffordd effeithiol (os oes angen) – er, weithiau, cyfeiriwyd at y ffaith bod cyfyngiadau amser yn cyfyngu ar faint yr ymgynghoriad a gynhaliwyd.

- Lle bynnag y bo'n bosibl, mae prosiectau wedi'u mewnosod yn y gymuned leol ac maent yn ceisio cymryd nodweddion ac anghenion arbennig yr ardaloedd i ystyriaeth;
- Mae'r dystiolaeth o wasanaethau hyblyg, ymatebol ac unigoledig yn gyffredin – nodweddion sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd prosiect neu raglen yn y llenyddiaeth ymchwil;
- Awgryma adborth a gasglwyd gan y tîm ymchwil yn uniogyrchol oddi wrth bobl ifanc, cynrychiolwyr y cymunedau, a staff prosiectau ac asiantaethau, bod llawer o waith a ariennir gan SCF yn cael ei groesawu'n lleol a'i fod yn llwyddo i gynhyrchu ystod o ganlyniadau positif;
- Mae yna enghreifftiau o waith rhyng-asiantaethol a meddwl ar y cyd dilys mewn prosiectau penodol ac mewn rhai achosion ar y lefel strategol lleol;
- Yn aml, caiff galwadau blaenoriaethau Cynulliad Cymru a YJB, sy'n gallu cystadlu â'i gilydd, ynglŷn ag atal troseddau ieuentid a grymuso ieuentid, eu cydbwysu'n dda trwy ddarparu "cymysgedd o brosiectau" lleol creadigol.

Mewn rhai ardaloedd mae arian SCF wedi'i fewnosod mewn partneriaethau a strategaethau aml-asiantaeth lleol, ac yn aml, mae'n rhan hollbwysig o drefniadau ar draws yr ardal. Felly, mae arian SCF yn cefnogi ac yn cael ei gefnogi gan gronfeydd eraill wrth ddarparu rhaglenni a phrosiectau atal. Mewn ardaloedd eraill, mae yna lai o integreiddiad rhwng asiantaethau a ffrydiau ariannu – trefn a chanddo duddiad i wanhau darpariaeth cyffredinol yr agenda atal.

Hefyd, gwerth yw nodi mewn rhai ardaloedd bod y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phrosiectau penodol, yn gallu amlygu bylchau yn y ddarpariaeth prif-ffrwd – ymddengys bod rhai prosiectau wedi'u sefydlu mewn ardaloedd lle mae'n ymddangos bod yna ddiffyg cyffredinol yn y ddarpariaeth i bobl ifanc, er enghraifft, neu lle cyfeiriodd ymatebwyr lleol at broblemau a oedd yn gysylltiedig â "diffyg unrhyw beth i bobl ifanc ei wneud".

I grynhoi, SCF yw y prif ffynhonnell ar gyfer ariannu gwaith atal troseddau ieuentid ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru (yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd yng ngwaith maes yr astudiaethau achos ac mewn ymgynghoriadau ehangach gyda chyfranwyr lleol allweddol ar draws Cymru). Darganfu'r gwerthusiad hwn dystiolaeth bod arferion a oedd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau cynhwysol a 'dad-droseddoliad' Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan ac agendâu polisi Ymestyn Hawliau yn cael eu gweithredu'n dda. Er gwaethaf y sail dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael mewn perthynas ag atal troseddau ieuentid yn gyffredinol, ac yn arbennig mewn perthynas â monitro prosiectau SCF yn benodol, ymddengys bod SCF (yn seiliedig ar y tair astudiaeth achos werthuso) yn galluogi ac/neu yn cryfhau gweithrediad ystod o weithgarwch diogelwch cymunedol arloesol a llwyddiannus sy'n ffocysu ar bobl ifanc. Hefyd, amlygodd yr

ymchwil astudiaeth achos yr anawsterau y mae rhai cynrychiolwyr lleol yn eu wynebu wrth fabwysiadu ymagweddau cyson at ddatrys problemau ar lefel strategol, er y bu hefyd rhai enghreifftiau nodedig o gynllunio effeithiol ar y lefel hwnnw.

Casgliadau ac argymhellion

Crynodeb o ganfyddiadau

Dadansoddiad o duedd

Mae'r dadansoddiad o duedd¹⁰³ yn cynnig darlun cenedlaethol eang ar gyfer Cymru o leihad cyffredinol mewn troseddau ieuenctid a gofnodwyd – gan gynnwys lleihad fymryn yn fwy mewn troseddau pobl iau ers 2004-05 o gymharu â Lloegr.

Cronfa Ddata o Brosiectau a Ariennir gan SCF

Ar draws pob CSP, arian SCF yw y prif ffynhonnell ar gyfer gwaith YCP yng Nghymru, o gymharu ag arian lleihau trosedd ac anhrefn y Swyddfa Gartref ac arian atal neilltuedig YJB. Mae'r prosiectau a ariennir gan SCF wedi'u targedu at faterion ataliol sy'n gysylltiedig â diogelwch ieuenctid, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau ieuenctid a chamddefnyddio sylweddau (yn arbennig o gymharu â chronfeydd BCU y Swyddfa Gartref a CRASB a hefyd o gymharu â'r fenter Cymunedau Diogelach cynharach cyn 2006). Felly, gallwn ddod i'r casgliad bod gwaith atal troseddau ieuenctid a diogelwch ieuenctid ar draws Cymru yn dibynnu i raddau helaeth ar y gefnogaeth ariannol parhaus a ddarperir gan SCF.

Yn anffodus, nid yw llawer o'r wybodaeth sydd yn y gronfa ddata yn gynorthwyol iawn ar gyfer dod i gasgliadau am arferion da neu effeithiolrwydd ymyriadau a ddatblygir yn lleol. Ar draws rhai o'r partneriaethau lleol, ymddengys bod yna ymagwedd ddidaro at fonitro, ac yn ardaloedd yr astudiaeth achos yn arbennig, yn aml, roedd yna gamgymhariad amlwg rhwng cofnodion y gronfa ddata ar gyfer prosiectau arbennig, a'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo mewn gwirionedd. Mae deunydd arall yn y gronfa ddata'n fanwl iawn ac fe ellid cryfhau'r fframwaith bresennol i alluogi i set o wybodaeth ehangach ac o ansawdd uwch gael ei chasglu am arferion SCF ar draws Cymru.¹⁰⁴

Gwaith maes yr astudiaethau achos

Mae gwaith ataliol ar draws y sector yn amlwg yn fregus (gan gynnwys gwaith a ddarperir gan CSPs a YOTs lleol). Mae rhan fwyaf y gwaith ataliol yng Nghymru wedi'i seilio ar brosiectau tymor byr, contractau tymor byr, ac ar brydiau ymagweddau 'dewis a dethol' at ariannu i amddiffyn gwaith cyfredol o un flwyddyn ariannol i'r nesaf yn hytrach na chael y fraint canfyddedig o gael ataliadau troseddau ieuenctid ac ymyriadau diogelwch ieuenctid newydd ac arloesol, hir-dymor a strategol yn y gymuned. *Yn y cyd-destun hwn, yn amlwg mae cymorth SCF wedi bod yn gwbl hanfodol ym mhob ardal wrth gynnal momentwm gwaith ataliol.*

¹⁰³ Er gwaethaf rhybuddion pwysig ynglŷn â'r setiau data cyfyngedig y mae'r dadansoddiad hwn wedi'i seilio arnynt.

¹⁰⁴ Mae yna nifer o ffyrdd y gellid cryfhau lefelau'r cydweithrediad lleol, gan hefyd gwella ar ansawdd a chysondeb yr wybodaeth a gesglir – allai yn ei dro ehangu'r cwmpas ar gyfer gwell gwybodaeth yn y maes, yn ogystal â galluogi i reolwyr allweddol fonitro cynnydd ac effeithiolrwydd at eu dibenion eu hunain.

Mae llawer o waith gwerthfawr yn cael ei gynnal ar draws y prosiectau SCF. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn dangos bod arferion sy'n cyd-fynd ag uchelgeisiau atal trosedd penodol yn ogystal â rhai cynhwysol a dad-droseddoliad ehangach Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan ac agendâu polisi Ymestyn Hawliau yn cael eu hybu'n dda. *Ar sail y dair astudiaeth achos a ddewiswyd gennym, ymddengys bod SCF yn chwarae rhan hanfodol wrth ganiatâu i ystod eang o weithgarwch diogelwch cymunedol gael ei weithredu a/neu ei gynnal. Fodd bynnag, mae yna ddiffyg tystiolaeth gyson, systematig o natur hirdymor, feintiol yn arbennig i gefnogi'r dyfarniad hwn yn gadarn.*

Hefyd, gan nad oes yna ganllaw cliriach gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyd-bwysedd ymdrechion ar draws pum dimensiwn atal troseddau ieuencid (gweler 7.2.3 isod), mae yna rywfaint o ddryswch ymhlith partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder ieuencid o hyd.

Mae llawer o brosiectau SCF yn ffocysu ar ymyriadau atal wedi'u targedu/eilaidd yn barod, ochr yn ochr ag atal trydyddol¹⁰⁵. Ymddengys mae'r hyn sydd ar goll mewn prosiectau SCF yw ymyriadau atal troseddau sylfaenol¹⁰⁶ - gan gynnwys y rheiny sy'n ymdrin â phobl ifanc fel poblogaethau ar y stryd ac sy'n cymryd rhan yn yr hyn rydym wedi'u galw'n 'hamdden hunan-gyfeiriol'. Wrth gwrs, fe allai ymyriadau o'r fath gael eu cynnal gan wasanaethau prif-ffrwd, fel yr awgryma'r Canllaw Strategol newydd.

Mae yna ddadl y gallai prosiectau SCF, yn unol ag egwyddorion Ymestyn Hawliau Llywodraeth y Cynulliad, ymdrin yn llwyddiannus â'r materion holistaidd sy'n gysylltiedig â risgiau a hawliau pobl ifanc ac efallai ffocysu'n fwy ar 'ddiogelwch' pobl ifanc yn hytrach na chyfeiriadaeth cyfiawnder ieuencid yr YJB a thimau YOS. Mae'r Canllaw newydd yn hybu'r awydd i gadw cydbwysedd ymyriadau wedi'u targedau a darpariaeth cyffredinol mewn rhyw fath o gyflwr o gytgord neu gydbwysedd. Mae egwyddor gwleidyddol LICC o gyfiawnder cymdeithasol ac o hawliau yn awgrymu bod atal sylfaenol yn cael ei flaenoriaethu mewn ffordd debyg i gyfeiriadaeth iechyd cyhoeddus (yn hytrach na'r ymyriadau 'pegwn aciwt' sy'n gysylltiedig ag ymyriadau eilaidd a thrydyddol).

Argymhellion/Opsiynau ar gyfer Newid

Dim ond dyfarniadau cyfyngedig ynglŷn ag 'effeithiau' sy'n bosibl o ganlyniad i'r gwerthusiad chwe mis hwn¹⁰⁷. Fodd bynnag, hoffai'r tîm ymchwil wneud yr arsylwadau a ganlyn.

- Ar draws pob CSP, arian SCF yw *prif* ffynhonnell gwaith Atal Troseddau Ieuencid yng Nghymru, o gymharu ag arian y Swyddfa Gartref a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid¹⁰⁸. Mae prosiectau SCF wedi'u targedu at faterion

¹⁰⁵ Fel y mae'r termau'n cael eu deall ar hyn o bryd yn y maes atal troseddau, mae "atal sylfaenol" yn gweithredu ar lefel eang i ymdrin â chyflyrau economaidd neu gyflyrau eraill allai, dros y tymor hirach, arwain at ddatblygiad trosedd, mae "atal troseddau eilaidd" yn ffocysu'n fwy penodol ar grwpiau sydd 'mewn perygl' uniongyrchol o droi'n droseddwy'r, ac mae "atal troseddau trydyddol" yn ceisio atal unigolion a nodwyd yn droseddwy'r yn barod rhag troseddu ymhellach.

¹⁰⁶ Neu. 'ymyriad cynnar': YJB/LICC, 2008.

¹⁰⁷ O ganlyniad i ddiffyg tystiolaeth feintiol 'cadarn' a thystiolaeth ansoddol hydredol a ddadansoddwyd yn drylwyr ar effeithiau tymor byr i ganolig a chanlyniadau hir-dymor.

¹⁰⁸ Ar sail dystiolaeth a gasglwyd yng ngwaith maes yr astudiaeth achos a thrwy ymgynghoriadau ehangach gyda chyfranwyr lleol allweddol ar draws Cymru.

ataliol sy'n gysylltiedig â diogelwch ieuenctid, ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau ieuenctid a chamddefnyddio sylweddau – yn arbennig o gymharu â chronfeydd BCU y Swyddfa Gartref a CRASB yn ogystal â'r fenter Cymunedau Diogelach gynharach¹⁰⁹. Felly, mae gwaith atal troseddau ieuenctid a diogelwch ieuenctid ar draws Cymru yn dibynnu i raddau helaeth ar y cymorth ariannol parhaus a ddarperir gan SCF.

- Darganfu'r gwerthusiad hwn dystiolaeth bod arferion a oedd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau cynhwysol a 'dad-droseddoliad' Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan ac agendâu polisi Ymestyn Hawliau yn cael eu gweithredu'n dda.

At hyn, mae'r gwerthusiad wedi nodi nifer o argymhellion ar gyfer newid y gellid eu clystyru o dan y penawdau a ganlyn:

Gwella monitro a goruchwyliaeth y rhaglen SCF

Gellir clustnodi adnoddau pellach i dîm diogelwch cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru (efallai trwy 'brigdorri' cyllidebau presennol) i wella ei allu i fonitro a rheoli perfformiad cenedlaethol gweithgarwch ar draws y 22 partneriaeth diogelwch cymunedol. Byddai darparu hyfforddiant ac adnoddau yn llesol i ystod o wneuthurwyr polisi, ymarferwyr a dadansoddwyr lleol. Gallai darparu hyfforddiant o'r fath gan sefydliadau y tu allan i rwydweithiau polisi y Swyddfa Gartref/yr Heddlu helpu i achosi newid mewn diwylliant lle byddai rheoli perfformiad yn cael ei gymhwyso'n fwy rheolaidd gan wneuthurwyr polisi diogelwch cymunedol a chyfiawnder ieuenctid lleol ac ymarferwyr ar draws Cymru. Ni ddylai hyn ganolbwyntio'n llwyr ar wella rheoli perfformiad ond yn hytrach dylai helpu datblygu gweithrediad gwasanaethau yn unol ag agendau cyfiawnder cymdeithasol ac ymestyn hawliau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gwella atebolrwydd rolau comisiynu CSP

Er bod yna nifer o 'gystadleuwyr' posibl ar gyfer rheoli dyranniad lleol cyllidebau SCF, mae partneriaethau'n aml yn fregus ac yn anodd eu sefydlu yn y tymor canolig i'r hir-dymor, a dylid ystyried pethau'n ofalus wrth bennu beth fyddai'r llwybr orau i ariannu ei gymryd. Rydym yn argymhell bod y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn parhau i fod yn gomisiynydd SCF lleol – ond gyda phroses comisiynu llawer mwy cadarn, aml-asiantaeth, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac atebol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol symud oddi wrth gyfeiriadaeth lleihau trosedd ac anhrefn cul (canfyddedig neu wirioneddol) a bod yn fwy o ddifrif am ddeallusrwydd partneriaeth a rennir.

Pennu amcanion ar gyfer atal troseddau ieuenctid cymunedol

Mae angen ystyried pum dimensiwn sylfaenol er mwyn datblygu ymagweddau strategol at atal troseddau ieuenctid ymhellach:

- math o ataliad ('haenau' sylfaenol, eilaidd a thrydyddol)¹¹⁰;
- pwrpas yr ataliad (ymatal risg a gwella hawliau);

¹⁰⁹ Cyn 2006.

¹¹⁰ Gweler troednodyn 105, uchod.

- cynulleidfaoedd atal (pobl ifanc a 'phawb arall');
- graddfeydd amser ar gyfer atal (ar unwaith, tymor canolig a hir-dymor); a
- targedau ar gyfer atal (unigolion, grwpiau a phoblogaethau).

Nid yw'r dimensiynau hyn yn annibynnol ar ei gilydd. Mae'n bosibl cael strategaeth sy'n ffocysu ar ymyriadau ar unwaith, 'cynnar' gydag unigolion a grwpiau sydd mewn perygl o droseddu sy'n cynnwys y risgiau hyn gan hefyd wella hawliau'r rheiny a dargedir.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae yna rywfaint o ddryswch ynglŷn â'r cydbwysedd addas o ymdrech ataliol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno ei hybu trwy'r SCF. Ychydig o arweiniad y mae Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan yn ei roi am y pwyslais priodol ymhlith yr amcanion hyn. Mae hyn yn rhoi hawl i bartneriaethau lleol ddewis pa amcanion y maent yn dymuno eu blaenoriaethu. Mae yna resymau cymhellaidd sy'n esbonio pam fyddai Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno rhoi mwy o gyfarwyddyd ar y defnydd o'r Gronfa Cymunedau Diogelach – os nad dim ond am mai honno yw'r unig ffynhonnell gymorth ar gyfer atal troseddau ieuenctid. Gallai arweiniad cliriach gan Lywodraeth y Cynulliad ar gydbwysedd yr ymdrech y dylid ei roi ar draws y pum dimensiwn yma o atal troseddau ieuenctid helpu i osgoi dryswch parhaus ymhlith (ac, mewn rhai achosion, tyndra rhwng) partneriaid diogelwch cymunedol.

Gwerthusiad systematig o waith atal troseddau ieuenctid yn y gymuned

I helpu Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaethau lleol gyda'u huchelgeisiau i wneud y cynllun cenedlaethol a phrosiectau lleol yn fwy effeithiol yn y dyfodol, mae'r tîm ymchwil wedi datblygu matrices (neu grid) ar gyfer mapio amrywiaeth y gwaith atal troseddau ieuenctid, gan ddefnyddio'r pum 'dimensiwn' a restrwyd uchod a'r pum 'math'¹¹¹ o waith atal troseddau a ddefnyddir i ddsbarthu ymyriadau yn y gwerthusiad hwn:

1. Gweithgareddau sy'n seiliedig ar hamdden dan gyfarwyddyd
2. Gweithgareddau sy'n seiliedig ar hamdden hunan-gyfeiriol
3. Gweithgareddau sy'n seiliedig ar y teulu
4. Gweithgareddau yn yr ysgol
5. Gweithgareddau sy'n seiliedig ar gyfiawnder ieuenctid

Byddai ymagwedd o'r fath yn darparu ffordd syml o fapio gweithgarwch ar draws Cymru ac o adnabod unrhyw fylchau yn yr ymagwedd ymyrryd. Mae'n darparu matrices ar gyfer cynllunio gwaith gwerthuso, fel y gellir adeiladu dealltwriaeth fanwl, gynhwysfawr a chronnol o ehangder ac amrywiaeth gwaith atal troseddau ieuenctid.

Rydym yn awgrymu y gallai defnyddio matrices o'r fath i strwythuro (1) comisiynu gwerthusiadau i leihau troseddau ieuenctid a (2) gwaith dadansoddi a chofnodi canfyddiadau helpu i ymdrin â'r prinder presennol o wybodaeth fanwl mewn perthynas â 'yr hyn sy'n gweithio' mewn gwaith atal troseddau ieuenctid. Hefyd, gallai esbonio ymagweddau a argymhellir at ddatrys problemau ar lefel strategol (e.e. SARA) yn y maes gwaith hwn helpu wrth dargedu adnoddau'n

¹¹¹ Ceir diffiniadau llawn y termau hyn yn y prif adroddiad.

lleol ac wrth gasglu a dosbarthu'r math o dystiolaeth y cyfeiriwyd ati uchod.

Gwneud y mwyaf o effaith posibl ymyriadau

Gallai deallusrwydd partneriaeth gydgysylltiedig wella effeithiolrwydd ymyriadau lleol, ond efallai y byddai angen y canlynol i gyflawni hyn:

- Creu strategaethau sy'n gwahaniaethu rhwng (1) nodau di-oed, tactegol a (2) cynlluniau tymor canolig i hir-dymor ar gyfer cynnal effaith – er mwyn lleihau risg, trosedd ac anhrefn yn ogystal â gwella hawliau. O fewn yr ymagwedd hon, mae angen diffinio repertoire eang o ymatebion ataliol sy'n ymdrin nid yn unig â throseddwr cyson iawn a throseddwr sy'n flaenoriaeth; ond hefyd gwaith ataliol gyda grwpiau 'mewn perygl'; a gwaith ataliol ar gyfer y boblogaeth gyfan o bobl ifanc. Byddai hyn yn helpu i ddarparu hawliau cyffredinol a fyddai ar gael yn ddiamod ac yn rhad ac am ddim yn y man darparu – yn unol â Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan.
- Datblygu cynllun cyflenwi y gall Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ei ddefnyddio i fapio a dilysu (1) cydbwysedd lleol y gwahanol ymyriadau ataliol; a (2) sut y bydd effaith a chanlyniadau'n cael eu hasesu'n systematig. Mae angen i gylchoedd asesu ar lefel prosiect a strategol gael eu hamseru fel y gallent roi adborth yn effeithiol i gynhyrchiad strategaethau atal troseddau ieuentid. Mae angen ehangu ar ddulliau gwerthuso fel eu bod yn galluogi i bartneriaethau asesu canlyniadau (nid dim ond allbynnau) prosiectau atal troseddau ieuentid.
- Gwell gallu dadansoddol i bartneriaethau sy'n cysylltu dadansoddwyr gyda'r broses o gomisiynu prosiectau ataliol; ac sy'n ymgorffori nid yn unig dadansoddwyr yr heddlu ac YOS, ond hefyd yr awdurdodau cyfrifol eraill. Er mwyn ategu'r ymagwedd fwy dadansoddol hon, gallai cymorth gwyddonwyr cymdeithasol roi cyngor ar 'fframio' neu gysyniadu problemau trosedd ac anhrefn ieuentid, a diogelwch ieuentid ac ansawdd bywyd.

Cyfeiriadau

Archer, D., Skinns, L. a Longstaff, E. (2002) *Promising prevention: A review of promising and effective approaches to preventing offending by young people*. Llundain: NACRO CSP.

Edwards, A. a Hughes, G. (2008) *The Role of the Community Safety Officer in Wales*, WACSO/Prifysgol Caerdydd.

Farrington, D.P. (1996) *Understanding and Preventing Trosedd ieuencid*. Efrog: JRF.

France, A. a Crow, I. (2005) 'Using the 'risk factor paradigm' in prevention: lessons from the evaluation of Communities that Care', *Children and Society*, 19(2): 172-184.

Haines, K. Case, S. a Portwood, J. (2004) *Ymestyn Hawliau – Llundain Gweledigaeth o Arferion Effeithiol ar ran Pobl Ifanc yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Haines, K. a Case, S. (2008) 'Rhetoric and reality of the risk factor paradigm', *Youth Justice*, 8:1, tt. 5-20.

Hawkins, J.D. a Catalano, R.F. (1992) *Communities that Care*. San Francisco: Jossey-Bass.

Hope, T. (1998) 'Community crime prevention', yn P. Goldblatt a C. Lewis (gol) *Reducing Offending: An Assessment of Research Evidence on Ways of Dealing with Offending Behaviour*. Home Office Research Study 187. Llundain: Y Swyddfa Gartref.

Maruna, S. ac ARCS Ltd (2008) *Reducing offending: A critical review of the international research evidence*. Caergrawnt: ARCS. (Adroddiad hwfyd yn: http://www.nio.gov.uk/2008_reducing_offending_a_critical_review_of_the_international_research_evidence.pdf)

Morgan Harris Burrows (2003) *Evaluation of the Youth Inclusion Programme*. Llundain: MHB.

Morgan, R. (2002) *Annual lecture of the National Centre for Public Policy*, Abertawe: Prifysgol Abertawe.

Newburn, T. a Souhami, A. (2005) 'Youth diversion', yn N. Tilley (gol) *Handbook of crime prevention and community safety*, Cullompton: Willan.

Walker, J., Thompson, C., Laing, K., Raybould, S., Coombes, S., Proctor, S. a Wren, C. (2007) *Youth Inclusion and Support Panels: Preventing Scientists and Practitioner-researchers*. Rhydychen: Blackwell.

Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2004) *Strategaeth Troseddwydwr Ifanc Cymru Gyfan*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru .

Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2008) *Atal Troseddau Ieuenctid yng Nghymru: Canllaw Strategol*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Atodiad 1 – Dadansoddiad o duedd

Tabl 1 Nifer y Troseddau Ieuenctid yng Nghymru (2002-07) yn ôl rhyw ac oed


| Trosedd | Nifer 2002-07 | % o'r Cyfanswm | % gwrywaidd | % rhwng 10-15 oed |
|-------------------------------------|------------------|-------------------|----------------|----------------------|
| Troseddau Moduro | 18,272 | 21% | 97% | 23% |
| Dwyn a thrin | 14,973 | 17% | 68% | 59% |
| Trais yn erbyn person | 11,038 | 13% | 73% | 53% |
| Difrod troseddol | 10,660 | 12% | 86% | 59% |
| Yn erbyn y drefn gyhoeddus | 8,759 | 10% | 76% | 39% |
| Dwyn cerbydau | 4,228 | 5% | 92% | 43% |
| Troseddau cysylltiedig â chyffuriau | 4,151 | 5% | 87% | 33% |
| Torri gorchymyn statudol | 3,291 | 4% | 87% | 32% |
| Eraill | 3,001 | 3% | 83% | 43% |
| Byrgleriaeth domestig | 2,440 | 3% | 93% | 57% |
| Byrgleriaeth annomestig | 2,185 | 3% | 95% | 58% |
| Torri Mechnïaeth | 1,932 | 2% | 84% | 29% |
| Twyll a ffugio | 676 | 1% | 66% | 31% |
| Troseddau rhywiol | 562 | 1% | 96% | 52% |
| Lladrad | 495 | 1% | 90% | 54% |
| Tanau bwriadol | 486 | 1% | 87% | 69% |
| Troseddau a gythruddwyd gan hil | 460 | 1% | 75% | 50% |
| Torri Rhyddhad Amodol | 363 | * | 83% | 30% |
| Lladd neu anafu trwy yrru'n ddi-hid | 34 | * | 97% | 47% |
| I gyd | 88,006 | 100% | 83% | 44% |

Noder*: llai na 0.5%

Tabl 2 Nifer y troseddau ieuenctid yn ôl y math o drosedd a'r flwyddyn (Cymru 2002-07)

| Trosedd | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | % y newid 2002-2007 |
|-------------------------------------|---------|---------|---------|---------|---------|------------------------|
| Dwyn a thrin | 3,120 | 3,054 | 2,973 | 3,144 | 2,682 | -14% |
| Trais yn erbyn person | 1,983 | 2,167 | 2,017 | 2,206 | 2,665 | +34% |
| Troseddau Moduro | 4,851 | 4,358 | 3,586 | 2,960 | 2,517 | -48% |
| Difrod troseddol | 2,015 | 2,005 | 1,961 | 2,280 | 2,399 | +19% |
| Yn erbyn y drefn gyhoeddus | 1,648 | 1,715 | 1,734 | 1,815 | 1,847 | +12% |
| Torri gorchymyn statudol | 434 | 557 | 592 | 766 | 942 | +117% |
| Dwyn cerbydau | 1,101 | 947 | 696 | 742 | 742 | -33% |
| Troseddau cysylltiedig â chyffuriau | 970 | 1,029 | 807 | 800 | 545 | -44% |
| Eraill | 707 | 649 | 599 | 515 | 531 | -25% |
| Byrgleriaeth domestig | 637 | 548 | 400 | 433 | 422 | -34% |
| Byrgleriaeth annomestig | 481 | 495 | 400 | 411 | 398 | -17% |
| Torri Mechnïaeth | 351 | 396 | 381 | 411 | 393 | +12% |
| Troseddau a gythruddwyd gan hil | 79 | 66 | 96 | 102 | 117 | +48% |
| Lladrad | 89 | 125 | 91 | 75 | 115 | +29% |
| Troseddau rhywiol | 164 | 108 | 97 | 81 | 112 | -32% |
| Tanau bwriadol | 111 | 106 | 85 | 93 | 91 | -18% |
| Torri Rhyddhad Amodol | 66 | 64 | 54 | 94 | 85 | +29% |
| Twyll a ffugio | 144 | 136 | 189 | 140 | 67 | -53% |
| Lladd neu anafu trwy yrru'n ddi-hid | 6 | 3 | 8 | 11 | 6 | 0% |
| Cyfanswm | 18,957 | 18,528 | 16,766 | 17,079 | 16,676 | -12% |

Ffigwr 1 Rhybuddion terfynol a roddwyd i droseddwyr ifanc yng Nghymru 2002-07



Tabl 3 Proffil ardal CSPs yng Nghymru

| | Maint y boblogaeth (Cyfrifiad 2001) [#] | % o dan 20 oed | Nifer y troseddau hysbysadwy (2006-07) [*] | Troseddau hysbysadwy fel % o'r boblogaeth |
|--------------------------|--|----------------|---|---|
| Blaenau Gwent | 70,050 | 26.2% | 6,382 | 9.1% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 128,649 | 25.1% | 8,896 | 6.9% |
| Caerffili | 169,536 | 26.6% | 14,165 | 8.4% |
| Caerdydd | 305,347 | 26.7% | 38,683 | 12.7% |
| Sir Gâr | 172,831 | 24.2% | 10,056 | 5.8% |
| Ceredigion | 74,958 | 23.4% | 3,602 | 4.8% |
| Conwy | 109,593 | 22.7% | 9,222 | 8.4% |
| Sir Ddinbych | 93,049 | 24.2% | 8,263 | 8.9% |
| Sir Y Fflint | 148,563 | 25.4% | 9,759 | 6.6% |
| Gwynedd | 116,843 | 24.4% | 8,567 | 7.3% |
| Merthyr Tydfil | 55,984 | 26.8% | 5,654 | 10.1% |
| Sir Fynwy | 84,875 | 24.6% | 4,914 | 5.8% |
| Castell Nedd Port Talbot | 134,467 | 24.5% | 9,131 | 6.8% |
| Casnewydd | 136,994 | 27.5% | 17,366 | 12.7% |
| Sir Benfro | 114,138 | 25.2% | 7,287 | 6.4% |
| Powys | 126,347 | 23.9% | 6,196 | 4.9% |
| Rhondda Cynon Taf | 231,937 | 26.0% | 17,330 | 7.5% |
| Abertawe | 223,302 | 24.3% | 18,992 | 8.5% |
| Torfaen | 90,940 | 26.3% | 7,368 | 8.1% |
| Bro Morgannwg | 119,304 | 26.6% | 8,211 | 6.9% |
| Wrecsam | 128,482 | 24.8% | 11,669 | 9.1% |
| Ynys Mon | 66,824 | 24.1% | 4,734 | 7.1% |
| Cymru | 2,903,013 | 25.3% | 236,447 | 8.1% |

[#]: Ffigyrau Cyfrifiad 2001 Hawlfraint y Goron .

^{*}: Mae'r ffigyrau hyn (o Ebrill 2006-Mawrth 2007) wedi'u seilio ar droseddau allweddol o gyfres trais a gofnodwyd y Swyddfa Gartref, sy'n cwmpasu'r holl 'troseddau hysbysadwy' a gofnodwyd gan yr heddlu. Nid yw hyn yn golygu pob trosedd treisiol, gan fod bron â bod yr holl droseddau diannod bach wedi'u heithrio (er efallai bod yr heddlu'n eu cofnodi ar gyfer eu harchwiliadau eu hunain).

Atodiad 2 – Disgrifiad o gategoriâu dadansoddol

Defnyddiwyd y Gronfa Cymunedau Diogelach i ddarparu mwy na 200 o ymyriadau bob blwyddyn. O wybod lefel sylweddol amrywiaeth y mathau o fenter a ariannwyd, mae'n rhaid eu trefnu'n grŵp mwy hylaw o fathau o ymyriad er mwyn eu disgrifio ymhellach.

Defnyddiwyd dau fath o ddsbarthiad yn y gwerthusiad hwn¹¹²:

1. Dosbarthiad o 19 o ddsbarthiadau eang yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r meysydd amcan, problem ac ymateb sy'n seiliedig ar SARA yn y gronfa ddata¹¹³.
2. Dosbarthiad yn seileidig ar sut yr oedd yr ymyriadau a ariannwyd gan SCF yn gweithio gyda phobl ifanc¹¹⁴.

Dosbarthiad 1: ymatebion sy'n seiliedig ar SARA

Mae'r meysydd data amcan, problem ac ymateb sy'n seiliedig ar SARA wedi'u dosbarthu'n 19 prif fath¹¹⁵, yn seiliedig ar themâu sy'n amlwg yn y data ac ar flaenoriaethau polisi presennol:

1. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
2. Lleihau byrgleriaeth
3. Troseddu yn erbyn Busnesau
4. Cydlyniant a sicrwydd cymunedol (e.e. Neighbourhood Watch)
5. Lleihau trosedd
6. Materion amrywiaeth a throseddau hil/casineb
7. Trais domestig
8. Gwaith partneriaeth, cymorth neu ddatblygiad
9. Prosiectau ar gyfer cyn-droseddwyr (ymaddasu neu adsefydlu)
10. Troseddwyr cyson iawn/blaenoriaeth
11. Cyfiawnder adferol¹¹⁶
12. Camddefnyddio sylweddau
13. Gwyliadwriaeth (e.e. TCC)
14. Trosedd cerbydau (gan gynnwys tanau bwriadol mewn cerbydau)
15. Cymorth i Ddiodefswyr (ar wahân i drais domestig).
16. Troseddu treisgar (ar wahân i drais domestig).
17. Troseddau ieuencid (gan gynnwys mentrau mewn cydweithrediad â YOTs)
18. Prosiectau ieuencid/ diogelwch ieuencid¹¹⁷
19. Eraill¹¹⁸

¹¹² Mae'r ddau ddsbarthiad yn amodol ar y nifer gymharol gyfyngedig o wybodaeth sydd ar gael yn y Gronfa ddata Ariannu – gwybodaeth sy'n amrywio'n eang yn nhermau lefel y manylder a chyflawnder ar draws gwahanol ardaloedd.

¹¹³ Mae hyn wedi'i gwblhau ar gyfer pob ymyriad a ariannwyd gan y Gronfa Cymunedau Diogelach a'r tair cronfa fawr arall ac felly mae'n galluogi rhywfaint o gymharu o sut y defnyddiwyd y gwahanol ffrydiau ariannu.

¹¹⁴ Mae hyn yn adeiladu ar y dosbarthiad a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r astudiaethau achos manylach yn Adran 6.

¹¹⁵ Mae yna orgyffwrdd posibl rhwng rhai o'r categorïau hyn – gweler yr adroddiad gwerthuso llawn am drafodaeth fanylach ar y dulliau categorïedd.

¹¹⁶ Ymatebion sy'n seiliedig ar fodel cyfiawnder adferol o ddod â diodefswyr, troseddwyr a chymunedau at ei gilydd i benderfynu ar ymateb i drosedd arbennig.

¹¹⁷ Mae'r rhain yn fentrau sydd wedi'u hanelu at ymgysylltu â neu weithio gyda phobl ifanc i atal neu leihau'r risg o droseddu. Maent wedi'u gwahanu oddi wrth y grŵp troseddau ieuencid oherwydd eu bod wedi'u hanelu'n fwy cyffredinol at bobl ifanc, gan gynnwys y rheiny nad ydynt efallai'n troseddu.

Dosbarthiad 2: sut yr oedd y prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc

Datblygwyd teipoleg o ymyriadau a ariannwyd gan SCF, yn seiliedig ar sut y mae'r ymyriadau'n gweithio gyda phobl ifanc¹¹⁹ a defnyddiwyd hwn hefyd i strwythuro'r gwaith astudiaeth achos¹²⁰.

Tabl 0-1 Teipoleg o sut yr oedd ymyriadau'n gweithio gyda phobl ifanc

| Dosbarthiad | Disgrifiad |
|---|--|
| Gweithgareddau seiliedig ar hamdden dan gyfarwyddyd (DL) | Mewn lleoliadau cyfundrefnol fel clybiau ieuenctid, twrnameintiau chwaraeon cyfundrefnol, gweithgareddau awyr agored. |
| Gweithgareddau seileidig ar hamdden hunan-gyfeiriol (SDL) | Gwaith allgymorth gyda phoblogaethau stryd. |
| Gweithgareddau wedi'u seilio ar y teulu (FAM) | Gyda'u rhieni, gwarcheidwaid, brodyr a chwiorydd a'u plant eu hunain. |
| Gweithgareddau yn y gymuned (SCH) | Materion addysgol fel iechyd rhywiol, camddefnyddio sylweddau, a chymorth i'r rheiny sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu o driwantiaeth. |
| Gweithgareddau seiliedig ar gyfiawnder ieuenctid (YJ) | Gwaith gyda phobl ifanc y mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn gwybod amdanynt. |
| Eraill (OTH) | Mathau eraill o ymyriad nad ydynt yn ffitio'n glir i'r dosbarthiadau eraill. |
| Anhysbys (NK) | Ymyriadau lle nad oes yna ddigon o wybodaeth yn y gronfa ddata i wybod sut y maent yn gweithio gyda phobl ifanc. |

¹¹⁸ Mae hyn yn cynnwys arian mwy gweinyddol fel hyfforddi staff. Hefyd, mae'n cynnwys grŵp bach lle nad oedd yn bosibl gael wybodaeth o'r gronfa ddata ynglŷn â pha fath o ymatebion oedd yn cael eu cynnig.

¹¹⁹ Y nod gwreiddiol oedd dosbarthu pob ymyriad a ariannwyd gan SCF yn y ffordd hon, ond bu hyn yn broblemus gan nad oedd y data oedd ar gael yn y Gronfa Ddata Prosiect Ariannu yn aml yn rhoi digon o fanylion i gyflawni hyn. Lle bu'n bosibl, ceisiwyd gwneud dosbarthiad, er bod hyn wedi cynnwys gwneud dehongliadau a dyfarniadau'n seiliedig ar lefelau cyfyngedig o wybodaeth.

¹²⁰ Mae dau god newydd wedi'u hychwanegu at y pump a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r astudiaethau achos er mwyn dosbarthu pob prosiect a ariannwyd gan SCF – grŵp 'arall' a grŵp na fu'n bosibl rhoi dosbarthiad arnynt o ganlyniad i lefel cyfyngedig yr wybodaeth oed ar gael. Gellid honni bod rhai ymyriadau'n cwmpasu mwy nag un math o ddosbarthiad ond yn yr adran hon, dim ond un grŵp dosbarthu a ddewiswyd yn seiliedig ar y prif ddisgrifiadau a roddwyd yn y gronfa ddata.